| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR LLAWN |
| **DYDDIAD** | 12 Mai 2011 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion yn nalgylch y Berwyn |
| **PWRPAS** | Ceisio cefnogaeth y Cyngor i'r argymhellion i ad-drefnu ysgolion dalgylch y Berwyn a hynny wedi cyfnod o ymgynghoriad statudol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

**NODYN**:

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn ymgynghoriad statudol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion dalgylch y Berwyn. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gofynion proses statudol, canllawiau Llywodraeth y Cynulliad a strategaeth ad-drefnu ysgolion Cyngor Gwynedd. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys y canlynol fel a ganlyn:

**MYNEGAI**


| | |
|---|---|
| | **Adroddiad Llawn** |
| **Atodiad 1** | **Dogfennau Ymgynghori** |
| Atodiad 1.1 | Dogfen Ymgynghoriad i sefydlu Ysgol Gymuned ar gampws dysgu gydol oes yn nhref y Bala |
| Atodiad 1.2 | Dogfen Ymgynghoriad i gau Ysgol Y Parc |
| **Atodiad 2** | **Cofnodion Cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol** |
| Atodiad 2.1 | Cofnodion cyfarfodydd yn Ysgol Beuno Sant |
| Atodiad 2.2 | Cofnodion cyfarfodydd yn Ysgol Bro Tegid |
| Atodiad 2.3 | Cofnodion cyfarfodydd yn Ysgol y Berwyn |
| Atodiad 2.4 | Cofnodion cyfarfodydd yn Ysgol Y Parc |
| **Atodiad 3** | **Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau o'r Ymgynghoriad Statudol** |
| Atodiad 3.1 | Dadansoddiad ac ymateb i sylwadau o'r Ymgynghoriad Statudol i sefydlu Ysgol Gymuned ar gampws dysgu gydol oes yn nhref y Bala |
| Atodiad 3.2 | Dadansoddiad ac ymateb i sylwadau o'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Y Parc |
| Atodiad 4 | Dadansoddiad i ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc |
| **Atodiad 5** | **Cwestiynau ac Atebion** – Materion yn ymwneud â'r cynnig i gau Ysgol Y Parc |
| **Atodiad 6** | **Rhestr dogfennau cefndirol a gwybodaeth bellach** |


Cynhyrchir dadansoddiad o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol i'r adroddiad hwn. Cytunwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Statudol y byddai copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hanfon at Aelodau Etholedig. Sicrheir bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio (yn dilyn golygu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998) a gellir eu gweld yn Swyddfeydd y Cyngor (yr Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a Llyfrgell y Bala.

Trafodwyd adroddiad ar y mater hwn gan y Pwyllgor Craffu Plant a Pobl Ifanc yn eu cyfarfod 24 Chwefror 2011 ac yna gan Fwrdd y Cyngor 15 Mawrth 2011.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cafodd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ei sefydlu ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 cyfarfod i drafod amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys cyflwyniadau gan:

- Lywodraeth y Cynulliad
- ESTYN/Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Prifathrawon yn cynrychioli ysgolion bychain, canolig eu maint a mawr yng Ngwynedd
- National Association for Small Schools

1.3 Yn ystod Gwanwyn 2009, fe gyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.*

1.4 Cytunwyd bod angen i adolygu addysg ym mhob rhan o'r sir, fesul dalgylch. Gosodwyd camau eglur ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Roedd yn cynnwys rhestr o amcanion a meini prawf i'w cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol
- Amgylchiadau Eithriadol
- Cylchlythyrau 23/02 a 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad

1.6 Datblygwyd amrediad o feini prawf penodol o gwmpas y ffactorau uchod. Wrth ystyried sefyllfa dalgylchoedd unigol yn erbyn y meini prawf, gwelwyd mai Tywyn oedd y dalgylch cyntaf i gael ei adolygu, ac wedyn y Berwyn.

1.7 ***Cymeradwywyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009.***

1.8 Mae amlinelliad isod o'r cynigion ar gyfer ad-drefnu addysg yn nalgylch y Berwyn.

## 2. ADOLYGIAD O DDALGYLCH Y BERWYN

### *2.1 Dulliau cyfathrebu*

2.1.1 Cafodd nifer o fforymau eu sefydlu er mwyn holi barn wrth i'r Arweinydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, yn cynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yr ysgolion yn y dalgylch
- Cyfarfod arbennig o'r Panel Adolygu Dalgylch i drafod materion iaith a chymuned fel rhan o'r asesiadau effaith
- Cyfathrebu ehangach
- Panel Ymgynghorol Sirol

2.1.2 Fe wnaethpwyd yn sicr hefyd bod gwybodaeth ar gael mewn ysgrifen i bawb oedd â diddordeb, yn cynnwys cyhoeddi'r holl bapurau perthnasol ar wefannau'r Cyngor.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch y Berwyn*

2.2.1 Fe sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch y Berwyn yn ystod Tachwedd 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 4 Tachwedd 2009. Roedd pedwar cyfarfod pellach, ar 2 Rhagfyr 2009, 4 Chwefror 2010, 23 Mawrth 2010 a 12 Mai 2010.

2.2.2 Gwahoddwyd cynrychiolwyr – pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant-lywodraethwr – o bob un o'r chwe ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiadau hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd y Berwyn, y tri chynghorydd lleol a chynrychiolydd o Esgobaeth Llanelwy. Estynnwyd gwahoddiad pellach i dri chynghorydd o siroedd cyfagos, sef Conwy a Dinbych, yn ogystal â'r ysgolion cyfagos yn y siroedd hynny. **Roedd 24 aelod parhaol yn cynrychioli'r dalgylch yn bresennol mewn 5 cyfarfod.**

2.2.3 Bu'r Panel yn cael a thrafod amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys pecyn o ystadegau ar yr ardal, ac fe gytunodd y Panel cyfan eu bod yn adlewyrchiad llawn a chywir o'r sefyllfa. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion gyflwyno eu sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth bellach roedd ei hangen. Ar ddiwedd ail gyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 2 Rhagfyr 2009, ***cytunodd aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch fod y wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn adlewyrchiad llawn a chywir o'r sefyllfa yn y dalgylch a bod ceisiadau pellach oddi wrth y dalgylch i newid neu ehangu ar y wybodaeth wedi cael eu hateb yn llawn.***

2.2.4 Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd ar:

- y cefndir ariannol
- datblygiadau cenedlaethol yn cynnwys canllawiau'r Llywodraeth ar drafod cynigion i ad-drefnu ysgolion a'r rheoliadau newydd ar gyfer sefydlu patrymau o gydweithredu rhwng ysgolion

2.2.5 Ar gais y Panel Adolygu Dalgylch, paratowyd rhestr hir o ddewisiadau posibl ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn yr ardal. Cafodd y rhestr hir ei hidlo i lawr i 7 prif fodel dalgylch i'w hystyried ymhellach. Cafodd y panel ddadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un o'r cynigion yn y cyfarfod ar 4 Chwefror 2010. Bu trafodaeth fanwl ar

fanteision ac anfanteision y dewisiadau oedd ar gael yng nghyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 23 Mawrth 2010. Mae'r dewisiadau'n cael eu rhestru isod:

- dim newid
- patrwm o gydweithio rhwng ysgolion yn nhref y Bala
- patrwm o gydweithio rhwng ysgolion gwledig yn yr ardal
- ysgol ardal yn nhref y Bala yn lle ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid, gyda'r dewis o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant
- ysgol ardal yn nhref y Bala i gynnwys ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid a Bro Tryweryn gyda'r dewis o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant
- cau Ysgol y Parc a throsglwyddo disgyblion i Ysgol OM Edwards
- cau'r holl ysgolion yn y dalgylch a sefydlu ysgol ardal newydd yn nhref y Bala gyda'r dewis o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant

***2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol***

2.3.1 Aeth yr Arweinydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol (Cyng. Siân Gwenllian) i ymweld â phob ysgol yn y dalgylch ar ddechrau'r broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod penaethiaid a gweld a chael dealltwriaeth o'r sefyllfaoedd yn wynebu ysgolion unigol.

2.3.2 Cynhaliwyd cylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau o amser rhwng 1 ac 18 Mawrth 2010. Roedd gwahoddiad agored i staff, llywodraethwyr a rhieni ddod i gyfarfodydd ar wahân. Darparwyd cyfleoedd i drafod materion cyffredinol yn cynnwys y modelau penodol oedd dan sylw.

2.3.3 ***Felly cynhaliwyd 21 o gyfarfodydd unigol a gymerodd 6 diwrnod llawn gyda chynrychiolwyr o ysgolion unigol, yn ogystal ag ymweliad oddi wrth yr Arweinydd Portffolio a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol.***

***2.4 Plant a Phobl Ifanc***

2.4.1 Fe awgrymwyd yn ystod y cyfarfod cyntaf o'r Panel Adolygu Dalgylch ar 4 Tachwedd 2009 y dylid gofyn barn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Roedd cynrychiolydd pob un o'r ysgolion ar y Panel Adolygu Dalgylch yn cytuno efo hyn.

2.4.2 Hysbyswyd ysgolion unigol y cai'r sesiynau i blant a phobl ifanc eu cynnal yn Ysgol Uwchradd y Berwyn ar 11 Mawrth 2010. Gofynnwyd i ysgolion drefnu dirprwyaeth o aelodau Cyngor yr Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 plentyn o bob ysgol.

2.4.3 Gwahoddwyd pennaeth pob ysgol i ddod i'r sesiwn efo'r plant a gyrrwyd agenda i'r prifathrawon o'r gweithgareddau a'r cwestiynau oedd i gael eu gofyn i'r plant a phobl ifanc. Cafodd penaethiaid gyfle i gwestiynu'r trefniadau a chynnig gwelliannau. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach oddi wrth y penaethiaid cyn y sesiwn.

2.4.4 Roedd swyddogion arbenigol o'r Cyngor yn hwyluso'r sesiwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2010.

2.4.5 Cynhaliwyd amrediad o weithgareddau i gael gwybod barn y plant a phobl ifanc ar nifer o bynciau, yn cynnwys:

- maint dosbarthiadau
- amrediad oed mewn dosbarth
- cyfrwng iaith plant tu allan i'r ystafell ddosbarth
- pellteroedd teithio i'r ysgol

2.4.6 Ar ddiwedd y sesiwn, gofynnwyd i'r plant a phobl ifanc awgrymu pa fath o gyfleusterau y byddent yn dymuno eu gweld mewn ysgol.

2.4.7 Cynhyrchwyd adroddiad llawn ar y sesiwn. Yn gyffredinol, roedd y plant yn deyrngar i'w hysgol a'u hathrawon wrth dangos bod nifer o adnoddau y byddent yn dymuno eu gweld yn eu hysgolion. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno fel Atodiad 4 i'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hefyd i'w weld ar wefan y Cyngor.

***2.5 Panel Ymgynghorol Sirol***

2.5.1 Trwy gymeradwyo'r strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad, fe wnaeth y Cyngor ganiatáu i aelodau'r Gweithgor Gwella barhau fel fforwm i gefnogi'r Arweinydd Portffolio Addysg tra roedd hi'n arwain adolygiadau, fesul dalgylch. Gwnaethpwyd hynny drwy ddefnyddio'r enw *Panel Ymgynghorol Sirol*. ***Gwahoddwyd aelodau o bob grŵp gwleidyddol ar Gyngor Gwynedd.***

2.5.2 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn y Berwyn, ar 7 Rhagfyr 2009, 28 Ionawr, 24 Chwefror a 24 Mawrth 2010.

2.5.3 Fe wnaeth y Panel gynnig nifer o ddewisiadau ar gyfer ad-drefnu ysgolion yr ardal, ynghyd â dadansoddiad o'r modelau a gynigiwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.4 Roedd pob grŵp gwleidyddol ond un yn cael ei gynrychioli ar y Panel Sirol. Fe wnaeth aelod o'r Panel ymddiswyddo cyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2009.

2.5.5 ***Cafodd y modelau ar gyfer y dalgylch eu trafod yn ofalus gan y Panel Ymgynghorol Sirol a rhoddodd yr aelodau eu barn.***

***2.6 Asesiad Effaith Cymuned ac Iaith***

2.6.1 Fel rhan o'r broses, comisiynwyd Ymgynghoriaeth Dylan Bryn Roberts i wneud asesiad o effeithiau posibl y gwahanol gynigion ad-drefnu ar iaith a chymuned. Fe wnaeth y Cyngor hefyd gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynigion cyn dechrau'r ymgynghori statudol.

2.6.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion unigol i gasglu gwybodaeth a chanfyddiadau. Paratowyd holiadur i gael barn staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach ar y dewisiadau. Dosbarthwyd copïau o'r holiadur yn electronig ac ar bapur.

2.6.3 Mae canlyniadau asesiadau wedi cael rhan greiddiol mewn datblygu'r cynigion a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

2.6.4 Mae'r adroddiadau llawn i'w gweld ar wefan y Cyngor.

*2.7 Cyfathrebu mewn Ysgrifen*

2.7.1 ***Paratowyd pedair newyddlen, i'w dosbarthu i bob ysgol yn dilyn pob cyfarfod ond un o'r Panel Adolygu Dalgylch. Gyrrwyd copïau papur i'r ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, gyrrwyd y newyddlen trwy e-bost i bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor. Roedd y bedwaredd un yn crynhoi'r cynigion fyddent yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor.***

2.7.2 Cyhoeddwyd holl bapurau'r Panel Adolygu Dalgylch ar wefan y Cyngor.

2.7.3 Roedd manylion cyswllt y swyddogion yn ymwneud â'r gwaith yma i'w gweld ar y wefan.

*2.8 Statws y Broses*

2.8.1 Noder bod y gweithgareddau sydd wedi digwydd hyd yma yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion dechreuol.

2.8.2 Cafodd y cylchlythyr *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* 021/2009 ei gyhoeddi ar 18 Medi 2009. Mae'r cylchlythyr hwn yn berthnasol i'r cynigion yma.

2.8.3 ***Mae felly'n cael ei gadarnhau nad yw'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy wrth lunio'r cynigion hyn yn rhan o'r broses statudol o adolygu'r ddarpariaeth yn nalgylch y Berwyn. Mae'r trafodaethau hyd yn hyn yn ychwanegol at yr hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth y Cynulliad.***

## 3. CYNIGION AR GYFER DALGYLCH Y BERWYN

3.1 Ar 12 Mai 2010, cyflwynodd yr Arweinydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch y Berwyn i'r Panel Adolygu Dalgylch, sef:

- ***Campws Gydol Oes Newydd ar gyfer tref y Bala*** i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2014-15 yn cynnwys ***ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Uwchradd y Berwyn.*** Byddai angen i swyddogion wneud gwaith pellach ar natur reolaethol y campws newydd.
- ***Cau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012,*** gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn
- ***Hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac O M Edwards a'r Campws Gydol Oes newydd.***

3.2 Cafodd y cynigion eu derbyn gan Gyngor Gwynedd ar 15 Gorffennaf 2010 fel sail ar gyfer ymgynghori statudol ffurfiol.

## 4. YR YMGYNGHORI STATUDOL

4.1 Yn unol â'r gofynion statudol a chyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad, fe ymgymerodd Cyngor Gwynedd â chyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion gyda'r rhai perthnasol oedd â diddordeb, o 13 Rhagfyr 2010 hyd 4 Chwefror 2011.

4.2 Paratowyd papur Ymgynghori Statudol, a'i ddosbarthu i'r rhai perthnasol i ymgynghori â hwy yn yr ardaloedd a wasanaethid gan Ysgol Uwchradd y Berwyn ac Ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid, a pharatoi papur Ymgynghori Statudol pellach a'i ddosbarthu i'r rhai perthnasol i ymgynghori â hwy yn nalgylch y Parc yn ystod wythnos 6 Rhagfyr 2010.

4.3 Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ym mhob un o'r ysgolion roedd hyn yn effeithio arnynt, rhwng 10 ac 19 Ionawr 2011. Cymerwyd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn gan swyddogion o'r Cyngor, a dosbarthu'r rheiny i'r ysgolion perthnasol. Mae'r cofnodion y cytunwyd arnynt ynghlwm wrth hwn fel Atodiad 2. Roedd y cyfarfodydd ar y dyddiadau a ganlyn:

| Ysgol | Dyddiad | Cyfarfodydd |
|---|---|---|
| **Y Parc** | 10/1/11 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr. Ar gais yr ysgol, cafodd aelodau o'r gymuned ehangach hefyd ddod i'r cyfarfod rhieni. |
| **Y Berwyn** | 13/1/11 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr. |
| **Beuno Sant** | 18/1/11 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr. |
| **Bro Tegid** | 19/1/11 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr. |

4.4 Cytunwyd yn ystod cyfarfodydd Ymgynghori Statudol y byddai cofnodion o'r cyfarfodydd a chopïau o ymatebion mewn ysgrifen eu darparu i Aelodau Etholedig trwy eu grwpiau gwleidyddol. Bydd copïau ar gael i'r cyhoedd eu gweld (yn amodol ar olygu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998) a gellir eu gweld yn Swyddfeydd y Sir (yr Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgell y Bala.

4.5 Mae hefyd yn ofynnol yn ôl y Cylchlythyr perthnasol oddi wrth y Llywodraeth fod disgyblion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghori. Fe gynigiodd y Cyngor ddwy ffordd i ysgolion o wneud hyn - naill ai drwy drefnu i hwylusydd annibynnol siarad efo'r disgyblion neu drwy baratoi dogfen ymarfer mewn ysgrifen i gael ei chwblhau gan ddisgyblion o dan gyfarwyddyd eu hathro. Dewisodd y tair ysgol yn y Bala i weinyddu'r ymarfer eu hunain. Gofynnodd Ysgol y Parc am hwylusydd annibynnol i arwain sesiwn ar gyfer cyn ddisgyblion a'r disgyblion presennol. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd ynghlwm wrth hwn yn Atodiad 4.

4.6 Erbyn 4 Chwefror 2011, roedd cyfanswm o 85 o ymatebion wedi cyrraedd o ddalgylch y Berwyn, gan gynnwys dwy ddeiseb - un o 30 o lofnodion yn cefnogi sefydlu ysgol gydol oes yn nhref y Bala, a'r llall o 668 o lofnodion yn gwrthwynebu cau Ysgol y Parc. Mae manylion yr ymatebion isod:

| Ysgol | Llythyrau | E-bost | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Y Parc** | 48 | 25 | 1 (668) | 74 |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tref y Bala** | 4 | 4 | 1 (30) | 9 |
| | | | | |
| **Cyffredinol** | 1 | 2 | 0 | 3 |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **53** | **31** | **2** | **86** |

## 5. Sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod Ymgynghori Statudol

5.1 Gwnaethpwyd dadansoddiad o'r holl ymatebion ac mae adroddiad ansoddol ar y sylwadau a gafwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny ynghlwm wrth hwn yn Atodiad 3.

5.2 Rhannwyd yr ymatebion yn dair rhan. Mae rhan 6 yn delio gydag ymatebion yn canolbwyntio ar Ysgol y Parc a rhan 7 gydag ymatebion sy'n trafod ysgolion yn nhref y Bala (Ysgol Uwchradd y Berwyn ac Ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid). Yn rhan 8, rhoir sylw i ymatebion cyffredinol yn delio gyda naill ai'r ddau gynnig ar unwaith neu yn ymateb mwy cyffredinol i strategaeth ad-drefnu'r Cyngor.

5.3 Mae gwybodaeth bellach isod am ymateb y Cyngor.

## 6. YMATEBION O YSGOL Y PARC

6.1 Pwrpas rhan yma o'r adroddiad yw cyflwyno ymateb y Cyngor i rai o'r prif bwyntiau ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad statudol. Mae ymateb llawn i bwyntiau eraill wnaed yn ystod yr ymgynghoriad wedi eu nodi yn Atodiad 3.2

6.2 Roedd yr ymatebion a sylwadau mewn ysgrifen a gafwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn y pedair ysgol yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y materion mae amlinelliad ohonynt isod:

- yr iaith Gymraeg
- materion cymunedol, yn cynnwys defnyddio adeiladau ysgol
- materion addysgol
- cludiant
- ansawdd ac addasrwydd adeiladau ysgol
- cyllid
- pa mor gywir oedd y wybodaeth a ddarparwyd cyn ac yn ystod y broses ymgynghori
- beirniadaeth o ymddygiad y Cyngor yn ystod y trafodaethau lleol
- cyflwyno modelau amgen

6.3 Yn ychwanegol i hyn, derbyniwyd deiseb yn amlinellu gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Y Parc erbyn Awst 2012. Cyflwynir y ddeiseb yn llawn yn y pecyn o ohebiaeth sydd wedi'i gyflwyno fel gwybodaeth gefndir.

### 6.4 Effaith ar Iaith

6.4.1 Mae Cylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad ar Gynigion Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid i gyrff sy'n dod â chynigion ymlaen ar gyfer ad-drefnu ysgolion ystyried effaith bosibl yr ad-drefnu ar yr iaith Gymraeg wrth lunio cynigion.

6.4.2 Cwblhawyd Asesiad Effaith Iaith lawn ac annibynnol ac mae ar gael ar wefan y Cyngor

6.4.3 Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y cynnig hwn yn rhoi cyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, ar gyfer disgyblion oed cynradd yn y Parc a Llanuwchllyn.

6.4.4 Daeth yr asesiad i'r casgliad y gallai'r cynnig gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a thu allan iddi ac y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y cyfan o ran iaith.

**6.5 Effaith Gymunedol**

6.5.1 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion oed cynradd sy'n byw yn nalgylch y Parc ar hyn o bryd yn mynd i'r ysgol. Mae'r holl ddisgyblion oed cynradd sy'n byw yn nalgylch OM Edwards ar hyn o bryd yn mynd i'r ysgol honno. Mae'n debygol y bydd cryfhau addysg wledig yn ardal Llanuwchllyn a'r buddsoddiad mewn adeiladau ysgol yn cadw plant o fewn y dalgylch.

6.5.2 Mae crynodeb o'r cyfleusterau wedi'u seilio ar y gymuned a defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgolion i'w weld yn y dadansoddiad ystadegol a gytunwyd gan bob ysgol ac a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.

6.5.3 Mae Cylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad ar Gynigion Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid i gyrff sy'n dod â chynigion ymlaen ar gyfer ad-drefnu ysgolion ystyried ffactorau cymunedol wrth lunio cynigion.

6.5.4 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Gymunedol llawn ac annibynnol ar y cynigion (ac mae ar gael ar wefan y Cyngor). Gwelodd yr asesiad y gallai cau Ysgol y Parc a darparu lleoedd i ddisgyblion y Parc yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, gael effaith negyddol ar gymuned Y Parc. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion o beth ellid ei wneud i leddfu effaith negyddol cau ysgolion. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i weithredu llawer o'r rhain, yn cynnwys cefnogaeth i gynnal darpariaeth gymunedol. Bydd y swyddog adfywio yn yr ardal leol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned.

6.5.5 Mae Ysgol y Parc yn Ysgol Gymunedol, wedi'i dynodi'n Ysgol Gymunedol gyda chyfleusterau cymunedol. Hynny yw, mae'r ysgol yn un o 8 ysgol gynradd yng Ngwynedd sy'n cael arian ychwanegol i gefnogi'r cyfleuster cymunedol ar y safle. Mae neuadd gymunedol ar ran o'r safle sy'n cael ei phrydlesu i Gyngor Cymuned Llanycil ar brydles 99 mlynedd ddyddiedig 11 Rhagfyr 1978. Nid yw bodolaeth y brydles yn golygu na all y Cyngor weithredu ei bwerau statudol i gau'r ysgol. Ond pe byddai'r ysgol yn cau byddai'n rhaid mabwysiadu'r trefniadau fel rhan o'r drefn o ddefnyddio'r adeilad ar ôl hynny. Bydd y brydles yn parhau ac mae'n berthnasol o ran cynnal y safle ac yn gosod allan ddyletswyddau'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned i gefnogi'r ddarpariaeth gymunedol ar y safle.

6.5.6 Mae'r brydles yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Llanycil wrth gynnal a rhedeg y neuadd gymuned.

6.5.7 Mae'r gymuned wedi cysylltu â'r Cyngor gyda golwg ar ddechrau trafodaethau am gynnal y neuadd gymunedol os bydd y cynnig i gau'r ysgol yn cael ei weithredu. Mae

adran eiddo'r Cyngor wedi amlinellu yn ysgrifenedig mai'r bwriad o'r cychwyn yw cynnig gwerthu'r rhan o'r adeilad sydd yn gweithredu fel neuadd gymunedol i'r Cyngor Cymuned ar sail prydles newydd 99 mlynedd. Byddai gwerthiant o'r fath yn gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar y Cyngor i wneud taliadau ariannol i Bwyllgor Rheoli'r neuadd fel parhad o'r cyfraniad presennol at gostau gofal a glanhau. Yn ychwanegol i hyn, telir cyllideb cynnal a chadw datganoledig presennol yr adeilad i'r Pwyllgor. Byddai Cyngor Gwynedd felly yn darparu cyfanswm o £5,527 ar brisiau heddiw tuag at gostau cynnal y neuadd gymunedol Bydd trafodaethau yn parhau.

### 6.6 Safonau addysg

6.6.1 Mae Ysgol y Parc ac Ysgol OM Edwards yn darparu addysg o safon dda. Derbyniodd Ysgol y Parc saith Gradd 2 yn ei harolygiad diweddaraf, ac fe dderbyniodd Ysgol OM Edwards saith Gradd 1 yn ei harolygiad diweddaraf. Mae pob rheswm i ddisgwyl y bydd darparu cyfleusterau newydd yn Ysgol OM Edwards, sefydlu dosbarthiadau mwy o faint a chryfach a chreu cronfa fwy o staff dysgu a chefnogi yn cynnal ac yn gwella safonau addysgol. Dylai'r cynnig helpu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

6.6.2 Mae cyfartaledd maint dosbarthiadau yn Ysgol y Parc ar hyn o bryd yn 9.5 ac yn Ysgol OM Edwards yn gyfartaledd o 17. Mae'r strategaeth yn nodi mai'r nod ddylai fod i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12 a 25 disgybl. Mae'n cael ei ragweld y bydd grwpiau mwy o blant yn yr ysgol ardal newydd - ar niferoedd 2009, mae'r cynnig yn rhagweld y byddai gan yr ysgol gyllideb sy'n caniatáu ar gyfer 3 o athrawon yn dysgu 64 o blant, neu gyfartaledd maint dosbarth o 21. Os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu, fel y rhagwelir, bydd y dyraniad yn y gyllideb hefyd yn cynyddu.

6.6.3 Mae arweinyddiaeth yn allweddol ar gyfer gyrru safonau addysgol at i fyny. Mae ysgolion yn nalgylch y Berwyn wedi denu prifathrawon o ansawdd uchel sy'n gyrru cyrhaeddiad addysgol at i fyny. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn niferoedd y staff.

### 6.7 Teithio

6.7.1 Mae strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn nodi bod ganddo'r amcan o sicrhau nad yw disgyblion yn teithio mwy na 30 munud mewn un cyfeiriad i'r ysgol. Roedd rhai yr ymgynghorwyd gyda hwy yn mynegi'r pryder bod y llwybr teithio o'r Parc i safle Ysgol O.M. Edwards yn gul ac yn anaddas ar gyfer bysus.

6.7.2 Mae swyddogion cludiant y Cyngor wedi asesu'r llwybr teithio ac maent yn fodlon ei bod yn ymarferol darparu un bws mini o fewn i bolisi cludiant ysgol y Cyngor, yn ddiogel. Gwnaed yr asesiad ym mis Ionawr 2011 a hynny yng nghwmni Pennaeth yr ysgol. Mae bws 20 sedd eisoes yn gwneud y daith yn ddyddiol i gludo plant oed uwchradd o'r Parc i'r Bala.

6.7.3 Nid yw Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn darparu oedolion i oruchwylio ar fysus ysgol, heblaw am y gyrrwr. Fodd bynnag, fel rhan o ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau statudol yn ardal Tywyn, mae'r Cyngor wedi ymgymryd i sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu darparu ar unrhyw gontractau bws newydd ac i ddarparu goruchwyliaeth gan oedolyn ar ddechrau'r trefniadau newydd. Bydd y Cyngor yn adolygu'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth gan oedolyn ar ôl tymhorau llawn cyntaf y trefniant newydd,

## 6.8 Adeiladau

6.8.1 Yn unol â Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor amcangyfrifir fod angen gwariant o dros £107,000 ar waith cynnal a chadw ac ar faterion iechyd a diogelwch yn Ysgolion y Parc ac O.M. Edwards.

6.8.2 Mae'r cynnig yn rhan o brosiect £10.2m yn nalgylch y Berwyn i sicrhau bod ysgolion yn yr ardal yn cael eu huwchraddio hyd at safon Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad am 70% o'r gost (£7.7m, fyddai'n gadael y Cyngor i ariannu'r £2.56m sy'n weddill). Cafodd tua £1.3m o gost gyffredinol y prosiect ei glustnodi ar gyfer gwaith uwchraddio yn Ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn.

6.8.3 Bydd Ysgol OM Edwards yn cael ei hymestyn a'i huwchraddio er mwyn iddi allu darparu'r cyfleusterau gorau sydd modd ar gyfer addysg. Fel mae pethau'n sefyll, mae gan Ysgol O M Edwards ddigon o le ystafell ddosbarth ar gyfer y plant ychwanegol o Ysgol y Parc ond ni fyddai'n gallu cymryd unrhyw gynnydd wedyn yn y dyfodol mewn niferoedd disgyblion. Hefyd, mae'r adeilad angen gwaith uwchraddio i fedru cynnig y cyfleusterau eraill mae disgwyl amdanynt mewn cyfleuster addysgol sy'n addas ar gyfer y pwrpas yn y 21ain Ganrif e.e. lle ar gyfer adnoddau, ystafell staff, addasiadau i'r neuadd, addasiadau i sicrhau parcio digonol a diogel/man danfon disgyblion ac yn y blaen. Bydd gwneud y gwaith uwchraddio yma nid yn unig yn sicrhau bod yr adeiladau'n addas ar gyfer darpariaeth addysgol yn y 21ain Ganrif ond hefyd yn sicrhau bod digon o le ar gael os bydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol. O ganlyniad i'r broses ad-drefnu bydd buddsoddiad sylweddol i ddatblygu ysgol O.M. Edwards.

## 6.9 Cyllid

6.9.1 Mae polisi gwarchod isafswm staffio'r Adran Addysg yn cael ei weithredu yn Ysgol y Parc. Fe wariodd y Sir £500,794 yn ystod 2010-11 i gadw o leiaf isafswm o un prifathro ac un athro ym mhob ysgol gyda mwy na 15 o ddisgyblion, a phrifathro a chymhorthydd ym mhob ysgol gyda llai na 15 o ddisgyblion. Mae 19 o ddisgyblion yn Ysgol y Parc ar hyn o bryd ac felly mae'n cael £36,315 trwy'r polisi hwn yn ogystal â'i dyraniad safonol.

6.9.2 Nid yw Ysgol OM Edwards yn dod o fewn y polisi gwarchod isafswm staffio, ond byddai'n cael £46,727 ychwanegol o ganlyniad i ddarparu addysg i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynd i Ysgol y Parc.

6.9.3 Bydd Ysgol O.M. Edwards yn derbyn dyraniad ychwanegol yn sgil y broses ad-drefnu. Pe bai'r cynnig hwn ei weithredu'n llawn, byddai'r dyraniad cyllidebol ar gyfer Ysgol OM Edwards yn £223,462.

6.9.4 Yn sgil cau Ysgol Y Parc bydd arbediad ariannol blynyddol o £86,373. Ond bydd angen darparu cludiant i ddisgyblion i'r ysgol newydd, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Ar sail prisiau'r dyddiau hyn, rhagwelir cost ychwanegol oddeutu £15,000. Bydd felly'n lleihau'r arbediad a ddisgwylir i £71,373.

6.9.5 Bydd arbedion sy'n dod trwy gau Ysgol y Parc yn cael eu cadw o fewn i'r gyllideb Addysg. Mae ymrwymiad pellach wedi cael ei wneud y bydd 20% o'r arbedion yn parhau o fewn i'r dalgylch tra bo'r broses adolygu trwy'r sir gyfan yn mynd ymlaen, yn amodol ar gwblhau ymgynghori gyda chyrff proffesiynol perthnasol.

## 6.10 Asesiadau Effaith

6.10.1 Cafodd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, Iaith a Chymuned eu cyflawni ar y cynigion. Cafwyd sylwadau ar yr asesiadau Iaith a Chymuned yn ystod yr ymgynghori ac maen nhw wedi cael sylw yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad 3.

6.10.2 Gwnaethpwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynigion. Gwelwyd na ellid disgwyl unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol oddi wrth y cynnig. Yn wir, gan fod y cynnig yn golygu gwaith uwchraddio ac estyn sylweddol i Ysgol OM Edwards, bydd unrhyw bryderon am fynediad yn cael sylw priodol.

6.10.3 Darparwyd copïau o bob un o'r tri Asesiad Effaith i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor.

## 6.11 Ystyried dewisiadau eraill

6.11.1 Mae angen i'r rhai sy'n gwneud cynigion roi ystyriaeth briodol i gynigion eraill hefyd. Roedd y dewisiadau a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu yn cynnwys:

- Dim newid
- Ffederaleiddio Ysgol y Parc gydag Ysgol OM Edwards a rhai neu bob un o'r ddwy ysgol wledig yn ardal dalgylch y Berwyn.
- Cau pob un o'r chwe ysgol gynradd a darparu naill ai un ysgol gynradd neu un ysgol dysgu gydol oes yn nhref y Bala.

6.11.2 Credai'r Cyngor ei bod yn ymddangos mai'r dewis a ffefrir oedd yr un yn ateb ei ofynion, fel y dangosir mewn amlinell yn y strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a chylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad, ac ar y sail honno dechreuodd ar ymgynghori statudol.

6.11.3 Honnwyd gan ohebwyr y byddai sefydlu trefniant ffederal ar gyfer ardal Penllyn - gan gynnwys y pedair ysgol wledig y tu allan i dref y Bala gan hefyd o bosib cynnwys yr ysgol oes arfaethedig yn nhref y Bala - yn creu mwy o arbedion na chau Ysgol y Parc. Amcangyfrifai Swyddogion y Cyngor y gallai sefydlu ysgol y Parc fel rhan o drefniant ffederal ym Mhenllyn arbed oddeutu £3,000 yn flynyddol o'i gymharu ag arbedion o £71,000 o gau Ysgol y Parc. Fel eglurir ymhellach yn yr Atodiad 5 ni fyddai trefniant tebyg yn cynnwys ysgol y dref yn creu fawr mwy o arbediad.

6.11.4 Y cynnig gwreiddiol – cau Ysgol y Parc a darparu llefydd yn Ysgol OM Edwards, sy'n parhau i fod yn ddewis a ffefrir.

## 6.12 Cywirdeb gwybodaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor a chynnal y cyfnod statudol

6.12.1 Roedd y wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori statudol wedi cael ei chytuno gan gynrychiolwyr yr holl ysgolion yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch.

6.12.2 Cafodd y cyfnod ymgynghori statudol ei gynnal yn unol gyda disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad.

6.12.3 Lle'r oedd modd gwneud hynny, rhoddwyd ymatebion i gwestiynau a godwyd yn ystod cyfarfodydd ymgynghori statudol. Lle'r oedd cywirdeb gwybodaeth yn cael ei gwestiynu yn ystod cyfarfodydd statudol, roedd swyddogion yn edrych a oedd yn gywir ac yn ymateb i'r ysgolion. Yr unig newid oedd ei angen i'r papur statudol oedd i baragraff oedd yn cyfeirio at ddarpariaeth addysg feithrin i blant o'u trydydd penblwydd yn cael ei ddarparu gan grwpiau chwarae. Darperir addysg gynradd felly gan Fudiad Ysgolion Meithrin.

6.12.4 Mae Atodiad 5 ('Cwestiwn ac Ateb') yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar rai materion a chwestiynau sydd wedi codi yn y misoedd diwethaf

## 7. YMATEBION O ARDAL TREF Y BALA (YSGOLION Y BERWYN, BEUNO SANT A BRO TEGID)

7.1 Roedd yr ymatebion a'r sylwadau mewn ysgrifen a gafwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn yr ysgolion yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion sy'n cael eu hamlinellu isod:

- Cefnogaeth i'r egwyddor o gael ysgol dysgu gydol oes yn nhref y Bala
- Addysg
- Materion gyda'r adeiladau arfaethedig

### 7.2 Cefnogaeth i'r campws dysgu gydol oes

7.2.1 Mater oedd yn codi yn aml yn yr ymatebion – mewn ysgrifen ac yn y cyfarfodydd ymgynghori statudol yn yr ardal – oedd cefnogaeth i'r cysyniad o gampws dysgu gydol oes yn nhref y Bala ac i'r bwriad i wario cyfalaf yn yr ardal. Nodwyd gan yr ymatebwyr bod gan y cynnig y potensial i fod yn gynllun cyffrous yn defnyddio syniadau newydd.

7.2.2 Cyflwynwyd deiseb gan unigolion yn ardal dalgylch y Berwyn i gefnogi'r cynnig. Gellir gweld y ddeiseb yn y pecynnau gwybodaeth.

### 7.3 Addysg

7.3.1 Cafwyd sylwadau ar sut roedd pobl yn rhagweld y byddai'r cynnig newydd yn effeithio ar safonau addysg, a sylwadau cadarnhaol oedd y rheiny.

7.3.2 Roedd ymatebwyr yn cydnabod potensial y cynnig o ran diogelu addysg yn rhedeg trwodd o un oedran i'r llall mewn ardaloedd gwledig a darparu profiad addysgol cyfoethocach trwy ddarparu cyfleusterau newydd a rhannu arbeniged staff.

7.3.3 Mynegwyd rhai pryderon am y risg trwy fod plant 3 mlwydd oed a rhai 19 oed yn rhannu'r un safle. Byddai safle'r ysgol arfaethedig newydd yn cael ei ddylunio'n ofalus i sicrhau bod diogelwch disgyblion yn parhau yn hollbwysig.

7.3.4 Teimlai un a ymatebodd y gallai disgyblion golli cyfle o ran y profiad o wneud y newid o addysg gynradd i uwchradd. Mae corff o ymchwil yng Nghymru sy'n awgrymu y gall y newid hwn darfu ar ddisgyblion. Dylai ysgol sy'n darparu ar gyfer y gwahanol oedrannau gael gwared â'r cyfnod o darfu hwn.

### 7.4 Adeiladau

7.4.1 Yn ogystal â chyfarfodydd statudol, fe gynhaliodd swyddogion y Cyngor sesiwn galw heibio yn Ysgol Uwchradd y Berwyn. Pwrpas y sesiwn oedd caniatáu i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ac aelodau o'r cyhoedd yn ehangach weld y cynlluniau dechreuol ar gyfer y campws dysgu gydol oes.

7.4.2 Mae'r cynnig yn un i ddatblygu adeilad cwbl newydd i'r sector cynradd, lle perfformio newydd, canolfan technoleg newydd i CA2 i CA5 (ac ar gyfer addysg i oedolion tu allan i oriau ysgol), ac uwchraddio'r neuadd bresennol i safon cynnal perfformiadau cyhoeddus. Bydd union fanylion y datblygiad yn cael eu datblygu gyda chyfraniad lleol. Sefydlwyd grŵp defnyddwyr eisoes a bydd y broses o ddylunio'r ysgol yn cynnwys cyfraniad sylweddol gan lywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion.

7.4.3 Bydd y datblygiad yn golygu trosglwyddo rheolaeth o Safle Beuno Sant i'r Cyngor. Mae trafodaethau'n mynd ymlaen gyda'r Eglwys yng Nghymru o ran y ffordd orau o hwyluso'r fath drosglwyddiad.

7.4.4 Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol am y cyfleusterau y gellid eu darparu ar y safle, a'u lleoliad.

7.4.5 Mynegwyd rhai pryderon am effaith bosibl y broses adeiladu ar addysg disgyblion. Bydd swyddogion yn ymdrechu i sicrhau bod y gwaith adeiladu'n cael ei gynllunio er mwyn cyfyngu unrhyw darfu ar yr addysgu sy'n mynd ymlaen ar y safle i leiafswm.

7.4.6 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn siomedig na fyddai'r campws dysgu gydol oes newydd yn un cwbl newydd. Y dewis a ffefrir gan y Cyngor fyddai gallu darparu campws newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn nhref y Bala. Ond mae nifer o ffactorau - yn cynnwys gostyngiad mewn arian cyfalaf a phwysau ar gyllid y Cyngor - wedi milwriaethu yn erbyn hyn. Byddai'r cynnig a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad gyda golwg ar gael arian ar gyfer 2012-15 yn golygu darparu adain gynradd newydd, bloc technoleg newydd, neuadd wedi'i huwchraddio sy'n gallu bod yn theatr a sinema gymunedol, a llyfrgell wedi'i huwchraddio.

## 7.5 Teithio

7.5.1 Does dim materion teithio ychwanegol yn codi o'r cynnig gan fod y tair ysgol y tu mewn i'r dref ar hyn o bryd. Bydd y trefniadau teithio presennol yn parhau.

## 7.6 Cymuned

7.6.1 Roedd ymatebion cadarnhaol i'r bwriad i ddarparu sinema a lle perfformio newydd ac uwchraddio ac adleoli llyfrgell y dref.

## 7.7 Cyllid

7.7.1 Dylai'r model arfaethedig o'r campws gydol oes ryddhau arbedion o tua £69,000, wedi'i seilio ar ffigyrau 2010-2011.

7.7.2 Fe wnaeth y rhai a ymatebodd sylwadau am y potensial o ran effeithlonrwydd ariannol. Dylai'r model a fwriedir caniatáu i'r cyfleuster weithredu yn fwy effeithlon na'r sefydliadau presennol ar wahân i'w gilydd.

**7.8 Asesiadau Effaith**

7.9 Fe welodd yr asesiadau effaith na fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg ymysg disgyblion ysgol, ond fe roddodd amlinelliad o weithredoedd i leddfu'r effaith. Mae tystiolaeth o hynny mewn ymchwil arall gan yr un ymgynghorwyr - ar sut i annog defnydd o'r Gymraeg tu mewn i ysgolion a thu allan. Ni ragwelwyd unrhyw effaith negyddol sylweddol o ran cymuned na chydraddoldeb. Gyrrwyd y tri asesiad effaith i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor.

## 8. CRYNODEB O'R CYNIGION

8.1 Crybwyllir y rhesymeg ar gyfer y cynigion isod. Gwneir yr argymhellion hyn wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a gofynion Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion.

8.2 Bydd y trefniadau newydd yn darparu **cyfle cyfartal i bob plentyn yn y dalgylch** gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint rhesymol yn ogystal â chyfleoedd i gydweithredu a chwarae yn fwy rheolaidd gyda'u cyfoedion.

8.3 Maent yn darparu **mwy o sicrwydd staffio** yn y dalgylch a bydd athrawon yn cael cyfle i **rannu gwahanol arbenigeddau** a darparu'r arbenigedd honno i'r disgyblion. Bydd dosbarthiadau'n cynnwys disgyblion gyda galluoedd mwy cyfartal a thrwy hynny'n hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon. Mae'r argymhelliad i ddatblygu Campws Gydol Oes yn darparu cyfle ardderchog i sicrhau pwerdy addysgol a diwylliannol yn ardal y Berwyn. Er y byddai hyn yn golygu cau Ysgol a Gynhelir yn Wirfoddol Beuno Sant ystyrir bod y ffactorau sy'n cefnogi'r cynnig ar y cyfan yn cyfiawnhau'r penderfyniad. Mae'n hollbwysig **bod pob ysgol yn yr ardal – yn nhref y Bala a'r ardal wledig o gwmpas – yn cael cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr adeilad newydd a defnyddio arbenigedd yr amrediad o staff** yno.

8.4 Mae'r cynigion hyn yn rhoi'r **cydbwysedd gorau rhwng darparu dysgu effeithiol mewn sefydliadau effeithlon wrth roi dewis i rieni**. Ni fydd unrhyw blentyn yn gorfod teithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd unwaith bydd y cynigion wedi cael eu gweithredu.

8.5 Mae'r cynigion yn cymryd i ystyriaeth beth yw gofynion yr ysgolion yn yr ardal o ran adeiladau ysgol ac amcanion yr AALl wrth ddatblygu ysgolion sy'n briodol ar gyfer y 21ain Ganrif. Mae'r cynllun dalgylch cyfansawdd yn rhagweld **datblygu campws gydol oes , gan addasu'r ysgolion sy'n dal yn yr ardal i'w gwneud yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.**

8.6 **Mae'r cynigion yn gyfle i ddatblygu'r berthynas ymhellach efo'r gymuned**. Mae angen i ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ddarparu gwasanaethau sy'n tynnu'r gymuned a'r ysgol ynghyd, hyrwyddo addysg i oedolion, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau eraill wedi'u seilio ar y gymuned. Bydd llyfrgell y dref yn cael ei huwchraddio a bydd gwell lle ar gyfer perfformiadau, sy'n caniatáu perfformiadau cyhoeddus, yn cael ei ddatblygu yn y campws gydol oes newydd.

8.7 **Bydd gweithredu'r cynigion yn y dalgylch yn creu sefydlogrwydd ac yn sicrhau dyfodol 3 ysgol wledig.**

8.8 Byddai gweithredu'r cynigion yn llawn yn rhyddhau arbedion sylweddol, gan arbed 8% o'r gyllideb refeniw a dros 60% o'r gofynion cynnal ac uwchraddio.

## 9. Y CAMAU NESAF

9.1 Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion hyn, bydd rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar unwaith er mwyn:

- cau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012 gan ddarparu lleoedd yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- cau Ysgolion y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid ac agor ysgol dysgu gydol oes newydd ar y safleoedd cyfnesaf at ei gilydd lle mae Ysgolion y Berwyn a Beuno Sant ar hyn o bryd, erbyn 31 Awst 2015

9.2 Bydd y rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi yn y wasg leol a'u harddangos mewn mannau amlwg o fewn y dalgylch. Oherwydd diwygio Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (S.I 1999/1671) ddaeth yn weithredol ar 1 Mawrth 2011, y terfyn amser i ymateb i rybuddion statudol gyhoeddwyd yw <u>un mis</u> ar ôl y dyddiad yn cyhoeddi.

9.3 Ar ddiwedd y cyfnod bydd y mater yn dod o flaen Bwrdd y Cyngor er mwyn cadarnhau'r bwriad. Os na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i'r Rhybuddion Statudol, a'r Bwrdd yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, gellir cadarnhau'r penderfyniad. Os ceir gwrthwynebiadau ffurfiol i'r Rhybuddion Statudol, bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth y Cynulliad.

## 10. TAITH TRWY BWYLLGORAU'R CYNGOR

10.1 Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnig hwn gerbron Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 24 Chwefror 2011 a Bwrdd y Cyngor 15 Mawrth 2011.

10.2 Penderfynodd y Pwyllgor Craffu cyfleu i Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011 ac i'r Cyngor llawn ar 12 Mai 2011 gefnogaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r cynigion:

10.3 Yn y Pwyllgor Craffu gofynnwyd i swyddogion priodol y Gwasanaeth Addysg baratoi adroddiad er ystyriaeth Bwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011 a'r Cyngor llawn ar 12 Mai 2011 yn amlinellu goblygiadau o ymestyn cyfnod cau Ysgol y Parc i'r 31 Awst 2013 / 31 Awst 2014 / 31 Awst 2015. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw yn Atodiad 5

10.4 Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r sylwadau a gyflwynwyd, asesiad o opsiynau ac amserlenni gweithredu amgen, barn swyddogion yw y dylid bwrw ymlaen gyda'r cynigion gwreiddiol. Nodwyd rhain yn llawn yn adran 11 isod.

10.5 Cefnogwyd yr argymhellion gan y Pwyllgor Craffu a gan Fwrdd y Cyngor.

## 11. ARGYMHELLION

11.1 Er mwyn hwyluso sefydlu'r Campws Dysgu Gydol Oes arfaethedig, cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid ar 31 Awst 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.

11.2 Cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion o'r amrediad oed 3 -19 fel rhan o sefydlu *Campws Dysgu Gydol Oes newydd yn nhref y Bala* i agor ar 1 Medi 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.

11..3 Cymeradwyo'r cynnig i gau *Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012,* gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol O M Edwards a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw.

11.4 Cyhoeddi'r Rhybuddion Statudol gyfeiriwyd atynt yn 11.1, 11.2 a 11.3 uchod pan fydd yr adnoddau cyfalaf priodol wedi eu cadarnhau.

**Dogfennau Cefndir:**

Canllawiau Cylchlythyr y Cynulliad 21/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion
Cyngor Gwynedd – Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd
Rhaglenni a phapurau Cyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch gan gynnwys Gwybodaeth Ystadegol a Modelau a ystyriwyd
Asesiad Effaith Iaith, Cymuned a Chydraddoldeb
Adroddiad i'r Cyngor Llawn – 15/7/10
Copïau llawn o ohebiaeth a gafwyd mewn ymateb i ymgynghori

Mae copïau ar gael i bawb eu gweld ar Wefan y Cyngor, yn Swyddfeydd Ardal yr Adran Addysg (Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli) a Llyfrgell y Bala ac ar gyfer Aelodau o'r Cyngor – copïau ar gyfer Grwpiau Gwleidyddol yn Lolfa'r Aelodau.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol gyflwynwyd gerbron Bwrdd y Cyngor:

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Mae'r cynigion sydd gerbron y Bwrdd wedi bod yn destun trafod manwl yn y dalgylch ac oddi fewn i strwythurau'r Cyngor. Mewn unrhyw newid o sylwedd, mae'n eithriadol o anodd cael unfrydedd barn gan ein bod yn gofyn am symud o sefyllfa sydd yn gyfarwydd i sefyllfa newydd. Yr hyn sydd ei angen mewn sefyllfaoedd o'r fath yw digon o dystiolaeth i gynnig sicrwydd mai'r cynigion dan sylw sydd yn cynnig yr ateb gorau. Credaf bod y gwaith dan sylw yw cynnig hynny. Yn sicr, oherwydd ystyriaethau cyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor hwn, byddai gan unrhyw benderfyniad sydd yn oedi gweithredu oblygiadau enfawr o ran ansawdd y ddarpariaeth y gellir ei gynnig."

2. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad a'r argymhellion yn dilyn canlyniad proses ymgynghori yn unol â gofynion Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998. Darperir gwybodaeth a sylwadau ar ganlyniad y broses ymgynghori ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd gloriannu'r canlyniadau yma gyda'r ffactorau eraill perthnasol wrth ddod i benderfyniad ar yr argymhellion."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Mae'r adroddiad yn chwennych cymeradwyaeth i argymhellion (yn rhan 11) fel y cam diweddaraf o'r broses statudol yn sgil penderfyniadau blaenorol a gwaith trylwyr gan aelodau etholedig, penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, swyddogion, ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn nalgylch y Berwyn. Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol sy'n rhan 6.8 a rhan 7.7 o'r adroddiad parthed dyraniadau a chludiant ysgolion. Mae'r achos busnes yn parhau'n gadarn, ac mae rhesymau amlwg i gefnogi'r argymhellion gerbron i weithredu'n ddi-oed."

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi:

# ATODIAD 1

# DOGFENNAU YMGYNGHORIAD STATUDOL

**1.1 – Dogfen Ymgynghoriad Statudol i sefydlu Ysgol Gymuned ar gampws dysgu gydol oes yn nhref y Bala**

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOLION**
**Y BERWYN, BRO TEGID A BEUNO SANT**
**A SEFYDLU YSGOL GYMUNED 3-19 AR GAMPWS NEWYDD DDYSGU GYDOL OES YN Y BALA**

**I'W WEITHREDU O 31 AWST 2015**

**PAPUR YMGYNGHORI STATUDOL**

## 1 Y Cynnig

1.1 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar y cynnig i gau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a darparu lleoedd i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch y Bala mewn Campws Dysgu Gydol Oes yn nhref y Bala.

1.2 Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd Ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant yn cau ar 31 Awst 2015.

## 2 Yr Ymgynghoriad Statudol

2.1 Cynhelir cyfarfodydd rhwng 10-19 Ionawr 2011 i drafod y ddarpariaeth addysgol yn ardal y Berwyn. Gallai hynny olygu cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant.

2.2 Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni:

| Ysgol | Dyddiad | Staff | Llywodraethwyr | Rhieni |
|---|---|---|---|---|
| **Y Berwyn** | 13/01/2011 | 4:00-5:30 | 5:30-6:30 | 7:30 |
| **Beuno Sant** | 18/01/2011 | 5:00-6:00 | 7:30 | 6:30-7:30 |
| **Bro Tegid** | 19/01/2011 | 5:00-6:00 | 6:00-7:00 | 7:00 |

2.3 Bydd cyfle i ddisgyblion hefyd gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

2.4 Mae croeso i chi ofyn cwestiynau a chyflwyno'ch sylwadau yn y cyfarfod neu roi eich ymateb yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb a atodir i'r ddogfen hon. Dylech anfon eich ymateb at:

Seimon Williams
Rheolwr Prosiect Ad-drefnu Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu, gallwch ymateb trwy e-bost a'i anfon at: trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk <mailto:trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk>

Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**. Dylai unrhyw sylwadau, ysgrifenedig neu drwy e-bost, gyrraedd y Cyngor erbyn y dyddiad hwnnw.

2.4 Bydd eich sylwadau'n ynghyd â chofnodion y cyfarfodydd ymgynghori statudol cael eu casglu a'u hystyried cyn penderfynu ar y camau nesaf. Bydd eich sylwadau'n cael eu hystyried gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 24 Chwefror 2011 a gan Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011. Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu, ar 12 Mai 2011, a ddylid cyhoeddi cynigion ai peidio.

2.5 Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae yna becyn o wybodaeth gefndirol ar gael yn eich ysgol leol, llyfrgell y Bala ac ar wefan y Cyngor ar www.gwynedd.gov.uk. Bydd y pecyn yn cynnwys:

- papurau'r trafodaethau dalgylch, gan gynnwys pecyn ystadegol a dadansoddiad o fodelau
- asesiadau o effaith ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb

2.6 Os ydych yn dymuno cael y ddogfen hon ar ffurf wahanol, cysylltwch â Seimon Williams ar 01286 679247.

**3 Sut y cafodd y cynnig hwn ei ddatblygu?**

3.1 Sefydlodd y Cyngor y Gweithgor Gwella fis Mehefin 2008 i ddatblygu strategaeth i ystyried trefniant ysgolion cynradd y sir.

3.2 Cyflwynodd y Gweithgor Gwella adroddiad, o'r enw Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, i Gyngor Gwynedd ar 2 Ebrill 2009. Roedd y strategaeth yn amlinellu'r nôd o adolygu ysgolion cynradd yn ôl dalgylchoedd uwchradd, a chafodd meini prawf eu sefydlu i flaenoriaethu'r dalgylchoedd y dylid eu hadolygu. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ddiwrthwynebiad.

3.3 Cyflwynir y cynnig hwn ar ôl cynnal trafodaethau sylweddol yn nalgylch y Berwyn rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2010, gan gynnwys:

- 5 cyfarfod Panel Adolygu Dalgylch y Berwyn
- cyfres o gyfarfodydd gyda llywodraethwyr, staff a rhieni holl ysgolion cynradd y dalgylch
- sesiwn i blant a phobl ifanc y dalgylch
- asesiad o effeithiau'r cynigion ar iaith a chymunedau

3.3 Cafodd y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2010 fel sail i ymgynghoriad statudol.

## 4 <u>Y cefndir yn arwain at yr ymgynghoriad</u>

4.1 Ar hyn o bryd, yn ardal y Berwyn, mae pedair Ysgol Gynradd Gymuned (ysgolion Ffridd y Llyn, O.M. Edwards, Bro Tryweryn a Bro Tegid), un Ysgol Gymuned a adwaenir fel ysgol Gymunedol (Ysgol y Parc), un Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (Ysgol Beuno Sant) ac un Ysgol Uwchradd gyda chweched dosbarth (Ysgol y Berwyn). Er bod pob ysgol gynradd yn gallu darparu addysg feithrin yn gyfreithlon, gwneir darpariaeth ar gyfer disgyblion tair blwydd oed mewn grwpiau meithrin annibynnol.

4.2 Mae safon addysg gynradd yn nalgylch y Berwyn yn dda. Dangosodd arolwg diweddar o'r ysgol Uwchradd y gellid gwella ar y ddarpariaeth yno ac y mae gwaith da ar droed yno wrth ymateb i hynny.

4.3 Defnyddiwyd nifer o feini prawf allweddol i flaenoriaethu adolygu dalgylchoedd. Nodwyd mai ardal dalgylch y Berwyn ddylai fod yr ail ddalgylch allan o 13 i gael ei hadolygu oherwydd:

4.3.1 Roedd y gostyngiad yno yn nifer disgyblion yn y sector cynradd rhwng 1975 - 2009 yr un mwyaf arwyddocaol o unrhyw ddalgylch yn y Sir. Cafwyd gostyngiad o 40% yn nifer y disgyblion yn y sector Cynradd ac o 38% yn y sector Uwchradd.

4.3.2 Adeiladwyd dwy ysgol ardal newydd yn yr ardal yn ystod y 1960au - 1970au. Er hynny, nid yw llawer o ysgolion yr ardal yn addas ar gyfer anghenion yr 21ain Ganrif. Mae'r sector cynradd yn ddiffygiol o ran cyflwr ei hadeiladau ac mae angen gwariant cyfalaf o dros £660,00 i'w gwella. Hefyd mae angen gwario dros £400,000 ar yr ysgol uwchradd i wella ei chyflwr.

4.3.3 Mae chwe ysgol gynradd yn yr ardal yn addysgu rhwng 19 a 95 o ddisgyblion yr un. Mae cyfartaledd cost y disgybl yn y dalgylch (£3,721) yn 14% uwch na chyfartaledd Gwynedd (£3,262).

4.3.4 Ysgol y Berwyn yw'r unig Ysgol Uwchradd ym Meirionnydd a Dwyfor sydd â chweched dosbarth. Mae'n addysgu 369 o ddisgyblion gan gynnwys 63 o ddisgyblion chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd nifer y disgyblion yn aros yn debyg yn ystod y tair blynedd nesaf.

4.3.5 Mae nifer sylweddol o leoedd gwag yn ysgolion dalgylch y Berwyn, gyda 30% o leoedd cynradd a 48% o leoedd uwchradd heb eu llenwi.

4.4 Cynhaliwyd trafodaethau yn y gymuned leol yn ystod haf 2009 ynglŷn â'r syniad i sefydlu darpariaeth gydol oes yn yr ardal. Cyflwynodd Ysgol y Berwyn gynnig i'r Panel Adolygu Dalgylch y dylai hynny fod yn rhan greiddiol o drafodaethau'r Panel, a chytunwyd â hynny.

4.5 Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, ymddengys nad yw darpariaeth bresennol ardal y Berwyn bellach yn gynaliadwy.

## 5 Ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

5.1 Y model a gynigir ar gyfer tref y Bala yw y dylai ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant gau ddiwedd Awst 2015. Byddai pob disgybl o oedran cynradd dalgylch tref y Bala yn cael cynnig lle yng Nghampws Dysgu Gydol Oes y bwriedir ei godi ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn ogystal â holl blant oed uwchradd dalgylch presennol y Berwyn.

5.2 Byddai'r safle'n cael ei ddatblygu a'i addasu i ddarparu lle i 550 o ddisgyblion 3-19 oed yn amodol ar dderbyn grant cyfalaf oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Cyflwynwyd cais am arian grant i'r Llywodraeth ar gyfer y cynnig hwn yn Rhagfyr 2010 fel rhan o raglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor. Mae'r Llywodraeth yn debygol o benderfynu pa geisiadau sy'n llwyddiannus yn ystod Haf 2011 .

5.3 Disgwylir i'r awdurdodau lleol sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol. Y cyllidebau ar gyfer y tair ysgol yn nhref y Bala ar gyfer 2010 / 11 yw:

| **Ysgol** | **Dyraniad 2010 / 11** | **Fesul Disgybl** |
|---|---|---|
| Ysgol y Berwyn (yn cynnwys grant ol-16) | £1.792m | £4,766 |
| Ysgolion Uwchradd Gwynedd (yn cynnwys grant ol-16) | £33.505m | £4,392 |
| | | |
| Ysgol Bro Tegid | £309,827 | £3,038 |
| Ysgol Beuno Sant | £183,007 | £3,519 |
| Ysgolion cynradd dalgylch y Berwyn | £1,108,897 | 3,721 |
| Ysgolion Cynradd Gwynedd | £29,490,206 | £3,262 |

Nid yw'r un o'r ysgolion yn cael eu gwarchod gan bolisi gwarchod staffio Cyngor Gwynedd sy'n sicrhau fod o leiaf bennaeth ac athro / athrawes ym mhob ysgol â mwy na 15 o ddisgyblion llawn amser. Rhagwelir mai'r dyraniad cyllidebol y bydd y campws gydol oes yn ei dderbyn, ar sail niferoedd heddiw, fyddai £2,318,542 (yn cynnwys grant ôl-16). Amcangyfrifir y byddai'r cynllun cyfansawdd yn creu arbediad o leiaf £68,900.

5.4 Mae nifer y disgyblion yn nhref y Bala wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 35 mlynedd diwethaf. Bu gostyngiad o 285 o ddisgyblion ym 1975 i 146 yn 2010 yn Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant ond rhagwelir y bydd cynnydd bychan yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae Ysgol y Berwyn hefyd wedi gweld gostyngiad arwyddocaol yn ystod yr un cyfnod, o 560 o ddisgyblion oedran 11 – 16 i 306 yn ystod yr un cyfnod, er, eto, ymddengys fod nifer y disgyblion yn sefydlogi.

5.5 Mae pwysau cynyddol ar gyllidebau'r tair ysgol. Fel ysgolion cynradd o faint canolig, mae Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant wedi cyfrannu at arbedion ledled y sector cynradd. Nid yw ysgolion o fewn rhwyd diogelu'r amddiffyniad staffio gofynnol yn gorfod cyfrannu at hyn. Mae cyllideb Ysgol y Berwyn yn cael ei gwasgu oherwydd bod yn rhaid cydbwyso darpariaeth y cwricwlwm yn erbyn y dyraniad ar gyfer llai o ddisgyblion.

5.6 Mae cyflwr adeiladau'r ysgolion at ei gilydd yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylid uwchraddio rhai rhannau o'r tair ysgol

| **Ysgol** | **Cynnal a chadw sydd wedi cronni** | **Tân ac asbestos** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Y Berwyn | £293,250 | £41,000 | £335,250 |
| Bro Tegid | £37,700 | £10,500 | £48,200 |
| Beuno Sant | £22,750 | £25,500 | £48,250 |
| Cyfanswm | £354,700 | £77,000 | £431,700 |

5.7 Ar hyn o bryd, mae 25 o ddisgyblion yn nosbarthiadau Bro Tegid ac 17 ym Meuno Sant.

5.8 Mae lle yn Ysgol y Berwyn i 730 o ddisgyblion oedran 11 – 19 ac ar hyn o bryd mae'n addysgu 369 o ddisgyblion, sy'n golygu fod bron 50% o'r gofod yn wag. Mae mwy o ddisgyblion nag sydd o le iddyn nhw ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Tegid (mae'n addysgu 95 o ddisgyblion mewn lle ar gyfer 84) ac mae Ysgol Beuno Sant yn addysgu 51 o ddisgyblion mewn lle i 79. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio nifer sylweddol fel mwy na 25% a mwy na 30 o leoedd gwag

5.9 Daw adnoddau cymunedol yn ardal y Berwyn o dan fygythiad cynyddol oherwydd cyfuniad o adnoddau gwael neu anaddas a llai o arian ar gael i'w cynnal. Mae Llyfrgell y dref ar safle Ysgol y Berwyn ond ni all y cyhoedd ei defnyddio yn ystod oriau'r ysgol ac mae Neuadd Buddug – lle cynhelir llawer o weithgareddau diwylliannol y dref – mewn cyflwr gwael ac angen ei thrwsio a'i diweddaru'n sylweddol.

5.10 Bydd cyflwyno'r cynnig hwn - yn ogystal â chynigion eraill ar gyfer dalgylch y Berwyn - yn gyfle i'r Cyngor ddatblygu ysgolion sy'n addas i gyfarfod â gofynion addysgol yr 21ain Ganrif.

## 6 6. Ystyried y dewisiadau

6.1 Yn ystod y trafodaethau yn nalgylch Y Berwyn rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2010, cafodd nifer o ddewisiadau pellach eu hystyried ar gyfer tref y Bala. Yn gynnar yn ystod y trafodaethau, cafwyd peth cytundeb ynghylch trafod y manteision o gael campws gydol oes.

6.2 Isod mae rhai o'r prif argymhellion ar gyfer y model dysgu gydol oes:

- Campws gydol oes ar gyfer oedran meithrin, cynradd, uwchradd a hefyd ddarpariaeth ar gyfer defnydd cymunedol a diwylliannol Yn achos Y Berwyn, i ddechrau, dylid ystyried ychwanegu darpariaeth ar gyfer llyfrgell a theatr ar y campws. Cynhelir trafodaethau'n lleol i drafod hyn ymhellach.
- Byddai'n rhaid sefydlu Bwrdd Lleol o dan arweiniad Pennaeth y campws gydol oes a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl adnoddau a gwasanaethau ar y safle.
- Byddai yna un Corff Llywodraethu ac un gyllideb ar gyfer yr Ysgol Gymuned 3-19 oed fydd yn greiddiol i'r Campws gydol oes.

**Strwythur Rheolaethol Posib**

- Byddai un pennaeth yn derbyn cyfrifoldeb am y campws cyfan, gyda phenaethiaid cynorthwyol ar gyfer sectorau yn gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 4 a 5 ac am unrhyw ddarpariaethau a gwasanaethau eraill ar y safle.
- Yn yr ail reng rheoli, caiff system o gydlynwyr ei sefydlu gyda chyfrifoldeb ledled y sefydliad am agweddau megis Gofal Bugeiliol, Asesu neu Weithgareddau Cymunedol.

6.3 Mae'r modelau a drafodwyd yn cynnwys:

- cynnal y tair ysgol gynradd yn y dref fel endidau ar wahân
- cau ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant a sefydlu un ysgol gynradd yn y dref, ac efallai ei hymgorffori yn Ysgol y Berwyn.
- cau ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant ac ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch a sefydlu un ysgol gynradd yn y dref, ac efallai eu hymgorffori yn Ysgol y Berwyn.

Dadansoddwyd yr opsiynau hyn gan swyddogion y Cyngor a chyflwynwyd hynny gerbron aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch. Mae'r ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor neu gan eich ysgol.

6.4 Yn dilyn mae gwerthusiad o'r dewisiadau wedi'u hystyried yn erbyn meini prawf allweddol y Cyngor ac yn erbyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad:

| Ffactor | Dim Newid | Un ysgol gynradd ar gyfer tref y Bala | Un ysgol gynradd ar gyfer y dalgylch ehangach | Ysgol Gydol Oes ar gyfer tref y Bala | Ysgol Gydol Oes ar gyfer y dalgylch ehangach |
|---|---|---|---|---|---|
| Maint yr ysgol | Bro Tegid - 95<br>Beuno Sant - 51<br>Y Berwyn - 369 | 146 | 308 | Cynradd – 146<br>Uwchradd - 369 | Cynradd – 308<br>Uwchradd - 369 |
| Maint y dosbarth | Bro Tegid - 24<br>Beuno Sant - 17 | Cynradd – 24 | 25 | Cynradd – 24 | Cynradd – 25 |
| Safonau addysgol | Bro Tegid - 3 Gradd 1, 4 Gradd 2<br>Beuno Sant – 7 Gradd 2<br>Y Berwyn – 2 Gradd 2, 3 Gradd 3, 2 Gradd 4 | Mae'r ddwy ysgol yn cynnig addysg o ansawdd da | Mae pob ysgol gynradd yn yr ardal a gafodd archwiliad gan ESTYN wedi cael o leiaf Graddau 2 yn gyffredinol. | Mae'r ysgolion cynradd yn darparu addysg o ansawdd da. Mae'r ysgol uwchradd wedi derbyn archwiliadau ESTYN ac yn ymateb yn bositif | Mae pob ysgol gynradd yn darparu addysg dda Mae'r ysgol uwchradd wedi derbyn archwiliadau ESTYN ac yn ymateb yn bositif |
| Yr Amgylchedd Ddysgu | Mae angen gwaith addasu a chynnal a chadw sylweddol ar bob un o'r tri safle | Mae angen darparu man Cyfnod Sylfaen ac ystafelloedd ar gyfer TGCh a staff | Byddai angen adeiladu o'r newydd | Byddai defnyddio safle Ysgol y Berwyn yn golygu cryn waith gwella neu ailadeiladu | Byddai angen adeiladu o'r newydd ar gyfer y sector cynradd, Mae'n annhebyg y gallai safle Ysgol y Berwyn fel y mae ddygymod â'r campws |
| Gwaith adeiladu sydd ei angen | Dim, ar wahân i sicrhau fod adeiladau'n addas ar gyfer eu diben | Gwaith sylweddol ei angen i ymestyn, uwchraddio neu adeiladu o'r newydd ar gyfer 146 o ddisgyblion cynradd | Adeiladu o'r newydd ar gyfer 308 o ddisgyblion cynradd | Gwaith sylweddol i uwchraddio, addasu neu adeiladu o'r newydd ar gyfer 550 o ddisgyblion oedran 3 – 19. | Adeiladu'n gyfan gwbl o'r newydd ar gyfer 700 o ddisgyblion ar un safle. Mae'n annhebyg y gellid canfod safle addas |
| Arweinyddiaeth a staffio | Bro Tegid 4<br>Beuno Sant 2.5<br>Berwyn 21 | 6 athro | 11 athro | 27 o athrawon | 32 o athrawon |
| Cyllideb fesul disgybl | Bro Tegid £ 3,038.<br>Beuno Sant £3,519 .<br>Berwyn Secondary £4,766 | £3,095 (prisiau 2009/10) | £2,877 (prisiau 2009/10) | £4,309 (prisiau 2009/10) | £4,012 (prisiau 2009/10) |

| Ffactor | Dim Newid | Un ysgol gynradd ar gyfer tref y Bala | Un ysgol gynradd ar gyfer y dalgylch ehangach | Ysgol Gydol Oes ar gyfer tref y Bala | Ysgol Gydol Oes ar gyfer y dalgylch ehangach |
|---|---|---|---|---|---|
| Cludiant | Dim newid | Dim newid | £81,000 | Dim newid | £81,000 |
| Arbedion (ar ôl cludiant) | Dim | £30,128 (prisiau 2009/10) | £184,226 (prisiau 2009/10) | £68,899 (prisiau 2009/10) | O leiaf £250,000 (prisiau 2009/10) |
| Lleoedd Gwag | Bro Tegid<br>Beuno Sant<br>Y Berwyn | 0, oherwydd datblygu darpariaeth addas (+ 10% o leoedd gwag ar gyfer twf) | 0, oherwydd datblygu darpariaeth addas (+ 10% o leoedd gwag ar gyfer twf) | 0, oherwydd datblygu darpariaeth addas (+ 10% o leoedd gwag ar gyfer twf) | 0 (er y byddai'r safle gydol oes angen 10% yn ychwanegol ar gyfer twf yn y dyfodol) |
| Iaith | Dim effaith | -10 negyddol | 11 niwtral | -10 negyddol | Niwtral 11 |
| Cymuned | Dim effaith | 0.4 negyddol | 11.8 negyddol | 0.4 negyddol | -12 |

Er gwybodaeth: Wrth gynnal yr Asesiadau o Effaith Ieithyddol a Chymunedol, lluniwyd system sgorio oedd yn mesur effeithiau posib cynigion ar gyfer newid. Cyflwynir dadansoddiad llawn o'r meini prawf a'r fethodoleg yn yr adroddiadau ac maent ar gael ar wefan y Cyngor neu gan eich ysgol.

**6.5 *Dewis 1 – Dim newid neu drefniadau cydweithio llac***

6.5.1 Mae'r dewis hwn yn argymell cadw ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant fel endidau cyfreithiol ar wahân ond o fewn model o ysgolion yn cydweithio.

6.5.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- cadw'r tair ysgol fel safleoedd addysg i blant y dalgylch
- dal i gynnig dewis yn y dref o ysgol gynradd gymunedol ac ysgol wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a gynorthwyir
- parhau ag addysg yn yr ysgolion cynradd sydd wedi derbyn adroddiadau archwiliad ESTYN da yn ddiweddar
- galluogi ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng ysgolion yr ardal a'r cyfleoedd a fyddai'n codi o ganlyniad i rannu ymarfer proffesiynol
- llai o gostau cludiant
- yr effaith negyddol leiaf posibl ar faterion ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb, gyda chydweithio'n cynnig cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg yn yr ardal

6.5.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- Parheid i gynnal dwy ysgol gynradd yn y dref i addysgu tua 150 o ddisgyblion
- Byddai'n rhaid parhau i dalu am gynnal, gwresogi, goleuo a chostau eraill dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd
- Ni ellid ateb pryderon ynghylch darpariaeth gymunedol ehangach, gan gynnwys llyfrgell a theatr.

***6.6 Dewis 2 - un ysgol gynradd ar gyfer tref y Bala***

6.6.1 Byddai'r dewis hwn yn golygu cau ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant a symud pob darpariaeth gynradd yn nhref y Bala i un safle.

6.6.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- byddai'n safle sengl ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal a fyddai'n caniatáu datblygu'r adnoddau gorau
- byddai'n cyflogi 6 o athrawon llawn amser, gan alluogi'r athrawon i ddatblygu rhychwant o arbenigedd
- byddai holl ddisgyblion oedran cynradd y dref yn derbyn darpariaeth gyson
- ni fyddai unrhyw gynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn deillio o'r cynnig hwn
- byddai'r amrywiaeth yn y gwariant fesul disgybl yn cael ei wastadhau ar draws y dalgylch gan arwain at arbedion o £30,128.

6.6.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- Mae yna dal gyfle i ddatblygu adnodd addysg ar gyfer pob oedran yn y dref a fyddai'n cryfhau pob sector
- Ni fyddai'n cyfrannu at weithgareddau cymunedol a diwylliannol ehangach

***6.7 Dewis 3 – un ysgol gynradd ar gyfer rhan neu holl ddalgylch y Berwyn***

6.7.1 Byddai'r dewis yma'n golygu cau dwy ysgol gynradd tref y Bala a rhai, onid pob un, o’r pedair ysgol gynradd arall yn y dalgylch a darparu addysg gynradd ar un safle.

6.7.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- byddai'n safle sengl ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal a fyddai'n caniatáu datblygu'r cyfleusterau gorau
- byddai'n cyflogi 11 o athrawon llawn amser, gan alluogi'r athrawon i ddatblygu rhychwant o arbenigedd
- byddai’r holl ddisgyblion oedran cynradd yn derbyn darpariaeth gyson
- byddai'r amrywiaeth yn y gwariant fesul disgybl yn cael ei wastadhau ar draws y dalgylch gan arwain at arbedion arwyddocaol o hyd at £184,226.

6.7.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- mae’r Deilydd Portffolio Addysg wedi nodi fod rhieni'n dymuno cael dewis addysg gynradd wledig neu drefol i'w plant. Byddai'r cynnig yma yn dileu’r dewis o addysg wledig
- byddai amser a chostau teithio'n cynyddu'n sylweddol. Mae strategaeth y Cyngor yn anelu at gadw amser teithio i blant oedran cynradd i lai na 30 munud bob ffordd
- roedd llai o gefnogaeth yn y dalgylch i'r model yma nag i unrhyw un arall
- nododd asesiadau effaith ieithyddol a chymunedol y byddai angen pwyso a mesur yn ofalus.

### *6.8 Dewis 4 - ysgol gydol oes ar gyfer tref y Bala*

6.8.1 Hwn yw’r dewis a ffefrir ac mae dadansoddiad o'i manteision a'i hanfanteision yn dilyn yn adran 7 isod.

### *6.9 Dewis 5 - ysgol gydol oes ar gyfer rhan neu’r cyfan o’r dalgylch*

6.9.1 Byddai'r dewis yma'n golygu cau rhai, onid y cyfan, o ysgolion cynradd dalgylch Y Berwyn a darparu lleoedd ar gyfer disgyblion oedran cynradd mewn ysgol gydol oes yn nhref y Bala.

6.9.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- byddai'n safle sengl ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal a fyddai'n caniatáu datblygu'r adnoddau gorau
- byddai'n cyflogi 11 o athrawon llawn amser, gan alluogi'r athrawon i ddatblygu rhychwant o arbenigedd Gellid hefyd ddod ag athrawon uwchradd arbenigol i mewn ar gyfer gwersi neu brosiectau penodol
- byddai holl ddisgyblion oedran cynradd yn derbyn darpariaeth gyson
- byddai llai o aflonyddwch wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd
- byddai'r amrywiaeth yn y gwariant fesul disgybl yn cael ei wastadhau ar draws y dalgylch gan arwain at arbedion arwyddocaol o leiaf £250,000.

6.9.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- mae’r Deilydd Portffolio Addysg wedi nodi fod rhieni'n dymuno cael dewis addysg gynradd wledig neu drefol i'w plant. Byddai'r cynnig yma'n dileu’r dewis o addysg wledig

- byddai amser chostau teithio'n cynyddu'n sylweddol. Mae strategaeth y Cyngor yn anelu at gadw amser teithio i blant oedran cynradd i lai na 30 munud bob ffordd
- roedd llai o gefnogaeth yn y dalgylch i'r model yma nag i unrhyw un arall
- nododd asesiadau effaith ieithyddol a chymunedol y byddai angen pwyso a mesur yn ofalus.

## 7. Ffactorau'n cefnogi'r dewis a ffefrir

7.1 Byddai'r cynnig yn rhoi cyfleoedd i ganolbwyntio ar godi safonau Cyfnod Allweddol 3 drwy amharu llai ar ddisgyblion wrth drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae ymchwil yn awgrymu y gall trosglwyddo o'r sector cynradd i'r uwchradd darfu ar ddatblygiad addysgol disgyblion.

7.2 Byddai safon dysgu ac addysgu'n codi drwy roi rhagor o gyfle i staff rannu eu profiadau a'u harbenigedd.

7.3 Byddai mwy o gyfle i aelodau unigol o staff ddatblygu. Gall campysau Dysgu Gydol Oes fod yn fwy hyblyg yn eu defnydd o staff ar draws Cyfnodau Allweddol a allai fod yn fanteisiol iawn mewn cyfnodau economaidd caled.

7.4 Mentora gwell drwy strategaeth gydlynol i gefnogi pob disgybl.

7.5 Mwy o hyblygrwydd i ddylunio a datblygu'r cwricwlwm.

7.6 Rhagor o gyfleoedd i gefnogi plant drwy gynyddu gwaith traws sector i gefnogi plant a'u teuluoedd.

7.7 Cyfle i amddiffyn a datblygu darpariaeth gymunedol ac i ddyfnhau cysylltiadau gyda'r gymuned. Yn benodol yn yr achos hwn, dal i gynnig y ddarpariaeth ddiwylliannol a geir drwy Neuadd Buddug ac agor Llyfrgell y dref i'r gymuned.

7.8 Cyfle i rannu adnoddau'n arwain at arbedion. Yn yr achos hwn, rhagwelir y byddai sefydliad canolog yn cynnwys mannau cymunedol a fyddai'n cael eu rhannu, megis neuadd, cegin, swyddfeydd a derbynfa gan ostwng costau swyddfa gefn a sicrhau y bydd cyfran fwy o gyllideb yr ysgol yn canolbwyntio ar y dysgwyr. Rhagwelir arbedion o tua £68,899.

7.9 Byddai cronni cyllidebau'r tri sefydliad a rhai Neuadd Buddug a'r llyfrgell yn rhoi cadernid ariannol i'r sefydliad newydd.

7.10 Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir a byddai'r cynnig hwn yn dileu'r statws hwnnw. Byddai'r cynnig, pe byddai'n cael ei wireddu, yn caniatáu i gorff llywodraethu'r ysgol newydd sefydlu ei gyfansoddiad ei hunan - o fewn canllawiau cyfreithiol - a mater i'r ysgol newydd fyddai cytuno ar ei strwythur.

7.11 Byddai'r ysgol newydd ar ei hennill o fuddsoddiad arwyddocaol. Disgwylir iddi fod yn ganolfan ar gyfer digwyddiadau addysgol, chwaraeon a diwylliannol yn nalgylch ehangach y Berwyn.

## 8 Anfanteision y dewis a ffefrir

8.1 Mae gan y tair ysgol nodweddion unigol cryf. Byddai sefydlu ysgol newydd yn gwanhau'r nodweddion hynny.

8.2 Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir ac mae'n gweithredu fel ei hawdurdod derbyn ei hunan. Byddai'r cynnig yn dileu'r statws hwnnw.

## 9. Beth fyddai effaith y cynnig hwn?

9.1 Byddai Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant yn cau erbyn mis Awst 2015.

9.2 O 1 Medi 2015, byddai plant cynradd dalgylchoedd Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant ynghyd â phlant oedran Uwchradd dalgylch presennol Ysgol y Berwyn yn cael cynnig lle yn yr Ysgol Gymuned 3-19 oed ar y campws newydd gydol oes ar safle Ysgol y Berwyn yn nhref y Bala.

9.3 Mi fyddai'r ysgol yn Ysgol Gymuned 3-19 oed ac na fyddai ganddi gymeriad crefyddol penodol.

9.4 Yr awdurdod lleol fyddai awdurdod derbyn yr ysgol newydd gan ddarparu llefydd yn yr ysgol yn unol â'i pholisi mynediad. Byddai lle yn yr ysgol i 550 o ddisgyblion 3-19 oed ar sail niferoedd y disgyblion heddiw.

9.5 Byddai 3 dewis i blant dalgylch y Bala wrth ddewis ysgol, sef:

- mynychu'r ysgol gydol oes newydd ar safle presennol Ysgol y Berwyn
- mynychu ysgol arall os yw'r ysgol honno'n nes at y cartref na'r ysgol gydol oes
- ceisio am le fel disgybl allan o ddalgylch mewn ysgol arall pe byddai lle yn yr ysgol honno

9.6 Mae Cynllun Cludiant Ysgolion y Cyngor yn gwarantu cludiant i ysgol y dalgylch i bob disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, neu i ysgol arall os yw'r ysgol honno'n nes at gartref y disgybl a bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi. Yn ystod haf 2009, roedd 147 o blant oedran cynradd statudol yn byw yn nalgylch y Bala. Bydd gan y plant hynny hawl i gael eu cludo am ddim yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. Ni fyddai trefniadau cludo disgyblion uwchradd yn cael eu heffeithio.

9.7 Mae gan unrhyw blentyn tair blwydd oed hawl statudol i 10 awr o ddarpariaeth feithrin mewn meithrinfa neu ysgol. Er y gall ysgolion dalgylch Y Berwyn ddarparu addysg feithrin yn yr ysgolion, maent ar hyn o bryd yn dewis peidio a gwneud hynny. Grwpiau chwarae sy'n darparu addysg feithrin yno. Byddai darpariaeth feithrin ar gael yn yr ysgol gydol oes.

9.8 Cyflwynir bid i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyllid cyfalaf i ddatblygu'r cynigion ar gyfer ardal y Berwyn.

## 10. Pwrpas yr ymgynghori

10.1 Cynhelir yr ymgynghori er mwyn cael eich sylwadau ar y cynnig i gau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant.

10.2 Mae croeso i chi gyflwyno'ch sylwadau yn ysgrifenedig. Dylech anfon eich ymateb gan ddefnyddio’r ffurflen ymateb a atodir at:

Seimon Williams
Rheolwr Prosiect Ad-drefnu Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu, gallwch ymateb trwy e-bost a'i anfon at: trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk <mailto:trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk>

Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**. Dylai unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu drwy e-bost, gyrraedd y Cyngor erbyn y dyddiad hwnnw.

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOLION**
**Y BERWYN, BRO TEGID A BEUNO SANT**
**A SEFYDLU YSGOL GYMUNED 3-19 AR GAMPWS NEWYDD DYSGU GYDOL OES YN Y BALA**

**I'W WEITHREDU O 31 AWST 2015**

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL**

Darparwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda:

1. Enw: ________________________________

2. Cyfeiriad: ____________________________________
____________________________________
____________________________________

3. Rwy'n ymateb fel: (nodwch isod os gwelwch yn dda):

| Rhiant | Llywodraethwr | Staff | Disgybl | Arall (nodwch isod) |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall: ____________________________________________

Nodwch isod a ydych yn cytuno i ni gyhoeddi eich ymateb. Atodwch y dudalen hon i flaen eich ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Gyda'ch caniatâd, byddwn yn ail-gynhyrchu ymatebion - wedi tynnu manylion personol fel enwau a chyfeiriadau - mewn adroddiadau i'r Cyngor ar yr ymgynghoriad statudol

Yn ôl gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 mae angen i ni eich hysbysu o'r canlynol. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn wrth iddo ystyried y cynnig hwn. Defnyddir eich gwybodaeth personol am y rheswm hwn yn unig, ac efallai y rhennir y wybodaeth gydag asiantaethau sydd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn ymateb i faterion penodol sydd wedi eu codi gennych yn unig. Os nad ydych eisiau i ni ddarparu manylion personol byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau, ond ni fyddwn yn gallu cydnabod eich ymateb.

| Ia, cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb ar ôl tynnu gwybodaeth personol | Na, ni ddylai'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb |
|---|---|
| ☐ | ☐ |

**Amserlen**

| | |
|---|---|
| 13 Rhagfyr 2010 | Dosbarthu'r dogfennau ymgynghori |
| 13-19 Ionawr 2010 | Cyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni |
| 04 Chwefror 2011 | Dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar y cynnig |
| 12 Mai 2011 | Y Cyngor yn penderfynu a ddylid cyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio |

Ie → 13 Mai 2011: Cyhoeddi rhybuddion statudol

Na → <u>Gwrthod y cynnig</u>

13 Mai 2011 — Cyhoeddi rhybuddion statudol

13 Gorffennaf 2011 — Diwedd y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol

Derbyniwyd gwrthwynebiadau?

Do → Trosglwyddo unrhyw wrthwynebiadau i Lywodraeth y Cynulliad – gallai'r cynnig cael ei gymeradwyo, ei wrthod neu'i newid (disgwylir ymateb erbyn Pasg 2012)

Naddo → Cyfarfod Bwrdd y Cyngor → Cadarnhau'r cynnig?

- Ie → Cau Ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant erbyn 31 Awst 2015 a darparu lleoedd ar y Campws Dysgu Gydol Oes yn y Bala o 1 Medi 2015.
- Na – Gwrthod y cynnig

**1.2 – Dogfen Ysgol y Parc**

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOL Y PARC**
**I'W WEITHREDU O 31 AWST 2012**

**PAPUR YMGYNGHORI STATUDOL**

## 1. Y Cynnig

1.1 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar y cynnig i gau Ysgol y Parc a darparu lleoedd i ddisgyblion, sy'n byw yn ardal dalgylch y Parc ar hyn o bryd, yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn.

1.2 Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd Ysgol y Parc yn cau ar 31 Awst 2012.

## 2. Yr Ymgynghoriad Statudol

2.1 Cynhelir cyfarfodydd rhwng 10-19 Ionawr 2011 i drafod darpariaeth ysgolion Cynradd yn ardal y Berwyn. Gallai hynny olygu cau Ysgol y Parc.

2.2 Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni yn Ysgol y Parc nos Lun 10 Ionawr 2011.

| | |
|---|---|
| Staff | 5:00-6:00 |
| Llywodraethwyr | 6:00-7:00 |
| Rhieni | 7:00 |

2.5 Bydd cyfle i ddisgyblion hefyd gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

2.4 Mae croeso i chi ofyn cwestiynau a chyflwyno'ch sylwadau yn y cyfarfod neu roi eich ymateb yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb a atodir i'r ddogfen hon. Dylech anfon llythyrau ymateb at:

Seimon Williams
Rheolwr Prosiect Ad-drefnu Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu, gallwch ymateb trwy e-bost a'i anfon at: trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**. Dylai unrhyw sylwadau, ysgrifenedig neu drwy e-bost, gyrraedd y Cyngor erbyn y dyddiad hwnnw.

2.5 Bydd eich sylwadau'n cael eu didoli a'u hystyried cyn penderfynu ar y camau nesaf. Bydd eich sylwadau'n cael eu hystyried gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

Cyngor Gwynedd ar 24 Chwefror 2011 a gan Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth 2011. Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu, ar 12 Mai 2011, a ddylid cyhoeddi cynigion ai peidio.

2.6 Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae yna becyn o wybodaeth gefndirol ar gael yn eich ysgol leol, Llyfrgell Y Bala ac ar wefan y Cyngor ar www.gwynedd.gov.uk. Bydd y pecyn yn cynnwys:

- papurau'r trafodaethau dalgylch, gan gynnwys pecyn ystadegol a dadansoddiad o fodelau
- asesiadau o effaith ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb

2.7 Os ydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon ar ffurf wahanol, cysylltwch â Seimon Williams ar 01286 679247.

**3 Sut gafodd y cynnig hwn ei ddatblygu?**

3.1 Sefydlodd y Cyngor Weithgor Gwella fis Mehefin 2008 i ddatblygu strategaeth i ystyried trefniant ysgolion cynradd y sir.

3.2 Cyflwynodd y Gweithgor Gwella adroddiad, o'r enw *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd,* i Gyngor Gwynedd ar 2 Ebrill 2009. Roedd y strategaeth yn amlinellu'r nôd o adolygu ysgolion cynradd yn ôl dalgylchoedd uwchradd, a chafodd meini prawf eu sefydlu i flaenoriaethu'r dalgylchoedd y dylid eu hadolygu. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ddiwrthwynebiad.

3.3 Cyflwynir y cynnig hwn ar ôl cynnal trafodaethau sylweddol yn nalgylch y Berwyn rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2010, gan gynnwys:

- 5 cyfarfod o Banel Adolygu Dalgylch y Berwyn
- cyfres o gyfarfodydd gyda llywodraethwyr, staff a rhieni holl ysgolion cynradd y dalgylch
- sesiwn i blant a phobl ifanc y dalgylch
- asesiad o effeithiau'r cynigion ar iaith a chymunedau

3.4 Cafodd y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2010 fel sail i ymgynghoriad statudol.

## 4 <u>Y cefndir yn arwain at yr ymgynghoriad</u>

4.1 Ar hyn o bryd, yn ardal y Berwyn, mae pedair Ysgol Gynradd Gymuned (ysgolion Ffridd y Llyn, O.M.Edwards, Bro Tryweryn a Bro Tegid), un ysgol Ysgol a ddynodir fel ysgol Gymunedol (Ysgol y Parc), un Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (Ysgol Beuno Sant) ac un Ysgol Uwchradd gyda chweched dosbarth (Ysgol y Berwyn). Er bod pob ysgol gynradd yn gallu darparu addysg feithrin yn gyfreithlon, gwneir darpariaeth ar gyfer disgyblion tair blwydd oed mewn grwpiau meithrin.

4.2 Mae safon addysg gynradd yn nalgylch y Berwyn ar y cyfan yn dda. Dangosodd archwiliad diweddar o'r ysgol Uwchradd y gellid gwella ar y ddarpariaeth yno ac mae gwaith da ar droed yno wrth ymateb i hynny.

4.3 Defnyddiwyd nifer o feini prawf allweddol i flaenoriaethu adolygu dalgylchoedd. Nodwyd mai ardal dalgylch y Berwyn ddylai fod yr ail ddalgylch allan o 13 i gael ei hadolygu oherwydd:

4.4 Roedd y gostyngiad yno yn nifer disgyblion yn y sector cynradd rhwng 1975 – 2009 yr un mwyaf arwyddocaol o unrhyw ddalgylch yn y Sir. Cafwyd gostyngiad o 40% yn nifer y disgyblion yn y sector Cynradd ac o 38% yn y sector Uwchradd.

4.5 Adeiladwyd dwy ysgol ardal newydd yn yr ardal yn ystod y 1960au – 1970au. Er hynny, nid yw llawer o ysgolion yr ardal yn addas ar gyfer anghenion yr 21ain Ganrif. Mae'r sector cynradd yn ddiffygiol o ran cyflwr ei adeiladau ac mae angen gwariant cyfalaf o dros £660,000 i'w gwella. Hefyd mae angen gwario dros £400,000 ar yr ysgol uwchradd i wella ei chyflwr.

4.6 Mae chwe ysgol gynradd yn y dalgylch yn addysgu rhwng 19 a 95 o ddisgyblion yr un. Mae cyfartaledd cost y disgybl yn y dalgylch (£3,721) yn 14% yn fwy na chyfartaledd y Sir (£3,262)

4.7 Ysgol y Berwyn yw'r unig Ysgol Uwchradd ym Meirionydd a Dwyfor sydd â chweched dosbarth ac mae ganddi ddiffygion ariannol ar hyn o bryd.

4.8 Mae nifer sylweddol o leoedd gwag yn ysgolion dalgylch y Berwyn, gyda 30% o leoedd cynradd a 48% o leoedd uwchradd heb eu llenwi.

4.9 Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid yw darpariaeth bresennol ardal y Berwyn bellach yn gynaliadwy.

## 5 <u>Ysgol y Parc</u>

5.1 Y model a gynigir ar gyfer ardal y Parc yw y dylid cau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012. Cynigir lle i ddisgyblion sy'n byw yn ardal y Parc yn Ysgol O M Edwards o 1 Medi 2012. Derbyniwyd y cynnig hwn gan Gyngor Gwynedd ar 15 Gorffennaf 2010 fel sail i ymgynghori'n statudol.

5.2 Byddai Ysgol O M Edwards yn cael ei haddasu i wneud lle i 90 o ddisgyblion.

5.3 Disgwylir i awdurdodau lleol sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol. Cyllideb yr ysgol yn 2010/11 yw £133,100 sy'n cyfateb i £7,394 y disgybl. Mae hynny bron iawn ddwywaith cymaint ar gyfartaledd ag sy'n cael ei wario'r pen ar ddisgyblion y dalgylch, sef £3,721 ac yn hawdd ddwywaith cyfartaledd y Sir o £3,262. Ar hyn o bryd mae staff Ysgol y Parc yn cael eu gwarchod gan bolisi gwarchod isafswm staffio Cyngor Gwynedd sy'n sicrhau fod o leiaf Pennaeth ac athro / athrawes ym mhob ysgol â mwy na 15 o ddisgyblion llawn amser. Mae hynny'n golygu ei bod yn cael £36,315 yn ystod blwyddyn ariannol 2010 / 11 yn ychwanegol i'w dyraniad fformiwla.

5.4 Ysgol y Parc yw'r ail ysgol gynradd leiaf sydd ar ôl yng Ngwynedd a hi yw'r lleiaf yn nalgylch y Berwyn gyda 19 o ddisgyblion ym mis Medi 2010. Nid yw wedi darparu ar gyfer mwy na 27 o ddisgyblion (4 – 10 mlwydd oed) ar unrhyw adeg yn ystod y 35 mlynedd diwethaf ac roedd y nifer mor isel ag wyth yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r ysgol yn darogan y dylai nifer y disgyblion aros o gwmpas 20 yn ystod y tair blynedd nesaf.

5.5 Mae Strategaeth Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd yn nodi y dylai fod rhwng 12 a 25 o ddisgyblion mewn dosbarthiadau ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd cyfartaledd nifer y disgyblion mewn dosbarth yn Ysgol y Parc yw 10, ac ni ddisgwylir i hynny newid yn ystod y 3 blynedd nesaf.

5.6 Mae lle yn yr ysgol i 33 o ddisgyblion rhwng 4 - 10 oed yn ogystal â 3 lle meithrin (nid yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin ar hyn o bryd). Felly, ar hyn o bryd, mae 13 o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio nifer sylweddol o lefydd gweigion fel mwy na 25% o gapasiti ysgol a mwy na 30 o leoedd gwag.

5.7 Yn ôl yr wybodaeth a gafwyd gan yr ysgol a hefyd o asesiadau a wnaed gan y Sir, nid oes digon o le yn yr ysgol i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ac nid oes ganddi gae chwarae nac ystafell athrawon.

5.8 Mae'r ysgol wedi ei harwain gan benaethiaid dros dro ers ymddeoliad y pennaeth llawn amser diwethaf yn 2005.

5.9 Nid yw'r ysgol yn denu nifer arwyddocaol o ddisgyblion allan o'i dalgylch ond nid yw wedi colli llawer o ddisgyblion i ysgolion eraill chwaith.

5.10 Mae polisi Gwarchod Isafswm Staffio'r Sir yn sicrhau bod pob ysgol gyda mwy na 15 o ddisgyblion llawn amser yn cael digon o gyllid i gyflogi pennaeth ac athro / athrawes. Ar adegau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, roedd llai na 15 yn Ysgol y Parc ac felly nid oedd yn derbyn ond digon o arian i gyflogi pennaeth a chymhorthydd dosbarth. Roedd hynny'n golygu fod disgwyl i'r pennaeth, ar adegau, arwain yr ysgol yn ogystal â dysgu dosbarthiadau o hyd at 14 o ddisgyblion ar draws 7 grŵp oedran yn llawn amser.

5.11 Bydd cyflwyno'r cynnig hwn – yn ogystal â chynigion eraill ar gyfer dalgylch y Berwyn – yn gyfle i'r Cyngor ddatblygu ysgolion sy'n addas i gyfarfod â gofynion addysgol yr 21ain Ganrif.

## 6 Ystyried Dewisiadau

6.1 Yn ystod y trafodaethau yn nalgylch Y Berwyn rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2010, cafodd nifer o ddewisiadau pellach eu hystyried ar gyfer Ysgol y Parc, gan gynnwys:

- cynnal Ysgol y Parc fel rhan o ysgolion yn cydweithio neu ffederal ehangach.
- cau Ysgol y Parc a darparu lleoedd i'r disgyblion yn Ysgol O. M. Edwards
- cau Ysgol y Parc a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol newydd gydol oes yn nhref y Bala

Dadansoddwyd yr opsiynau yma gan Swyddogion y Cyngor a chyflwynwyd hwy i aelodau’r Panel Adolygu Dalgylch. Mae’r ddogfennaeth ar gael ar safle we'r Cyngor neu yn eich ysgol.

6.2 Mae gwerthusiad o’r dewisiadau wedi’u hystyried yn erbyn meini prawf allweddol y Cyngor ac yn erbyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn:

| Ffactor | Cydweithio | Cau Ysgol y Parc a throsglwyddo disgyblion i O M Edwards | Cau holl ysgolion cynradd y dalgylch a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol dysgu gydol oes yn y Berwyn |
|---|---|---|---|
| Maint yr ysgol | 19 | 70 | 308 cynradd<br>369 uwchradd |
| Maint y dosbarth | 10 | 23 | 25 |
| Safonau addysgol | 7 Gradd 2 yn archwiliad ESTYN 2007 | 7 Gradd 1 yn archwiliad ESTYN o Ysgol O M Edwards yn 2006 | Mae pob ysgol gynradd yn yr ardal a gafodd archwiliad gan ESTYN wedi cael o leiaf 7 Gradd 2. |
| Yr Amgylchedd Dysgu | Angen datblygu lle ar gyfer cyfnod Sylfaen, ystafell athrawon, mân waith adfer | Angen datblygu lle ar gyfer cyfnod Sylfaen, Swyddfa Pennaeth, mân waith adfer | Byddai ysgol wedi'i hail wampio'n sylweddol yn cynnig yr adnoddau diweddaraf i bob oedran yn y dalgylch cyfan. |
| Gwaith adeiladu sydd ei angen | Mae angen uwchraddio'r adeilad i safonau'r 21ain Ganrif | Byddai angen adeiladu estyniad un dosbarth yr un pryd â gwaith uwchraddio arall | Gwaith adeiladu sylweddol ei angen i uwchraddio neu gymryd lle safle presennol Ysgol y Berwyn |
| Arweinyddiaeth a staffio | Yn parhau'n agos at y pwynt pan na fydd y dyraniad ariannol yn gallu cynnal 2 athro / athrawes. Cyfleoedd i'r athro / athrawes gydweithredu a rhannu arbenigedd / profiad | Byddai'n gallu cyflogi 3 athro / athrawes llawn amser gan gynnwys y pennaeth<br>Mwy o athrawon ar y safle i hyrwyddo cydweithredu | 32 o athrawon |
| Cyllideb fesul disgybl | £7,394 yn parhau i'r Parc, sydd fwy na dwbl cyfartaledd y Sir | £3,286 sef tua chyfartaledd y Sir | £4,012 (prisiau 2009/10) |
| Cludiant | Dim angen cludiant ychwanegol | Amcangyfrifir y bydd angen £15,000 i ddarparu cludiant ychwanegol | £81,000 ar draws y dalgylch |
| Arbedion (ar ôl cludiant) | £0 | £71,373 | O leiaf £250,000 (prisiau 2009/10) |
| Lleoedd Gwag | 14 allan o 33 | 0 (er byddai estyniad i Ysgol O M Edwards angen 10% yn ychwanegol ar gyfer twf yn y dyfodol) | 0 (er y byddai'r safle pob oedran angen 10% yn ychwanegol ar gyfer twf yn y dyfodol) |
| Iaith | +9 | +9 | Niwtral 11 |
| Cymuned | Dim effaith | -6.5 | -12 |

Noder: Wrth gynnal yr Asesiadau o Effaith Ieithyddol a Chymunedol, lluniwyd system sgorio oedd yn mesur effeithiau posib cynigion ar gyfer newid. Cyflwynir dadansoddiad llawn o'r meini prawf a'r fethodoleg yn yr adroddiadau ac maent ar gael ar wefan y Cyngor neu gan eich ysgol.

## 6.3 *Dewis 1 – status quo / cydweithio*

6.3.1 Byddai'r dewis yma'n golygu cadw Ysgol y Parc fel safle o fewn model ysgolion yn cydweithio.

6.3.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- cadw adeilad Ysgol y Parc fel safle addysg gynradd i blant y dalgylch
- parhau ag addysg yn yr ysgol a gafodd adroddiad archwiliad ESTYN da yn 2007
- galluogi ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng ysgolion yr ardal a'r cyfleoedd a fyddai'n codi o ganlyniad i rannu ymarfer proffesiynol
- llai o gostau cludiant
- parhau ag adnodd gymunedol yn ei ffurf bresennol
- yr effaith negyddol leiaf posibl ar faterion ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb, gyda chydweithio'n cynnig cyfleoedd i gryfhau'r Iaith Gymraeg yn sylweddol yn yr ardal

6.3.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- ni fyddai'n cynyddu maint y grwpiau dysgu ar y safle i faint a fyddai'n gyson â strategaeth y Cyngor.
- mae ysgolion eraill y dalgylch yn darparu addysg sydd o leiaf o ansawdd cymharol ar lai o gost
- ni fyddai'n effeithio ar y gwahaniaeth eang yn y gwariant fesul disgybl rhwng Ysgol y Parc ac ysgolion eraill y dalgylch ac ni fyddai'n cyfrannu at arbedion i'w hail fuddsoddi mewn cyllidebau ysgolion
- ni fyddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag
- nid yw ysgolion â llai na 15 disgybl yn derbyn digon o arian i ddarparu pennaeth ac athro / athrawes.

## *6.4 Dewis 2 - cau Ysgol y Parc a darparu lleoedd yn Ysgol O M Edwards*

6.4.1 Dyma'r dewis sy'n cael ei gynnig: Mae dadansoddiad o'r manteision a'r anfanteision yn cael eu hamlinellu yn adran 7 isod.

## *6.5 Dewis 3 - trosglwyddo disgyblion y Parc i ysgol gydol oes yn nhref y Bala*

6.5.1 Byddai'r dewis yma'n golygu cau holl ysgolion cynradd dalgylch y Berwyn a darparu lleoedd cynradd mewn ysgol newydd bob oedran yn nhref y Bala.

6.5.2 Mae manteision y cynnig yn cynnwys:

- byddai'n safle sengl ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal a fyddai'n rhoi cyfle i ddatblygu'r adnoddau gorau
- byddai'n cyflogi 11 o athrawon llawn amser, gan alluogi'r athrawon i ddatblygu rhychwant o arbenigedd Gellid hefyd ddod ag athrawon uwchradd arbenigol i mewn ar gyfer gwersi neu brosiectau penodol
- byddai holl ddisgyblion oedran cynradd yn derbyn darpariaeth gyson
- byddai llai o aflonyddwch wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd
- byddai'r amrywiaeth yn y gwariant fesul disgybl yn cael ei wastadhau ar draws y dalgylch gan arwain at arbedion arwyddocaol o leiaf £250,000.

6.5.3 Ni chyflwynwyd y cynnig fel yr un a ddewiswyd am y rhesymau canlynol:

- mae'r Deilydd Portffolio Addysg wedi nodi fod rhieni'n dymuno cael dewis addysg gynradd wledig neu drefol i'w plant. Byddai'r dewis yma'n dileu'r dewis o addysg wledig
- byddai amser a chostau teithio'n cynyddu'n sylweddol. Mae strategaeth y Cyngor yn anelu at gadw amser teithio i blant oedran cynradd i lai na 30 munud bob ffordd
- roedd llai o gefnogaeth yn y dalgylch i'r model yma nag i unrhyw un arall

- nododd asesiadau effaith ieithyddol a chymunedol y byddai angen pwyso a mesur y sefyllfa yn ofalus.

## 7. Ffactorau'n cefnogi'r dewis a ffafrir

7.1 Byddai Ysgol O. M. Edwards, ar ôl ei haddasu, yn darparu ystod ehangach o adnoddau addas. Os ceir y buddsoddiad ar gyfer y cynigion yn nalgylch y Berwyn, bydd gan Ysgol O. M. Edwards yr adnoddau i ddarparu addysg o'r safon uchaf.

7.2 Byddai mwy o athrawon yn Ysgol O. M. Edwards. Byddai'r cynnig i ddatblygu trefniadau cydweithio rhwng Ysgol O. M. Edwards a'r Ysgol Gydol Oes y bwriedir ei datblygu yn Nhref y Bala yn cynnig amrywiaeth o arbenigedd a phrofiad ym meysydd y cwricwlwm. Byddai yno hefyd ystod ehangach o staff a fyddai'n cynnig rhagor o gyfleoedd i athrawon feithrin gwahanol brofiadau i allu datblygu gyrfa. Amcangyfrifir y byddai digon o arian yn y gyllideb i ddarparu o leiaf dri athro / athrawes yn Ysgol O. M. Edwards ar sail nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol ar hyn o bryd.

7.3 Byddai cyfle i ddisgyblion ddysgu gyda'u cyfoedion mewn grwpiau mwy o faint ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Ar hyn o bryd mae dosbarthiadau yn Ysgol y Parc yn darparu ar gyfer 10 disgybl. Amcangyfrifir y bydd cyllideb Ysgol O. M. Edwards, ar ôl cau Ysgol y Parc, yn briodol ar gyfer cynnal tri dosbarth o tua 23 disgybl.

7.4 Mae archwiliad mwyaf diweddar ESTYN o Ysgol O. M. Edwards yn nodi bod yr ysgol yn darparu addysg safonol. Dylai disgyblion Ysgol y Parc felly dderbyn addysg a fydd o leiaf cystal â'r hyn y maen nhw'n ei gael ar hyn o bryd.

7.5 Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, amcangyfrifir y bydd cyllideb Ysgol O. M. Edwards yn £223,462 (sef £46,727 ychwanegol). Ar ôl cyfrif am y costau ychwanegol o gludo plant cynradd y dalgylch i'r ysgol ardal newydd (amcangyfrif o £15,000), ceid arbedion o tua £71,373 a byddai hynny'n cael ei drosglwyddo i gyllideb ysgolion Gwynedd, yn bennaf er mwyn lleihau maint dosbarthiadau. Mae ymrwymiad y bydd yr arbedion yn cael eu cylchdroi o fewn system addysg Gwynedd ac o ganlyniad, o fudd i'r system.

7.6 Mae'r Cyngor yn gweithio ar gynllun i sicrhau y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn dalgylch y Berwyn nes y bydd y Cyngor wedi cwblhau'r broses o adolygu holl ysgolion y sir. Mae'r cynigion ar gyfer dalgylch y Berwyn yn nodi arbedion o tua £140,272.

7.7 Mae'r Asesiad Effaith Iaith a gynhaliwyd ar y cynnig wedi canfod y byddai'n cael effaith bositif ar y gefnogaeth Gymraeg yn yr ardal ac yn hyrwyddo ei datblygiad.

## 8 Anfanteision y dewis a ffefrir

8.1 Mae Ysgol y Parc yn adnodd cymunedol mewn cymuned wledig a gallai cau'r ysgol arwain at golli'r adnodd hwnnw. Mae'r Asesiad Effaith Cymuned wedi nodi canfyddiad y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar y gymuned. Byddai angen gweithredu'r mesurau lliniaru a nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi'r gymuned yn ystod y trawsnewid.

8.2 Mae Ysgol y Parc yn Ysgol Gymuned a ddynodir fel Ysgol Gymunedol. Hynny yw, mae'r ysgol yn un o wyth ysgol gynradd yng Ngwynedd sy'n derbyn cyllid ychwanegol i gynnal canolfan cymunedol ar y safle. Mae neuadd Gymuned ar ran o'r safle sydd wedi ei lesu i Gyngor Cymuned Llanycil ar les tymor hir. Nid yw bodolaeth y brydles yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu gweithredu'i hawliau statudol i gau'r ysgol. Fodd bynnag, petai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid addasu'r trefniadau fel rhan o weithdrefnau ôl-ddefnydd yr adeilad. Bydd y brydles yn

parhau ac mae'n berthnasol i gynnal y safle ac yn delio gyda swyddogaethau'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned wrth gefnogi'r adnodd cymunedol ar y safle.

8.3 Byddai goblygiadau staffio a allai arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Ar hyn o bryd mae pennaeth llawn amser, athro llawn amser a staff cefnogi yn Ysgol y Parc. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r ymgynghori presennol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd yn rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu'n glir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion yn llwyddiannus.

8.4 Byddai'r cynnig yn golygu y byddai disgyblion yn gorfod teithio o ardal y Parc i Lanuwchllyn bob dydd os mai dyna fyddai dewis y rhieni. Mae'n daith o dair milltir.

## 9. Beth fyddai effaith y cynnig hwn?

9.1 Byddai Ysgol y Parc wedi cau erbyn 31 Awst 2012.

9.2 O 1 Medi 2012, byddai plant yn nalgylch y Parc yn cael cynnig lle yn Ysgol O. M. Edwards.

9.3 Byddai 3 dewis i blant dalgylch y Parc wrth ddewis ysgol, sef:
- mynychu Ysgol O. M. Edwards
- mynychu ysgol arall os yw'r ysgol honno'n nes at y cartref nag Ysgol O. M. Edwards
- ceisio am le fel disgybl allan o ddalgylch mewn ysgol arall pe byddai lle yn yr ysgol honno

9.4 Mae Ysgol y Parc yn ysgol a adwaenir fel ysgol gymunedol ac yno y mae canolfan gymunedol y Parc. Mae'r Cyngor wedi cydnabod statws yr ysgol ac wedi ymrwymo i weithio gydag Arweinwyr Cymunedol i warchod defnydd cymunedol o'r adeilad.

9.5 Mae Cynllun Cludiant Ysgolion y Cyngor yn gwarantu cludiant i ysgol y dalgylch i bob disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, neu i ysgol arall os yw'r ysgol honno'n nes at gartref y disgybl a bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi. Yn ystod haf 2009, roedd 11 o blant oedran cynradd statudol yn byw yn nalgylch y Parc. Bydd gan y plant hynny hawl i gael eu cludo am ddim yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor.

9.6 Mae gan unrhyw blentyn tair blwydd oed hawl statudol i 10 awr o ddarpariaeth feithrin mewn meithrinfa neu ysgol. Mae ysgolion dalgylch y Berwyn yn gallu, ond yn dewis peidio â darparu addysg feithrin yn eu hysgolion. Grwpiau chwarae sy'n darparu addysg feithrin yno.

9.7 Cyflwynir bid i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyllid cyfalaf i ddatblygu tair ysgol wledig yn nalgylch Y Berwyn - gan gynnwys uwchraddio Ysgol O. M. Edwards.

## 10. Pwrpas yr ymgynghori

10.1 Cynhelir yr ymgynghori er mwyn cael eich sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol y Parc.

10.2 Mae croeso i chi gyflwyno'ch sylwadau yn ysgrifenedig gan atodi'r ffurflen ymateb sydd wedi'i atodi i'r ddogfen hon. Dylech anfon eich ymateb at:

Seimon Williams
Rheolwr Prosiect Ad-drefnu Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor

Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu, gallwch ymateb trwy e-bost a'i anfon at: trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw **dydd Gwener 4 Chwefror 2011.** Dylai unrhyw sylwadau, ysgrifenedig neu drwy e-bost, gyrraedd y Cyngor erbyn y dyddiad hwnnw.

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNNIG I GAU YSGOL Y PARC**
**I'W WEITHREDU O 31 AWST 2012**

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL**

Darparwch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda:

1. Enw: ________________________________

2. Cyfeiriad: ____________________________________
____________________________________
____________________________________

3. Rwy'n ymateb fel: (nodwch isod os gwelwch yn dda):

| Rhiant | Llywodraethwr | Staff | Disgybl | Arall (nodwch isod) |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall: ____________________________________________________________

Nodwch isod a ydych yn cytuno i ni gyhoeddi eich ymateb. Atodwch y dudalen hon i flaen eich ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Gyda'ch caniatâd, byddwn yn ail-gynhyrchu ymatebion - wedi tynnu manylion personol fel enwau a chyfeiriadau - mewn adroddiadau i'r Cyngor ar yr ymgynghoriad statudol

Yn ôl gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 mae angen i ni eich hysbysu o'r canlynol. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn i'w bwydo i'w ystyriaethau ar y cynnig hwn. Defnyddir eich gwybodaeth bersonol am y rheswm hwn yn unig, ac efallai y rhennir y wybodaeth gydag asiantaethau sydd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn ymateb i faterion penodol sydd wedi eu codi gennych yn unig. Os nad ydych eisiau i ni ddarparu manylion personol byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau, ond ni fyddwn yn gallu cydnabod eich ymateb.

| Ia, cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb ar ol tynnu gwybodaeth personol | Na, ni ddylai'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb |
|---|---|
| ☐ | ☐ |

**Amserlen**

13 Rhagfyr 2010 — Dosbarthu'r dogfennau ymgynghori

10 Ionawr 2011 — Cyfarfodydd ymgynghori â staff, llywodraethwyr a rhieni

04 Chwefror 2011 — Dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar y cynnig

12 Mai 2011 — Y Cyngor yn penderfynu a ddylid cyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio

Ie

Na — Gwrthod y cynnig

13 Mai 2011 — Cyhoeddi rhybuddion statudol

13 Gorffennaf 2011 — Diwedd y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol

Derbyniwyd gwrthwynebiadau?

Do

Trosglwyddo unrhyw wrthwynebiadau i Lywodraeth y Cynulliad – gallai'r cynnig cael ei gymeradwyo, ei wrthod neu'i newid (disgwylir ymateb erbyn Pasg 2012)

Naddo

Cyfarfod Bwrdd y Cyngor

Cadarnhau'r cynnig?

Ie

Cau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012 a darparu lleoedd yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn o 1 Medi 2012.

Na – Gwrthod y cynnig

# ATODIAD 2

# COFNODION CYFARFODYDD YMGYNGHORIAD STATUDOL

**2.1 Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Beuno Sant**

# CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BEUNO SANT
# 18 Ionawr 2011 17:00-18:10
# CYFARFOD STAFF

11 o staff yn bresennol yn cynnwys y Pennaeth, staff dysgu, staff ategol a chynrychiolydd yr Esgobaeth.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a diolchwyd am y croeso. Cyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

## Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurwyd y cynnig, sef cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn gan gynnwys gwneud defnydd o adeilad presennol Ysgol Beuno Sant. Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion gynnig eu sylwadau gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau at sylw Rheolwr Prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig i blant Dwyfor a Meirionnydd i gymryd lle Ysgol Hafod Lon, . Byddai'r ysgol newydd yn darparu gwasanaeth tebyg i Ysgol Pendalar yn Arfon.

Disgwylir ymateb cychwynnol i'r ceisiadau gan y Llywodraeth ddiwedd Ionawr ond ni fyddai ateb terfynol am rai misoedd. Nodwyd rhoddwyd sylw i'r egwyddor o ddatblygu campws newydd sbon yn nhrafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Y cynnig felly ar gyfer tref y Bala oedd uwchraddio adeiladau'r Berwyn gyda rhai adeiladau newydd a gwaith uwchraddio ar rannau eraill o'r safle.
Cyflwynodd ymgynghorwr (cyn bennaeth ysgol uwchradd yn y Sir), sleidiau ar y gymuned gydol oes gan ganolbwyntio ar ateb tri chwestiwn sef:

- Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes
- Beth ydy manteision y datblygiad,
- Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd fod grŵp defnyddwyr wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1 2) CA2 & CA3 3) CA4 & CA5
Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai

cysyniad cychwynnol oedd y darlun i sbarduno trafodaeth a bod cyfle i gynrychiolwyr. Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'w cynrychiolwyr ar y grŵp defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol. Roedd y cynlluniau cychwynnol yn awgrymu y gellid sefydlu'r elfennau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Cyflwynodd y Rheolwr Personél sleidiau yn ymwneud ag arweiniad a chefnogaeth yr Adran Personél. Eglurodd bod trafodaethau yn digwydd gyda swyddogion undebau athrawon a staff ategol (roedd swyddog UNSAIN yn bresennol yn y cyfarfod). Mae polisi amgen yn derbyn sylw ar hyn o bryd a'r gobaith yw bydd llywodraethwyr ysgolion Gwynedd yn ei dderbyn. Nid oes penderfyniad wedi'u wneud felly ni fyddai'n bosib trafod manylion penodol ond yma i hysbysu staff bod y swyddogion ar gael i gefnogi. Nododd ei bod yn ymwybodol bod unrhyw newid yn creu pryder i'r staff a rhoddwyd dau e-bost cyswllt os fydd y staff eisiau cymorth neu fwy o wybodaeth: sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk a niagruffudd2@gwynedd.gov.uk.

Agorwyd y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle am gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*Gofynnodd y gynulleidfa i bwy yn benodol ddylai gwahanol staff cysylltu?*

Staff ategol i gysylltu â Gwenno Williams a staff dysgu i gysylltu â Sandra Evans a Nia Gruffydd.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa eu bod yn falch o'r syniad gydol oes ond bod angen cadw disgyblion oed CA1 & CA2 ar wahân i'r oedrannau eraill.*

Derbyniwyd y pwynt yma. Eglurwyd y cysyniad o sefydlu strwythur i'r ysgol fyddai'n creu un uned CA2 a CA3 ond y byddai disgyblion CA2 yn cael eu lleoli yn yr adeilad cynradd. Nododd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol fydd angen mewnbwn gan bobl yr ardal yn cynnwys penaethiaid, staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn ystod y proses ffurfiol ar union ddyluniad yr adeilad. Byddai arddangosfa gyda phensaer a chyfle i bawb rhoi eu barn.

*Nododd y pennaeth ei bod wedi cael y cyfle i ymweld ag ysgol yn Sir Benfro ac Ysgol Eifion Wyn ac roedd yn ddefnyddiol iawn i wybod pa agwedda o'r datblygiad oedd yn gweithio a dysgu pa rai doedd ddim.*

Nododd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod y broses tu gefn i'r prosiect datblygu Ysgol Eifion Wyn yn hollol wahanol i'r broses BREEAM fydd yn digwydd wrth ddatblygu'r campws gydol oes. Fydd cyfle i ymweld ag Ysgol newydd Yr Hendre wedi ei orffen.

*Wrth gyfuno athrawon uwchradd ac isradd, sut yn union fydd darpariaeth pwnc yn cael ei gyflwyno?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod cyfle i ddatblygu system newydd ac mai mater i gorff llywodraethol ac arweinyddiaeth yr ysgol newydd fyddai hyn. Gellid, er enghraifft, rhoi cyfrifoldeb am bwnc i'r un pennaeth pwnc ar draws yr oedran cyfan (3-19).

*Gofynnodd y gynulleidfa am y ddarpariaeth meithrin.*

Mi fydd gan yr ysgol y gallu i ddarparu addysg feithrin ar y campws gydol oes ond trafodaeth arall yw pwy sydd yn rhedeg y ddarpariaeth.

Nododd y Pennaeth Addysg bod trafodaethau gyda'r Eglwys wedi bod yn hynod o gadarnhaol a'i fod yn gwerthfawrogi hyn. Nodwyd y byddai trafodaethau yn parhau fel rhan o'r broses o ddatblygu'r campws newydd.

Dychwelyd i'r ddogfen statudol.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

*Pwynt 7.10 (Ysgol Beuno Sant yn ysgol Wirfoddol yr Eglwys) yn bwysig i'r gynulleidfa, gofynnwyd pa sicrwydd oedd o warchod ethos Cristnogol.*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod trafodaethau yn digwydd rhwng yr Eglwys a chynrychiolwyr adran gyfreithiol y Cyngor ynglŷn â materion cyfreithiol. Byddai disgwyl i'r ysgol gynnal yr un agwedd Gristnogol fel sydd yn bodoli ym mhob ysgol yn y Sir.

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Ail nododd y Pennaeth Addysg bod cyfle i gyflwyno sylwadau i reolwr y prosiect ad-drefnu erbyn **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**.

*Gofynnodd aelod o'r cyhoedd beth fyddai'n digwydd heb yr arian?*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg na fyddai modd parhau gyda'r cynnig gan ei bod yn llwyr ddibynnol ar dderbyn arian gan y Llywodraeth. Os na dderbyniwn yr arian fydd y strategaeth yma yn stopio a fydd rhaid ail gychwyn trafodaethau ad-drefnu. Bydd toriadau yn dod ac felly byddai'n rhaid cael newid i'r drefn addysg yn y dalgylch. Fydd gwaith lobio yn cael ei wneud i geisio cael cynnig llwyddiannus. Disgwylir ymateb cychwynnol gan y Llywodraeth mis yma a phenderfyniad terfynol tua'r Haf.

## Diolch a Chloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 18:10.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BEUNO SANT**
**18 Ionawr 2011 18:30-19:05**
**CYFARFOD RHIENI**

10 o staff yn bresennol yn cynnwys y Pennaeth a chynrychiolydd yr Esgobaeth.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a diolchwyd am y croeso. Cyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

## Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurwyd y cynnig, sef cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn gan gynnwys gwneud defnydd o adeilad presennol Ysgol Beuno Sant. Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion gynnig eu sylwadau gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau at sylw Rheolwr Prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig i blant Dwyfor a Meirionnydd i gymryd lle Ysgol Hafod Lon, . Byddai'r ysgol newydd yn darparu gwasanaeth tebyg i Ysgol Pendalar yn Arfon.

Disgwylir ymateb cychwynnol i'r ceisiadau gan y Llywodraeth ddiwedd Ionawr ond ni fyddai ateb terfynol am rai misoedd. Nodwyd rhoddwyd sylw i'r egwyddor o ddatblygu campws newydd sbon yn nhrafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Y cynnig felly ar gyfer tref y Bala oedd uwchraddio adeiladau'r Berwyn gyda rhai adeiladau newydd a gwaith uwchraddio ar rannau eraill o'r safle.
Cyflwynodd ymgynghorwr (cyn bennaeth ysgol uwchradd yn y Sir), sleidiau ar y gymuned gydol oes gan ganolbwyntio ar ateb tri chwestiwn: sef

- Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes
- Beth ydy manteision y datblygiad,
- Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd fod grŵp defnyddwyr wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1 2) CA2 & CA3 3) CA4 & CA5
Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun i sbarduno trafodaeth a bod cyfle i gynrychiolwyr . Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'w cynrychiolwyr ar y grŵp defnyddwyr. Y prif

newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol. Roedd y cynlluniau cychwynnol yn awgrymu y gellid sefydlu'r elfennau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Agorwyd y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle am gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*A fydd yr adran meithrin yn yr adran CA1?*

Bydd ardal ar gyfer cyfnod sylfaen yn benodol oherwydd fydd angen ehangu'r dosbarth i'r awyr agored, fydd yr adran meithrin yn rhan o hwn. Mater i'r campws fydd penderfynu ai'r ysgol neu'r mudiad meithrin fyddai'n rhedeg, y ddarpariaeth.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa ei bod yn fodlon gyda'r lluniau yn y cyflwyniad, rhywbeth gweladwy yn ddefnyddiol iawn.*

Cafodd y pwynt yma ei werthfawrogi a nodwyd bod y Cyngor yn ymwybodol bod angen ymgynghori gyda phobl leol wrth ddylunio. Nododd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol fydd angen mewnbwn gan bobl yr ardal yn cynnwys penaethiaid, staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn ystod y proses ffurfiol. Byddai arddangosfa gyda phensaer a chyfle i bawb rhoi eu barn. Ym mhrosiect yr Hendre mae syniadau rhai disgyblion wedi'u cynnwys yn y dyluniad terfynol.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bod cynnig ysgol newydd gydag adnoddau da yn gwneud lles i ddyfodol y plant.*
*Nododd y pennaeth bod y plant wedi llenwi holiaduron i roi eu barn ar y newidiadau ac roedd yr ymatebion yn ddiddorol iawn. Roedd y rhan fwyaf yn edrych ymlaen ac yn crybwyll byddai adnoddau newydd yn fantais, roedd eu hymatebion i'r cwestiwn "Beth sydd yn gwneud ysgol dda?" yn hyderus a phositif. Roedd y staff yn falch o weld eu bod yn dangos diddordeb.*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod cyfraniad y plant yn cael ei gwerthfawrogi a'i ystyried.

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa os fydd plant sydd yn derbyn help mewn ysgol arall e.e. uned iaith yn mynd i barhau i dderbyn y ddarpariaeth yna.*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod yr uned anghenion arbennig sydd wedi ei leoli yn y Berwyn ar hyn o bryd ddim yn mynd i gael ei golli, ond ei fod yn rhy fuan i wybod yn bendant lle gaiff ei leoli. Ni fydd plant yn colli darpariaethau presennol.
Dychwelyd i'r ddogfen statudol.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Ail nododd y Pennaeth Addysg bod cyfle i gyflwyno sylwadau i reolwr y prosiect ad-drefnu erbyn **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa ei fod yn bwysig i bobl gyflwyno sylwadau i gefnogi'r cais os mai hyn yw eu barn. Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfle i sylwadau yn erbyn y cais yn unig.*

*Gofynnod y gynulleidfa os mai'r bwriad yw cau'r tair ysgol yn 2015. Petai angen 18 nis ar gyfer y gwaith adeiladu, ,pa bryd fyddai'r ysgol yn barod?*

Atebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol mai'r bwriad yw cael y campws gydol oes yn barod cyn cau'r tair ysgol bresennol. Mae pryder rhieni ynglŷn â'r cyfnod adeiladu yn ddealladwy. Fodd bynnag, nid yw hyn yn broblem sydd heb ei wynebu o'r blaen (cyfeiriodd at Ysgol Glan y Môr yn ddiweddar) a gyda chynllunio gofalus, cydweithio a hyblygrwydd roedd yn ffyddiog y gellid cwblhau'r datblygiad gyda chyn lleied o effaith a phosib ar y defnyddwyr.

Nododd y Deilydd Portffolio Addysg na fyddai modd parhau gyda'r cynnig yma oni bai derbynnir arian cyfalaf gan y Llywodraeth. Os na dderbynnir yr arian fyddai'n rhai ail ystyried y strategaeth hon ac ail gychwyn trafodaethau ad-drefnu. Bydd toriadau yn dod felly bydd rhaid cael newid i'r drefn addysg yn y dalgylch. Fydd gwaith lobio yn cael ei wneud i geisio cael cynnig llwyddiannus. Fydd ymateb cychwynnol gan y Cynulliad mis yma a phenderfyniad terfynol cyn yr Haf.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 19:05.

# CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BEUNO SANT
# 18 Ionawr 2011 19:35-21:10
# CYFARFOD LLYWODRAETHWYR

11 o aelodau yn bresennol yn cynnwys y Pennaeth a chynrychiolydd yr Esgobaeth.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a diolchwyd am y croeso. Cyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

*Gofynnodd y pennaeth pryd fydd y cofnodion ar gael?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod y cofnodion mynd i gael ei yrru mor fuan â phosib.
*Nododd un o'r gynulleidfa eu bod wedi derbyn dogfen statudol cynnig i gau Ysgol y Parc yn hytrach na ddogfen statudol cynnig i gau Ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a sefydlu ysgol gymuned 3-19 ar gampws newydd ddysgu gydol oes yn y Bala.*

Rhannwyd copïau ychwanegol o'r ddogfen gan y Pennaeth.

## Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurwyd y cynnig, sef cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn gan gynnwys gwneud defnydd o adeilad presennol Ysgol Beuno Sant. Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion gynnig eu sylwadau gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau at sylw Rheolwr Prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig i blant Dwyfor a Meirionnydd i gymryd lle Ysgol Hafod Lon, . Byddai'r ysgol newydd yn darparu gwasanaeth tebyg i Ysgol Pendalar yn Arfon.

Disgwylir ymateb cychwynnol i'r ceisiadau gan y Llywodraeth ddiwedd Ionawr ond ni fyddai ateb terfynol am rai misoedd. Nodwyd rhoddwyd sylw i'r egwyddor o ddatblygu campws newydd sbon yn nhrafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Y cynnig felly ar gyfer tref y Bala oedd uwchraddio adeiladau'r Berwyn gyda rhai adeiladau newydd a gwaith uwchraddio ar rannau eraill o'r safle.
Cyflwynodd ymgynghorwr (cyn bennaeth ysgol uwchradd yn y Sir), sleidiau ar y gymuned gydol oes gan ganolbwyntio ar ateb tri chwestiwn: sef

- Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes
- Beth ydy manteision y datblygiad,
- Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd fod grŵp defnyddwyr wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1 2) CA2 & CA3 3) CA4 & CA5
Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun i sbarduno trafodaeth a bod cyfle i gynrychiolwyr. Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'w cynrychiolwyr ar y grŵp defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol. Roedd y cynlluniau cychwynnol yn awgrymu y gellid sefydlu'r elfennau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Agorwyd y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle am gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*A fydd llawer o newid i staff? Beth fydd yn digwydd cyn i'r corff cysgodol llywodraethu cael ei sefydlu a phenodi pennaeth?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg y byddai cyfnod o ansicrwydd cyn i'r corff llywodraethu a phennaeth eu penodi ond fydd hawliau'r staff yn cael eu parchu. Gellid symud tuag at benodi corff llywodraethol cysgodol ar ôl i'r penderfyniad terfynol i sefydlu'r ysgol ddigwydd.

*Cwestiynwyd costau cyfalaf y cynllun newydd o ystyried chwyddiant posib dros gyfnod y gwaith adeiladu Gofynnwyd ymhellach beth fyddai yn digwydd os fydd y cais ariannol yn aflwyddiannus?*

Cydnabuwyd y gallai chwyddiant effeithio ar werth yr arian cyfalaf. Nododd y Deilydd Portffolio Addysg bod y cais yn hollol ddibynnol ar sicrhau arian grant gan y Llywodraeth. Ni fyddai modd parhau gyda'r cynnig yma os ni dderbynnir yr arian cyfalaf gan y cynulliad. Heb grant cyfalaf byddai'r strategaeth yn methu a byddai'n rhaid ail gychwyn trafodaethau ad-drefnu. Nodwyd bod toriadau ar eu ffordd ac felly byddai rhaid cael newid i'r drefn addysg yn y dalgylch. Ymrwymwyd i barhau gyda'r gwaith lobio i geisio sicrhau llwyddiant y cynnig. Disgwylir ymateb cychwynnol y Llywodraeth yn y misoedd nesaf gyda phenderfyniad terfynol dros yr Haf. Os ddaw ymateb cadarnhaol bydd gofyn i'r Cyngor lunio cynllun busnes manwl.

*Nododd y pennaeth efallai bydd rhaid i'r Cyngor fod yn fwy radical yn y dalgylch os na lwyddir y cais ariannol. Nid yw rhai yn sylweddoli nag yn gwerthfawrogi bod Cyngor Gwynedd yn ceisio peidio a bod mor llym gallent fod.*

Datganodd y swyddogion bod Cyngor Powys wedi cyhoeddi eu bod yn ystyried dyfodol pob ysgol gyda llai na 30 o blant.

Nododd y Deilydd Portffolio Addysg bod cais ariannol am Ysgol y Groeslon (sef yr ysgol sydd â'r adeilad yn ei chyflwr gwaethaf drwy'r sir) sydd a 90 o blant a gwrthodwyd y cais oherwydd bod diffyg strategaeth oedd yn cynnwys ysgolion cyfagos.

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa pam bod cais ariannol ysgol ardal gynradd newydd yn Tywyn wedi cael £7.4miliwn tra bod campws gydol oes y Bala wedi cael llai i gymharu?*

Digwyddodd cais Tywyn cyn etholiad San Steffan a chyhoeddiad o'r toriadau. Yn y gorffennol roedd cyfle i roi cais ariannol bob blwyddyn ond nawr cyfle bob tair blwyddyn sydd yn bodoli ac roedd rhaid gwneud cais rhesymol oedd yn debygol o lwyddo. Ychwanegodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod y ffigwr £7.4miliwn yn cynnwys uwchraddio tair ysgol wledig yn ogystal â'r ysgol newydd. Mae rhaid prynu'r safle yn Tywyn hefyd a gwneud addasiadau i'r fynedfa.

*Nododd y gynulleidfa agwedd Eglwysig yr ysgol a'r ochr gyfreithiol o ofynion safle Beuno Sant, A oedd y Cyngor angen adeilad Ysgol Beuno Sant i wireddu'r cynllun?*

Mae trafodaethau yn digwydd rhwng cynrychiolwyr yr Eglwys a chynrychiolwyr adran gyfreithiol y Cyngor ynglŷn â materion cyfreithiol. Mater i'r corff llywodraethol yw agwedd Gristnogol yr ysgol ond y disgwyl yw y bydd gan yr ysgol ethos tebyg i'r hyn sydd yn bodoli ym mhob ysgol y Sir. Nododd y Pennaeth Addysg bod cefnogaeth yr Eglwys wedi bod yn hanfodol yn ystod trafodaethau datblygu'r cynnig yma a bod yn briodol i ddiolch iddynt am hyn.

*Gofynnod y gynulleidfa beth fydd yn digwydd i addysg bresennol disgyblion yr uwchradd yn ystod y cyfnod adeiladu? Os fydd y campws gydol oes yn agor yn 2015, pryd fydd y gwaith yn dechrau?*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol drwy nodi y bydd y cyfnod adeiladu yn debygol o fod o gwmpas 18 mis ac na ellir gwadu y bydd yn her ceisio datblygu gyda'r safle yn dal yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn broblem sydd heb ei wynebu o'r blaen (cyfeiriodd at Ysgol Glan y Môr yn ddiweddar) a gyda chynllunio gofalus, cydweithio a hyblygrwydd roedd yn ffyddiog y gellid cwblhau'r datblygiad gyda chyn lleied o effaith a phosib ar y defnyddwyr. Nododd mai'r bwriad yw cael y campws gydol oes yn barod cyn cau'r tair ysgol bresennol.

Nododd y Pennaeth Addysg os fydd cadarnhad o dderbyn yr arian ond oediad y byddai gan y Cyngor yr opsiwn o gychwyn y cynllun yn gynt trwy ddefnyddio arian cyfatebol y Cyngor (30% o gostau cyfan y prosiect).

*A fyddai swyddi yn yr ysgol newydd yn gwbwl agored? A fydd swydd i bennaeth CA2 & CA3 yn swydd i athro cynradd neu uwchradd? Fydd rhaid i'r pennaeth ddod o gefndir addysgol?*

Bydd y Cyngor yn argymell y dylai staff y tair ysgol cael y cyfle cyntaf. Disgwylir i bennaeth y Campws Gydol Oes fod yn addysgwr. Pennaeth Byddai grŵp rheoli yn rhedeg y rhannau eraill gyda chyswllt agos i'r pennaeth. Byddai swydd CA2 & CA3 yn agored i staff y tair ysgol a'r unigolyn gorau i arwain y cyfnod yma fydd yn cael ei benodi. Yr un egwyddor fydd gyda phennaeth CA4 & CA5.

*Mae'r ddogfen yn nodi "Ysgol Gydol Oes" a'r cyflwyniad yn nodi "Campws Dysgu", prun sydd yn gywir?*

Bydd y campws i'r gymuned gyfan ag o fewn iddo fydd ysgol.

Dychwelyd i'r ddogfen statudol a nododd y Pennaeth Addysg i'r gynulleidfa gofyn cwestiwn wrth fynd trwy'r adrannau.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

*Ynglŷn â chyflwr yr adeiladau, ydy'r arian angen ei wario i uwchraddio'r adeiladau yn cael ei gynnwys yn y £10miliwn? Yn y cyfamser oes newid mewn cyfrifoldeb i gynnal a chadw'r adeiladau?*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod y ffigyrau yng Nghynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn dynodi'r gwariant fyddai angen petai'r campws gydol oes ddim yn cael ei wneud.

*A fyddai 'portakabins' yn cael eu defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu? Fydd y cae chwarae yn cael ei golli yn ystod y gwaith?*

Ni chafodd ei ddefnyddio wrth uwchraddio Glan Y Môr. Ni fydd y cae'n cael ei golli, fydd rhaid i ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon cael ei gadw ond mae'n bosib na fyddai'r cae cyfan ar gael i ddisgyblion yn ystod y cyfnod adeiladu.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Ail nododd y Pennaeth Addysg bod cyfle i gyflwyno sylwadau i reolwr y prosiect ad-drefnu erbyn **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 21:10.

### 2.2 Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Bro Tegid

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRO TEGID**
**19 Ionawr 2011**
**CYFARFOD STAFF**

16 o staff yn bresennol ac un cynrychiolydd undebol

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y  cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

**Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?**

Eglurwyd fod y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Ysgol Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.

Nodwyd fod y broses wedi cyrraedd y cyfnod ymgynghoriad statudol ble mae cyfle i bawb gyflwyno eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron sydd eisoes wedi'u gyrru at bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurwyd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

**Cyflwyniad**

Cyflwynwyd y weledigaeth addysgol ar gyfer y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Nodwyd fod y gyfundrefn addysg yn newid yn barhaus o ran yr elfen addysgol, a hefyd fod disgwyliadau o ran yr amgylchedd ddysgu ac i ddatblygu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nodwyd hefyd bwysigrwydd y datblygiad yma ar gyfer y dalgylch gyfan yn y Berwyn a bod angen edrych arno tu hwnt i ffiniau'r dref ei hunan.

Eglurwyd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon.

Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd ystyriaeth i gael campws newydd sbon, ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol fyddai yn debygol o lwyddo.

Cyflwynwyd sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn:
A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes,
B) Beth ydy manteision y datblygiad,
C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd manteisiol addysgol sefydlu'r ysgol gydol oes:

- Lliniaru problemau wrth drosglwyddo cyfnodau dysgu
- Cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r teulu
- Sicrhau cysondeb ethos a disgwyliadau
- Cyd-gynllunio ystyrlon rhwng y cyfnodau dysgu
- Rhannu arbenigeddau staff e.e. rhannu dulliau dysgu ac arbenigeddau pynciol.

Cyfeiriwyd at y Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw i ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1
2) CA2 & CA3
3) CA4 & CA5

Amlinellwyd y darpariaeth fydd ar gyfer y gymuned ystyrir eu cyplysu ar y campws:
- Neuadd aml-bwrpas
- Gwaith gyda plant a'u teuluoedd
- Ystafelloedd cymunedol
- Bloc technoleg

Nodwyd y camau a gymerwyd hyd yma o ran trafodaethau yn y Bala
- Sefydlu Grwp Defnyddwyr - cynrychiolaeth leol o'r byd Addysg yn lleol mae'r syniad o arloesi un ysgol wedi dod o'r ardal
- Trefn rheoli - Grwp Rheoli yn cynrychioli defnyddwyr bydd rheolaeth dydd i ddydd yn lleol ond fewn Gwasanaethau presennol y Cyngor

Cyflwynwyd amcanion eiddo'r prosiect.
- Cynllunio adeilad addas a diogel i bob oedran e.e. ystyried amrediad oedran a mynediad y cyhoedd
- Eglurwyd fod gan y Grwp Defnyddwyr rol hanfodol wrth ddatblygu'r safle
- Eglurwyd y syniad o'r dyluniad ar gyfer y safle i gyplysu'r elfennau cymdeithasol, y neuadd, Llyfrgell a.y.b
- Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer dyluniad posib i wireddu'r cysyniad.

Dangoswyd cysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun. Eglurwyd y bydd cyfle i rannu syniadau i'r Grŵp Defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg presennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a tîm o amgylch y plant). Dangoswyd rhai lluniau o enghreifftiau o elfennau mewn ysgol 21C o fannau eraill.

Cyflwynwyd gwybodaeth am yr arweiniad a chefnogaeth fydd ar gael gan y Gwasanaeth Personél. Eglurwyd bod trafodaethau yn digwydd gyda swyddogion undebau athrawon a staff ategol (swyddog UNSAIN yn bresennol). Mae polisi amgen yn derbyn sylw ar hyn o bryd a'r gobaith yw bydd llywodraethwyr ysgolion Gwynedd yn ei dderbyn. Nid oes penderfyniad wedi'u wneud felly ni fyddai'n bosib trafod manylion penodol ond yma i hysbysu staff bod y swyddogion ar gael i gefnogi. Nododd ei bod yn ymwybodol bod unrhyw newid yn creu pryder i'r staff a rhoddwyd dau e-bost gyswllt os fydd y staff eisiau cymorth neu fwy o wybodaeth: sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk <mailto:sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk> & niagruffudd2@gwynedd.gov.uk <mailto:niagruffudd2@gwynedd.gov.uk>.

Rhoddwyd cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb.

**Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa**

*A'i un gegin fydd ar y safle?*

Un cegin fydd ar y safle. Mae datblygu'r campws yn gyfle i ailedrych ar ddarpariaeth a chyfleusterau presennol.

*A fydd cyfle i wasanaethu'r gymuned o'r gegin?*

Nodwyd fod hwn yn awgrym diddorol iawn a phosibilrwydd o ddatblygu'r fath ddarpariaeth. Nodwyd byddai modd cyfeirio'r awgrym yma i'r Grwp Defnyddwyr i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried.

*A fydd diswyddiadau?*

Mae yn bosibilrwydd, ond mae union strwythur staffio i'w ddatblygu, wedi dweud hynny gall fod cyfleon i edrych ar y strwythur staffio. Mater i lywodraethwyr yr ysgol fydd hynny yn y pen draw.

*Mae hyn felly yn dod ag adnodd a staff neuadd Buddug i'r pictiwr?*

Ydi, ac mae rhoi darpariaeth neuadd Buddug yn rhan o'r datblygiad arfaethedig wedi ei ystyried. Bydd Grwp Rheoli yn cael ei sefydlu yn cymryd trosolwg yn lleol o'r campws gydol oes i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau yn yr ardal gyfan.

*Be am ddefnydd cymunedol o'r adnoddau yn ystod oriau ysgol a fydd hyn yn bosib?*

Mae defnydd o'r llyfrgell sydd ar yr un safle ag Ysgol y Berwyn yn bresennol. Bydd rhaid ystyried y defnydd amrywiol hwn wrth ddatblygu'r dyluniad. Mae yn gyfrifoldeb sicrhau diogelwch pawb fydd ar y safle a sicrhau defnydd effeithiol ohoni.

*Cyfeiriwyd bydd y datblygiad hwn yn lleddfu rhai problemau sydd yn digwydd yn y cyfnod pontio rhwng cyfnodau allweddol, y cyfnod trawsffurfiannol presennol rhwng y Cynradd a'r Uwchradd. Sut mae hynny yn mynd i weithio gyda'r ysgolion gwledig fydd ddim yn rhan o'r ysgol gydol oes?*

Yn unol efo'r dyhead yn y trafodaethau lleol - bydd y campws er budd y dalgylch cyfan. Bydd rhaid datblygu ethos hyblyg ble mae ysgolion y dalgylch cyfan yn rhan y cynlluniau addysgol, ond hefyd bydd

ymwneud pob dydd yn digwydd. Bydd angen cyfle i'r ysgolion gwledig feithrin y cydweithio, ac felly ni fydd y cyfnod pontio na'r cyswllt ymarferol rhwng y cyfnodau dysgu

*A fydd cost offer newydd wedi ei gynnwys yn y datblygiad?*

Bydd adnoddau angenrheidiol newydd yn cael eu cyplysu o fewn cost y datblygiad

*Faint o ddosbarthiadau fydd o fewn y cyfnodau dysgu?*

Bydd maint y dosbarthiadau yn ymateb i'r nifer y cyfanswm disgyblion

*A fydd campfa i'r oed cynradd?*

Mae'n cael i ystyried ar hyn o bryd, ond ddim wedi ei fanylu eto. Bydd modd gwneud gwahanol ddefnydd o'r neuadd yn ogystal.

*A fydd 2 neuadd?*

Mae hynny'n cael ei ystyried ond bydd yr offer yn aml-bwrpas

*Mae ystafelloedd gwag yn bwysig, yn enwedig i sicrhau yr elfen fugeiliol yn yr ysgol.*

Mae'r math hyn o ddarpariaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r elfen gymunedol. Yn ogystal, mae cais am stafell athrawon a stafell paratoi arwahan.

*Nodwyd ei bod yn bwysig fod cyfleusterau chwarae addas i'r oedran*

**Cyflwynwyd gweddill o'r ddogfen statudol:**

Cyflwynwyd gweddill y ddogfen statudol fesul rhan gan wahodd sylwadau/cwestiynau.

**Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad**

Amlygwyd fod opsiynau wedi eu hystyried a'u pwyso a mesur yn dod at yr argymhelliad.
Nodwyd y cywiriad yn y ddogfen statudol. Cywirwyd mai mudiad meithrin sy'n darparu addysg feithrin yn y dref nid grwp meithrin.
Eglurwyd ymhellach mai mater i'r llywodraethwyr fydd pwy fydd yn darparu addysg feithrin yn y dref, ond bydd darpariaeth ar gyfer addysg feithrin yn yr adeilad.

**Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Ystyried Y Dewisiadau**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Anfanteision y Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.
*Be ddigwydd os na ddaw yr arian?*

Byddai rhaid ystyried camau pellach os daw newyddion negyddol, mae llawer o waith i sicrhau ei fod yn llwyddiant.

**Diolch a Cloi**

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRO TEGID**
**19 Ionawr 2011**
**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR**

7 o lywodraethwyr yn bresennol

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

**Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?**

Eglurwyd fod y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Ysgol Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.

Eglurwyd fod y broses wedi cyrraedd y cyfnod ymgynghoriad statudol ble mae cyfle i bawb gyflwyno eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron sydd eisoes wedi'u gyrru at bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurwyd fod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghoriad statudol.

**Cyflwyniad**

Cyflwynwyd y weledigaeth addysgol ar gyfer y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Nodwyd fod y gyfundrefn addysg yn newid yn barhaus o ran yr elfen addysgol, a hefyd fod disgwyliadau o ran yr amgylchedd ddysgu ac i ddatblygu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nodwyd hefyd bwysigrwydd y datblygiad yma ar gyfer y dalgylch gyfan yn y Berwyn a bod angen edrych arno tu hwnt i ffiniau'r dref ei hunan.

Eglurwyd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yn Arfon

Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd ystyriaeth i gael campws newydd sbon, ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol a realistig fyddai yn debygol o lwyddo.

Cyflwynwyd sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn:
A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes,
B) Beth ydy manteision y datblygiad,
C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd manteisiol addysgol sefydlu'r ysgol gydol oes:

- Lliniaru problemau wrth drosglwyddo cyfnodau dysgu
- Cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r teulu
- Sicrhau cysondeb ethos a disgwyliadau
- Cyd-gynllunio ystyrlon rhwng y cyfnodau dysgu
- Rhannu arbenigeddau staff e.e. rhannu dulliau dysgu ac arbenigeddau pynciol.

Cyfeiriwyd at y Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw i ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos.

Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1
2) CA2 & CA3
3) CA4 & CA5

Amlinellwyd y darpariaeth fydd ar gyfer y gymuned ystyrir eu cyplysu ar y campws:
- Neuadd aml-bwrpas
- Gwaith gyda plant a'u teuluoedd
- Ystafelloedd cymunedol
- Bloc technoleg

Nodwyd y camau a gymerwyd hyd yma o ran trafodaethau yn y Bala
- Sefydlu Grwp Defnyddwyr - cynrychiolaeth leol o'r byd Addysg yn lleol mae'r syniad o arloesi un ysgol wedi dod o'r ardal
- Trefn rheoli - Grwp Rheoli yn cynrychioli defnyddwyr bydd rheolaeth dydd i ddydd yn lleol ond fewn Gwasanaethau presennol y Cyngor

Cyflwynwyd amcanion eiddo'r prosiect.
- Cynllunio adeilad addas a diogel i bob oedran e.e. ystyried amrediad oedran a mynediad y cyhoedd
- Eglurwyd fod gan y Grwp Defnyddwyr rol hanfodol wrth ddatblygu'r safle
- Eglurwyd y syniad o'r dyluniad ar gyfer y safle i gyplysu'r elfennau cymdeithasol, y neuadd, Llyfrgell a.y.b
- Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer dyluniad posib i wireddu'r cysyniad.

Dangoswyd cysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun. Eglurwyd y bydd cyfle i rannu syniadau i'r Grŵp Defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg presennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a tîm o amgylch y plant). Dangoswyd rhai lluniau o enghreifftiau o elfennau mewn ysgol 21C o fannau eraill

Rhoddwyd cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb.

**Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa**

*Ynglŷn â'r neuadd, ac a fydd cyllid Neuadd Buddug yn dod i'r ysgol?*

Eglurwyd y bydd Grŵp Rheoli lleol yn cymryd trosolwg o ddarpariaeth gwasanaeth dydd i ddydd ond y byddai rheolaeth o fewn Gwasanaeth perthnasol yn y Cyngor. Felly, ni fydd y gyllideb benodol yn trosglwyddo i'r ysgol, ond tydi hynny ddim yn golygu na all y sefyllfa newid os fyddai'r Grwp Rheoli lleol yn dymuno hynny i'r dyfodol.

Bydd cyllid cyflogau a.y.b. yn trosglwyddo, gydag arbediad bychan oherwydd na fydd angen cynnal 2 adeilad

*Be fydd yn digwydd i Neuadd Buddug?*

Mae'r adeilad ym mherchnogaeth y Cyngor, ac felly bydd yr adeilad yn cael ei ddelio ag o yn y modd arferol o ddelio ag asedau. Mae gan y Cyngor bolisi o gynnig cyfle i'r gymuned greu achos busnes cyn gwaredu'r adeilad fel ased cyn ei roi ar y farchnad agored.

*Nodwyd pryder ynglŷn â gwahanol agweddau yn ymwneud â phroblemau parcio ar y safle.*

Eglurwyd fod astudiaeth o'r traffig presennol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac i'w ystyried yn y dyluniad.

*A fydd lle bwyd arwahan i blant cynradd ?*

Bydd – ystyrir ar hyn o bryd fod angen cael darpariaeth felly yn y dyluniad newydd. Nodi bydd cyfle i lywodraethwyr gael mewnbwn pellach yn y dyluniad

*A fydd yr ysgol yn cychwyn efo lechen lan yn ariannol?*

Yn gyfreithiol bydd yn ysgol newydd a sefydlir.

*A fydd incwm y sinema i'r ysgol?*

Byddai hynny fyny i'r drefn rheoli yn lleol drwy'r Grŵp Rheoli, ond fel eglurwyd ynghynt, bydd y gwasanaethau yn cael eu Rheoli o fewn gwasanaethau presennol y Cyngor i gychwyn.

*A fydd lle i adnodd yr heddlu yn y gymuned?*

Mae cyfle i'r heddlu fod yn rhan o'r datblygiad ac yn wir i wasanaethau cyhoeddus eraill yn ogystal i ddangos diddordeb.

*Be os na fydd chweched dosbarth i'r dyfodol?*

Bydd oedran yr ysgol yn newid os dei'r sefyllfa hynny. Bydd yr ysgol bresennol yn cael ei chynllunio ar gyfer y chweched, ond rydym yn ar ddeall gall fod posibilrwydd o newid i'r dyfodol.

*A fydd effaith yn ystod y cyfnod adeiladu?*

Bydd adeilad newydd o ran elfen gynradd, felly, ni fydd effaith sylweddol, ond mae profiad yn dangos fod modd gwneud gwaith datblygol ar safleoedd ysgolion. Cyfeiriwyd at ddatblygiad mewn ysgol arall ble bu gwaith adeiladu - ble na effeithiwyd yn ormodol ar yr addysg.

Bydd gwaith datblygu cam wrth gam

**Cyflwynwyd gweddill o'r ddogfen statudol:**

Cyflwynwyd gweddill y ddogfen statudol fesul rhan gan wahodd sylwadau/ cwestiynau.

**Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad**

Amlygwyd fod opsiynau wedi eu hystyried a'u pwyso a mesur yn dod at yr argymhelliad.
Nodwyd y cywiriad yn y ddogfen statudol. Cywirwyd mai mudiad meithrin sy'n darparu addysg feithrin yn y dref nid grŵp meithrin.

**Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Ystyried Y Dewisiadau**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Anfanteision y Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

**Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?**

Dim cwestiwn i adran yma'r ddogfen statudol.

*A fydd y ganolfan hamdden bresennol yn symud?*

Mae canolfan hamdden yn y dref yn bresennol, roedd syniad cychwynnol o gael pob gwasanaeth ar un safle, yn cynnwys y ganolfan hamdden. Nid yw hyn yn bosib, ond gellid cael patrwm cydweithio lleol trwy'r Grŵp Rheoli.

**Diolch a Cloi**

Diolchwyd i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu cyfraniadau.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRO TEGID**
**19 Ionawr 2011**
**CYFARFOD RHIENI**

9 rhiant yn bresennol

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

**Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?**

Eglurwyd fod y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Ysgol Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.
Eglurwyd fod y broses wedi cyrraedd y cyfnod ymgynghoriad statudol ble mae cyfle i bawb gyflwyno eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron sydd eisoes wedi'u gyrru at bennaeth yr ysgol.

Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurwyd fod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghoriad statudol.

**Cyflwyniad**

Cyflwynwyd y weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Nodwyd fod y gyfundrefn addysg yn newid yn barhaus o ran yr elfen addysgol, a hefyd fod disgwyliadau o ran yr amgylchedd ddysgu ac i ddatblygu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nodwyd hefyd bwysigrwydd y datblygiad yma ar gyfer y dalgylch gyfan yn y Berwyn a bod angen edrych arno tu hwnt i ffiniau'r dref ei hunan.

Eglurwyd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yn Arfon ac yn cael ei sefydlu yn ardal Penrhyndeudraeth/Porthmadog.

Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd ystyriaeth i gael campws newydd sbon, ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol fyddai yn debygol o lwyddo.

Cyflwynwyd sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn:
A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes,
B) Beth ydy manteision y datblygiad,
C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala?

Nodwyd manteisiol addysgol sefydlu'r ysgol gydol oes:

- Lliniaru problemau wrth drosglwyddo cyfnodau dysgu
- Cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r teulu
- Sicrhau cysondeb ethos a disgwyliadau
- Cyd-gynllunio ystyrlon rhwng y cyfnodau dysgu
- Rhannu arbenigeddau staff e.e. rhannu dulliau dysgu ac arbenigeddau pynciol.

Cyfeirwyd at y Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw i ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1
2) CA2 & CA3
3) CA4 & CA5

Amlinellwyd y darpariaeth fydd ar gyfer y gymuned ystyrir eu cyplysu ar y campws:
- Neuadd aml-bwrpas
- Gwaith gyda plant a'u teuluoedd
- Ystafelloedd cymunedol
- Bloc technoleg

Nodwyd y camau a gymerwyd hyd yma o ran trafodaethau yn y Bala

- Sefydlu Grwp Defnyddwyr - cynrychiolaeth leol o'r byd Addysg yn lleol mae'r syniad o arloesi un ysgol wedi dod o'r ardal
- Trefn rheoli - Grwp Rheoli yn cynrychioli defnyddwyr bydd rheolaeth dydd i ddydd yn lleol ond fewn Gwasanaethau presennol y Cyngor

Cyflwynwyd amcanion eiddo'r prosiect.

- Cynllunio adeilad addas a diogel i bob oedran e.e. ystyried amrediad oedran a mynediad y cyhoedd
- Eglurwyd fod gan y Grwp Defnyddwyr rol hanfodol wrth ddatblygu'r safle
- Eglurwyd y syniad o'r dyluniad ar gyfer y safle i gyplysu'r elfennau cymdeithasol, y neuadd, Llyfrgell a.y.b
- Cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer dyluniad posib i wireddu'r cysyniad.

Dangoswyd cysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun. Eglurwyd y bydd cyfle i rannu syniadau i'r Grŵp Defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg presennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a tîm o amgylch y plant). Dangoswyd rhai lluniau o enghreifftiau o elfennau mewn ysgol 21C o fannau eraill

Rhoddwyd cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb.

**Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa**

*Faint o ddatblygu fydd ar adeilad presennol y Berwyn?*

Mae'n ddibynnol ar union gost yr elfennau datblygol a'r gyllideb fydd ar gael yn y pendraw. Roedd y dymuniad cael adeiladau newydd o'r cychwyn - ond mae'r amgylchedd cyllidol wedi newid, ac roedd angen cyflwyno cais realistig - i sicrhau cais llwyddiannus.
Mae ceisiadau o siroedd eraill - ceisiadau am arian sylweddol wedi methu yn y gorffennol, roeddem eisiau i'r cais hwn fod yn llwyddiannus, felly rhaid oedd gwneud cais realistig.

*Be fydd yn digwydd i adeiladau ddaw yn wag?*

Yn unol â pholisi'r Cyngor i ymdrin ag asedau, bydd cyfle i'r gymuned ddatblygu achos busnes ar gyfer defnydd o'r adeilad. Bydd hyn yn ddibynnol o ddymuniad y gymuned, fel arall aiff ar y farchnad agored.. Byddai swyddogion ar gael i roi cymorth i ddatblygu achos busnes os oes dymuniad.

*Nodir rhyddhad fod y datblygiad yma yn ymateb i sefyllfa fregus Neuadd Buddug.*

*Be sy'n digwydd i'r elfen chwaraeon?*

Mae canolfan hamdden yn y dref yn bresennol, roedd syniad cychwynnol o gael pob gwasanaeth ar un safle, yn cynnwys y ganolfan hamdden. Nid yw hyn yn bosib, ond gellid cael patrwm cydweithio lleol trwy'r Grŵp Rheoli.

*Cyflwynwyd sylwadau a nodwyd pryder am yr adnodd hamdden fel y mae yn bresennol, ac mae diffyg o ran cyfleusterau allanol*

Nodwyd na drafodwyd hyn mewn dyfnder yn y Grwp Defnyddwyr hyd yma, ond mae angen sicrhau mewnbwn ar yr elfen hamdden/ chwaraeon. Nodwyd fod gwahoddiad i unigolion sydd am roi mewnbwn i'r Grwp Defnyddwyr ar hyn.

*Nodwyd pryder fod problemau ymarferol o wneud defnydd o'r ganolfan oherwydd ei lleoliad h.y. amser trafeilio, asesiadau risg ayb.*

Cytunwyd ei bod her o ran sicrhau defnydd effeithiol o’r adnoddau fydd yn lleol. Wrth ddatblygu bydd cyfle i gael trafodaeth bellach, a lle i blant rhoi mewnbwn.

*Sut byddwch yn cael mewnbwn plant i’r datblygiad yma?*

Bydd sesiynau yn cael eu cynnal gyda’r disgyblion i gael eu syniadau. Mae’r Cyngor eisoes wedi gwneud hyn gyda datblygiadau eraill yn y Sir, ac wedi cael bûdd o hynny.

*A ydych wedi ystyried be sy’n digwydd mewn siroedd eraill cyfagos o ran bygythiad o ysgolion yn cau ayb?*

Ydym, a bydd rhaid trafod ymhellach â rhieni a phlant sy’n dod o siroedd eraill wrth i’r drafodaeth hon fynd yn ei blaen.

*O ystyried y cyfnod trosglwyddo onid yw sefyllfa’r trosglwyddo plant o ysgolion gwledig wrth ddod i’r elfen uwchradd yn mynd i fod yn anoddach o ystyried bydd nifer fawr o blant cynradd eisoes yn rhan o’r ysgol gydol oes?*

Yr elfen mwyaf datblygol yma fydd yr elfen o gydweithio yn yr holl ardal i gyd a thu-hwnt, Yn unol efo’r dyhead yn y trafodaethau lleol – bydd y campws er bûdd y dalgylch cyfan.
Bydd rhaid datblygu ethos hyblyg ble mae ysgolion y dalgylch cyfan yn rhan o gynlluniau addysgol, ond hefyd bydd ymwneud pob dydd yn digwydd. Bydd angen cyfle i’r ysgolion gwledig feithrin y cydweithio, ac felly ni fydd y cyfnod pontio na’r cyswllt ymarferol rhwng y cyfnodau dysgu. Bydd cyfle a photensial cael addysgu thematig a.y.b.
Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn mewn ardaloedd eraill - yr ateb a gafwyd oedd nad yw’n broblem

*Be fydd yn digwydd os na ddaw yr arian?*

Eglurwyd fod cais realistig wedi cyflwyno, os na fydd yn llwyddiannus yna rhaid ail-ystyried y cynllun eto. Nodwyd fod Cyngor arall bellach yn edrych ar osod isafswm ar gyfer ysgol a nodwyd fod y Cynulliad yn ymgynghori ar y syniad hwn ar hyn o bryd. Eglurwyd hefyd fod trefn ariannu bellach gan y Cynulliad fesul 3 blynedd. O ystod hyn felly gellid edrych fod y cyfle i’r ardal hon yn gyfle na chaiff ardaloedd eraill.

*Fel pwynt cyffredinol nodwyd mai hyn yn fodd o ddiogelu addysg uwchradd a bod y datblygiad i’w groesawu ac
angen i’r ardal wneud yn fawr ohono. Nodwyd fod pryder faint o waith a gwelliant caiff ei wneud yn y Berwyn.*

*Ble aiff arian o werthu’r adeiladau ddaw yn wag?*

Bydd yn cael ei ymdrin fel ased i’r Sir.

*Holwyd sut mae sicrhau yr adnoddau hamdden/chwaraeon?*

Awgrymwyd sefydlu is-grŵp i edrych ar yr elfen yma yn rhan o’r Grŵp Defnyddwyr

*Mae pryder am ddiffyg adnodd hamdden bresennol.*

Byddai lle felly drwy'r Grŵp Rheoli i gael gwelliant.

*Ynglŷn â’r defnydd cymunedol - a fydd defnydd cyfyngedig o ran amser?*

Bydd rhaid cynllunio i sicrhau'r defnydd gorau o’r adnoddau fydd ar gael, ond hefyd sicrhau diogelwch fel blaenoriaeth. Bydd rheolaeth leol ar yr adnoddau drwy’r Grwp Rheoli lleol, a chyfle i gael defnydd lleol

*O ran staffio – a fydd rhaniad ar draws cyfnodau dysgu?*

Bydd cyfle i rannu dulliau dysgu, a hefyd arbenigeddau pynciol. Bydd rhai athrawon yn cael mwy o fudd o hyn nac eraill.

*Rhaid sicrhau fod digon o le allan i’r cyfnodau dysgu cynradd.*

Bydd hyn i’w ystyried ymhellach wrth ddylunio’r ysgol

*Be os fydd tueddiadau a niferoedd yn cynyddu?*

Bydd modd dylunio’r ysgol fel bod modd datblygu i’r dyfodol pe bai angen

*Os na ddaw’r arian yma, a fydd hyn yn digwydd? A fydd buddsoddiad yn y Berwyn fel arall?*

Os na ddaw yr arian byddai rhaid ail ystyried y cynllun ar gyfer y dalgylch. Yr unig arian fydd ar gael i’w fuddsoddi fyddai’r hyn sydd ar gael yn unol â rhaglen fuddsoddi’r Sir i gynnal a chadw adeiladau.

**Cyflwynwyd gweddill o’r ddogfen statudol:**

Cyflwynwyd gweddill y ddogfen statudol fesul rhan gan wahodd sylwadau/ cwestiynau.

**Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad**

Amlygwyd fod opsiynau wedi eu hystyried a’u pwyso a mesur yn dod at yr argymhelliad.
Nodwyd y cywiriad yn y ddogfen statudol. Cywirwyd mai mudiad meithrin sy’n darparu addysg feithrin yn y dref nid grŵp meithrin.

**Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant**

Dim cwestiwn i adran yma’r ddogfen statudol.

**Ystyried Y Dewisiadau**

Dim cwestiwn i adran yma’r ddogfen statudol.

**Ffactorau’n Cefnogi’r Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma’r ddogfen statudol.

**Anfanteision y Dewis a Ffafrir**

Dim cwestiwn i adran yma’r ddogfen statudol.

**Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?**

Dim cwestiwn i adran yma’r ddogfen statudol.

**Diolch a Chloi**

Diolchwyd i’r rhieni am fynychu ac am eu cyfraniadau.

**2.3 Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Y Berwyn**

# CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y BERWYN
# 13 Ionawr 2011 16:00-17:35
# CYFARFOD STAFF

41 o staff yn bresennol yn cynnwys y Pennaeth a staff dysgu a staff ategol.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

## Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurodd y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.
Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodir y papur ymgynghori statudol.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yn Arfon ac yn cael ei sefydlu yn ardal Penrhyndeudraeth/Porthmadog.

Bydd ymateb cychwynnol diwedd Ionawr a rhai misoedd cyn penderfyniad pendant. Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd campws newydd sbon dan sylw ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Uwchraddio adeiladau Y Berwyn gyda rhai adeiladau newydd yw'r cynllun cychwynnol nawr.

Cyflwynodd ymgynghorwr, cyn bennaeth uwchradd yn y Sir, sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn: A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes, B) Beth ydy manteision y datblygiad, C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala? Crybwyllwyd y grŵp defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:

1) CA1 2) CA2 & CA3 3) CA4 & CA5

Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun ac efallai bydd rhai o'r gynulleidfa yn anghytuno gyda rhai syniadau. Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'r grŵp defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad

newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Cyflwynodd y Rheolwr Personél sleidiau yn ymwneud ag arweiniad a chefnogaeth yr Adran Personél. Eglurodd bod trafodaethau yn digwydd gyda swyddogion undebau athrawon a staff ategol (swyddog UNSAIN yn bresennol). Mae polisi amgen yn derbyn sylw ar hyn o bryd a'r gobaith yw bydd llywodraethwyr ysgolion Gwynedd yn ei dderbyn. Nid oes penderfyniad wedi'u wneud felly ni fyddai'n bosib trafod manylion penodol ond yma i hysbysu staff bod y swyddogion ar gael i gefnogi. Nododd ei bod yn ymwybodol bod unrhyw newid yn creu pryder i'r staff a rhoddwyd dau e-bost gyswllt os fydd y staff eisiau cymorth neu fwy o wybodaeth: sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk & niagruffudd2@gwynedd.gov.uk.
Oedodd y Pennaeth Addysg ac eglurodd y byddai'n rhaid dychwelyd i'r ddogfen statudol yn ystod y cyfarfod ond roedd eisiau rhoi cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*Beth fyddai'n digwydd i'r ysgol yn ystod y cyfnod adeiladu?*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol drwy nodi y bydd y cyfnod adeiladu yn debygol o fod o gwmpas 18 mis ac na ellir gwadu y bydd yn her ceisio datblygu gyda'r safle yn dal yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn broblem sydd heb ei wynebu o'r blaen (cyfeiriodd at Ysgol Glan y Môr yn ddiweddar) a gyda chynllunio gofalus, cydweithio a hyblygrwydd roedd yn ffyddiog y gellid cwblhau'r datblygiad gyda chyn lleied o effaith a phosib ar y defnyddwyr.

*Nododd cynrychiolydd yr undebau bod ganddo bryderon yn codi yn achos Y Berwyn yn benodol. I gymharu gyda Glan Y Môr fydd llai o le yn Y Berwyn oherwydd bod Glan Y Môr gyda lle i ddysgu CA5 ond ddim yn, felly oedd mwy o lefydd gweigion i helpu gyda'r cydweithio.*

*Cododd un aelod o'r gynulleidfa bryder ynglŷn â defnydd o'r 'dalgylch' oherwydd bod dalgylch hanesyddol Y Berwyn yn cynnwys ysgolion cynradd tu allan i Wynedd. Mae 30% o blant Y Berwyn yn dod o ysgolion cynradd all-ddalgylch. Poenir am y plant all-ddalgylch yn ystod y cyfnod adeiladu gan fod dewis arall am ysgol uwchradd. Pryderir hefyd am y toriadau sydd i ddod yn y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod y ddau beth ynghlwm a dylid gwarchod y staff neu ni fydd yr arbenigedd ar gael yn yr ysgol gydol oes. Dim sôn am CA5 yn y cynlluniau - poeni am ddyfodol CA5.*

Bydd y campws gydol oes yn cynnwys darpariaeth CA5 ond fydd dyfodol y ddarpariaeth yn drafodaeth arall. Deall y dadleuon am gyfuno toriadau'R Berwyn gyda sefydlu'r campws gydol oes ond bydd rhaid eu trin fel materion ar wahân. Ysgol Y Berwyn yw un o nifer sydd yn wynebu toriadau yn y Sir.

*Dyluniadau – maes parcio ar draws y cae chwarae?*

Cysyniad cychwynnol yw'r dyluniad a bydd newidiadau ac ychwanegiadau yn cael eu gwneud. Gwerthfawrogwn fewnbwn staff trwy'r grŵp defnyddwyr.

*Nododd y pennaeth ei bod yn bwysig i athrawon roi mewnbwn uniongyrchol ar ran eu hadrannau.*
*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau gais ariannol oherwydd gafodd cais y campws gydol oes ei alw'n **Sirol** ond y cais am ysgol anghenion arbennig yn **rhanbarthol**. Beth yw'r gwahaniaeth?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg mai'r unig wahaniaeth yw bod Cyngor Môn a Chyngor Conwy wedi derbyn arian eisoes gan y Cynulliad ar gyfer ysgol anghenion arbennig newydd felly os byddai cais Gwynedd yn llwyddiannus bydd y rhanbarth cyfan wedi derbyn arian ar gyfer ysgolion anghenion arbennig newydd. Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Addysg bod lobio'n digwydd ar ran y ddau gais, ond bydd rhaid cofio bod siroedd Cymru gyfan wedi cael cyfle i gyflwyno ceisiadau.

*Gofynnodd y gynulleidfa sut bydd yr Ysgol Gydol Oes yn dileu trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, i'r ysgolion cynradd i gyd?*

Bydd y campws gydol oes yn dileu'r broses i ddwy ysgol ac yn creu cynlluniau fyddai'n gallu cael eu defnyddio gan yr holl ysgolion sydd yn trosglwyddo'i phlant i'r uwchradd.

*Ni chytunai un aelod o'r gynulleidfa gyda'r drefn rheoli arfaethedig. Cael un pennaeth ar CA4 & CA5 yn faich sylweddol. Cytuno gyda phennaeth CA2 & CA3.*

Ymatebodd yr ymgynghorwr mai penderfyniad i'r llywodraethwyr cysgodol fydd staffio'r ysgol ond mae syniadau wedi eu crybwyll yn y grŵp llywio a bydd argymhellion yn gallu cael eu gwneud.

*Nododd y gynulleidfa bod pryder staffio yn bodoli. Mae 5 aelod o staff yn gadael ar ôl Haf 2011. Mae staff yn gadael yn difetha ysgolion.*

*Pryderon ynglŷn â chais aflwyddiannus - beth fyddai'n digwydd wedyn?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod y Cyngor yn gweithio ar y dybiaeth fod y cais yn llwyddiannus. Mae'r drefn gwneud ceisiadau yn araf iawn a threfn ad-drefnu'r araf felly roedd yn gwneud synnwyr i fwrw ymlaen gyda'r cais. Os fyddai'n aflwyddiannus bydd raid i'r Cyngor ail edrych ar y dalgylch cyfan. Heb yr arian bydd y broblem addysgol yn dal yn bodoli, ysgolion y dalgylch fel ag y maent yn anghynaladwy. Efallai byddai rhaid ystyried ad-drefnu mwy radical yn y dalgylch. Cytunodd y Deilydd Portffolio Addysg y byddai'n rhaid ail edrych ar y dalgylch oherwydd realiti'r sefyllfa ariannol. Cyfrannodd y Rheolwr Personél fod y polisi newydd dan sylw yn cefnogi staff gyda swyddi gweigion mewn ysgolion eraill ac y byddai'r polisi cyflogaeth amgen yma yn gymorth.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa oherwydd y toriadau staffio i ddod, fyddai'n amhosib i ddisgybl dilyn y cwricwlwm, sut fydd hyn effeithio'r campws gydol oes newydd?*

Mae trafodaethau uwchradd yn digwydd ond bydd rhaid archwilio'n fanylach. Mae dyletswydd ar yr uwchradd cynnig y cyrsiau ond fyddai'n bosib cydweithio gyda'r coleg ac ysgolion siroedd eraill. Mae rhaid gwella'r sefyllfa ffordd yn y Sir gyfan.

Dychwelyd i'r ddogfen statudol.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

*Fyddai cyfle i ddarpar rieni gyfrannu? Oedolion ifanc y dalgylch?*

Rhoi eu cyfraniad trwy aelodau'r grŵp defnyddwyr.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Byddai'r cofnodion yn cael eu gyrru at y pennaeth i'w gwirio.

*Gofynnodd y gynulleidfa am ddewisiadau CA4 & CA5 yn Y Bala. Mae rhai llefydd all dalgylch yn agosach na Dolgellau. Mae cynnig 30 pwnc yn CA4 yn anodd mewn ardal wledig oherwydd cyllid. Mae straen y pynciau dewisol yn cael effaith ar y pynciau craidd. Problem dyblygu adnoddau gyda sefydliadau eraill felly rhaid talu am gludiant.*

Atebodd y swyddogion y bydd yn rhaid cael cydweithredu gyda sefydliadau eraill yn Meirionnydd. Bydd y baich yma ar y grŵp defnyddwyr. Efallai byddai'n syniad cydweithio â Llysfasi.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 17:35.

# CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y BERWYN
# 13 Ionawr 2011 17:45-19:15
# CYFARFOD LLYWODRAETHWYR

12 o lywodraethwyr yn bresennol yn cynnwys y pennaeth.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y  cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

## Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurodd y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.
Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yn Arfon ac yn cael ei sefydlu yn ardal Penrhyndeudraeth/Porthmadog.

Bydd ymateb cychwynnol diwedd Ionawr a rhai misoedd cyn penderfyniad pendant. Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd campws newydd sbon dan sylw ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Uwchraddio adeiladau'R Berwyn gyda rhai adeiladau newydd yw'r cynllun cychwynnol nawr.
Cyflwynodd ymgynghorwr, cyn bennaeth uwchradd yn y Sir, sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn: A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes, B) Beth ydy manteision y datblygiad, C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala? Crybwyllwyd y grŵp defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:
1) CA1 2) CA2 & CA3 3) CA4 & CA5

Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun ac efallai bydd rhai o'r gynulleidfa yn anghytuno gyda rhai syniadau. Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'r grŵp defnyddwyr. Y prif newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Cyflwynodd y Rheolwr Personél sleidiau yn ymwneud ag arweiniad a chefnogaeth yr Adran Personél. Eglurodd bod trafodaethau yn digwydd gyda swyddogion undebau athrawon a staff ategol. Mae polisi amgen yn derbyn sylw ar hyn o bryd a'r gobaith yw bydd llywodraethwyr ysgolion Gwynedd yn ei dderbyn. Nid oes penderfyniad wedi'u wneud felly ni fyddai'n bosib trafod manylion penodol ond yma i hysbysu staff bod y swyddogion ar gael i gefnogi. Mae'r adran yn casglu gwybodaeth am holl bersonél fydd y cais yn effeithio ac yn cadw'r wybodaeth yma'n gyfredol. Nododd ei bod yn ymwybodol bod unrhyw newid yn creu pryder i'r staff a rhoddwyd dau e-bost gyswllt os fydd y staff eisiau cymorth neu fwy o wybodaeth: sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk & niagruffudd2@gwynedd.gov.uk.

Oedodd y Pennaeth Addysg ac eglurodd y byddai'n rhaid dychwelyd i'r ddogfen statudol yn ystod y cyfarfod ond roedd eisiau rhoi cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*Addysgu CA2 & CA3 ar y cyd, rhagdybio'r cwricwlwm cynradd ac uwchradd (oed 7-13)?*

Mae'r grŵp defnyddwyr yn gweithio ar ddulliau i gyflwyno CA3, creu adnodd i gyflwyno pynciau ar wahân. Yn bresennol mae diffyg parhad rhwng cynradd ac uwchradd gyda dulliau cyflwyno. Gwaith ymchwil i'w wneud.

*Wrth adael blwyddyn 6 mae un athro yn dysgu bob pwnc a nifer o athrawon ym mlwyddyn 7, Sut fydd hyn yn cael ei wneud yn raddol?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod pryderon yn codi am safonau CA3 yn disgyn oherwydd bod plant yn ail ddechrau ar fformat dysgu. Nid yw hyn yn system ddelfrydol, mae sefydlu'r campws yn gyfle arbennig i newid y drefn.

*Soniwyd am ysgol anghenion arbennig, a fyddai plant gydag anghenion yn cael mynychu'r campws gydol oes?*

Byddan, fydd yr ysgol newydd arfaethedig yn Penrhyndeudraeth i'r plant gyda'r anabledd gwaethaf. Fydd y rhai sydd yn y brif lif nawr yn y campws gydol oes hefyd.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bod uwchradd yn dibynnu ar yr ysgolion cynradd ac mae pryderon fydd disgyblion y dref yn teimlo'n freintiedig oherwydd eu bod ar y safle. Pryder fydd diffyg parch ac ymddygiad rhwng disgyblion y dref a'r wlad. Fydd rhaid cael yr un adnoddau i'r ysgolion gwledig.*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg bod cau'r ysgolion gwledig i gyd a'i thynnu mewn i'r campws wedi cael ei thrafod ond bod gwell ganddi weld rhai o'r ysgolion gwledig yn cael ei harbed. Dyma pam bod y tair ysgol wledig ar y tair lôn fawr yr ardal wedi cael eu cadw yn y cais yma. Fydd dros £1miliwn yn cael ei wario ar ysgolion Bro Tryweryn, O.M.Edwards a Ffridd Y Llyn.

*Oes cysyniad ar sut fydd yr arian yma'n cael ei wario?*

Mae'r trafodaethau yma ar y gweill, y nod yw cael yr un safonau i ddisgyblion yr holl ddalgylch. Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol mai cysyniad y gwariant ar hyn o bryd yw £9miliwn ar y campws gydol oes a £1.3miliwn ar yr ysgolion gwledig.

*Beth fydd yn digwydd os ni dderbynnir yr arian?*

Mae 22 o awdurdodau wedi gwneud cais a fydd hanner ohonynt yn aflwyddiannus felly mae'n bosib i'r cais ariannol fod yn aflwyddiannus. Os ni fydd arian fydd rhaid dechrau'r trafodaethau o'r cychwyn. Mae'r strategaeth bresennol yn ddibynnol ar arian y Cynulliad. Ni fyddai'n bosib gadael addysg y dalgylch yn y sefyllfa bresennol gan ei fod yn anghynaladwy.

*Oes trafodaethau wedi bod gyda Sir Dinbych? Mae disgyblion o'r Sir yn mynychu'r Berwyn. Ni dderbyniodd cynghorydd Corwen gwahoddiad i'r cyfarfodydd PAD.*

Gafodd rhai cynghorwyr Conwy a Dinbych ei gwahodd i'r PAD, amryfusedd oedd peidio gwahodd cynghorydd Corwen. Mae rhaid i Wynedd rhoi cais i mewn eu hunain, fyddai'n rhy gymhleth ceisio gwneud cais gyda Siroedd eraill.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bod rhan helaeth o'r arian yn cael ei wario ar y cynradd. Pa fuddsoddiad uniongyrchol fydd ar yr uwchradd? Yn ogystal, mae 6 aelod o staff yn y cynradd a 21 yn yr uwchradd, fydd natur staffio yn newid ac efallai bydd llai o arbenigedd.*

Atebodd y Pennaeth Addysg mai'r gobaith yw bod arbenigedd y staff ardraws yr oedrannau. Mae cyfle arbennig yma gyda staffio e.e. fydd y pennaeth gwyddoniaeth yn bennaeth ar y pwnc trwy'r holl adrannau. Mae cyfle anhygoel i gydblethu ffyrdd dysgu ardraws yr oedrannau a chael yr addysg gorau i blant a chyfle i staff datblygu eu sgiliau.

*Does dim cadarnhad o'r chweched dosbarth? Yw'r chweched dosbarth ddim yn elfennol i gadw'r campws yn dysgu oedrannau 3-19?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg fyddai rhaid cael staff sydd yn arbenigo i ddysgu CA4 & CA5 ond mae dyfodol y chweched dosbarth yn drafodaeth i Ysgol Y Berwyn ei hunain. Mae'r cais cyfalaf wedi mynd gyda'r oedrannau 3-19 a dyna yw'r bwriad. Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Addysg bod arian y chweched ddim o'r Sir felly er tegwch mae'n drafodaeth ar wahân.

*Nododd y gynulleidfa bod sôn am lefydd gweigion Y Berwyn yn y ddogfen. Mae lle i 700 o ddisgyblion yn Y Berwyn yn bresennol ond mae'r campws yn amcan lle i 500. Yr un ardal sydd dan sylw ond llai o blant? Gwneud dim synnwyr wrth geisio cael gwared â llefydd gweigion.*

Datganodd y Pennaeth Addysg bod 50% o lefydd gweigion yn Y Berwyn. Mae'n gywir bod y modelu'n cael ei wneud ar lai o ddisgyblion oherwydd y nifer o ddisgyblion yn debygol o fynychu ac nid nifer cynhwysedd sydd yn cael ei fodelu.

Dychwelyd i'r ddogfen statudol.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

*A yw'n bosib egluro cyllid yr ysgol?*

Adroddodd y rheolwr cyllid byddai'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn rhyddhau arbedion oddeutu £69,000 a hynny'n cynnwys oddeutu £22,000 net yn dilyn uno'r ysgolion Cynradd ac Uwchradd, oddeutu £10,000 trwy adleoli Neuadd Buddug ac oddeutu £37,000 o'r gyllideb arlwyaeth. Bydd yr Ysgol Gydol Oes yn elwa £20,000 o'r arbedion arlwyaeth.

*Beth fyddai'n digwydd os fydd gan un o'r ysgolion sydd yn cau diffyg ariannol?*

Fydd cyllideb newydd yn bodoli i'r campws gydol oes. Ymatebodd y Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol ni ragwelir byddai'n trosglwyddo i'r sefydliad newydd. Os fyddai arian dros ben fyddai'n drafodaeth arall.

*Fydd adnoddau fel dodrefn yn newydd? Fyddai'n garedig iawn os caiff yr adrannau uwchradd dodrefn newydd.*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo corfforaethol bod unrhyw adeilad newydd am gael dodrefn newydd ond fydd unrhyw adnoddau fel peiriannau technoleg sydd ddal yn addas, yn cael eu trosglwyddo.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Ail nododd y Pennaeth Addysg bod cyfle i gyflwyno sylwadau i reolwr y prosiect ad-drefnu erbyn **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**. Byddai'r cofnodion yn cael ei yrru i'r pennaeth i gael eu gwirio.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r llywodraethwyr am fynychu ac am eu cyfraniadau. Gorffennodd y cyfarfod am 19:15.

## CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y BERWYN
## 13 Ionawr 2011 19:35-21:20
## CYFARFOD RHIENI

26 o bobl yn bresennol yn cynnwys rhieni a disgyblion.

### Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd y Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y  cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

### Y Cynnig, Yr Ymgynghoriad Statudol a Sut y Cafodd y Cynnig Hwn ei Ddatblygu?

Eglurodd y cynnig yn glir, cau ysgolion Y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a chreu Campws Gydol Oes ar safle presennol Ysgol Y Berwyn.

Mae'r broses wedi cyrraedd yr ymgynghoriad statudol lle mae cyfle i bawb roi eu sylwadau. Bydd cyfle i ddisgyblion ymateb gyda holiaduron eisoes wedi'u yrru i bennaeth yr ysgol. Croeso i unrhyw un yrru sylwadau i mewn i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn **4 Chwefror 2011**. Eglurodd bod y cyfarfod yma'n rhan o'r ymgynghoriad statudol ac y trafodid y papur ymgynghori statudol.

### Cyflwyniad

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg ychydig sleidiau ar weledigaeth addysgol y dalgylch a'r cais i'r Cynulliad am arian cyfalaf. Eglurodd bod cais cynllun strategol amlinellol wedi ei yrru ym mis Rhagfyr i'r Cynulliad am ddau ddatblygiad:

1) Campws Gydol Oes Y Bala – datblygu'r campws a datblygu ysgolion gwledig Y Bala. Cais am £10miliwn, 70% arian Cynulliad a 30% Cyngor.

2) Ysgol Anghenion Arbennig – yn hytrach nag Ysgol Hafod Lon, Y Ffôr, i blant Dwyfor a Meirionnydd. Bydd yr ysgol newydd yn debyg i Ysgol Pendalar yn Arfon ac yn cael ei sefydlu yn ardal Penrhyndeudraeth/Porthmadog.

Bydd ymateb cychwynnol diwedd Ionawr a rhai misoedd cyn penderfyniad pendant. Yn nhrafodaethau'r panel adolygu dalgylch (PAD) roedd campws newydd sbon dan sylw ond gyda'r newid mewn Llywodraeth a'r toriadau roedd yn rhaid gwneud cais rhesymol, tebygol o lwyddo. Uwchraddio adeiladau'R Berwyn gyda rhai adeiladau newydd yw'r cynllun cychwynnol nawr.

Cyflwynodd ymgynghorwr, cyn bennaeth uwchradd yn y Sir, sleidiau ar y gymuned gydol oes wrth ganolbwyntio ar ateb y tri chwestiwn: A) Beth ydy Cymuned Ddysgu Gydol Oes, B) Beth ydy manteision y datblygiad, C) Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn Y Bala? Crybwyllwyd y grŵp defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i drafod y datblygiad. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tair ysgol dan sylw. Y gobaith yw ehangu aelodaeth y grŵp yma yn y dyfodol agos. Cytunodd y grŵp nad ysgol gynradd ac uwchradd fydd yn cael ei sefydlu ond un ysgol gyda strwythur newydd gyda thair lefel:

1) CA1    2) CA2 & CA3    3) CA4 & CA5

Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol sleidiau yn ymwneud ag amcanion eiddo. Dangosodd gysyniad cychwynnol i roi syniad i'r gynulleidfa o'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Pwysleisiodd mai cysyniad cychwynnol oedd y darlun ac efallai bydd rhai o'r gynulleidfa yn anghytuno gyda rhai syniadau. Cafodd y gynulleidfa eu hannog i roi eu barn a rhannu eu syniadau i'r grŵp defnyddwyr. Y prif

newidiadau fyddai dymchwel yr adeiladau technoleg bresennol a chael adeilad newydd iddo, cael adeilad newydd i addysg CA 1 & CA2, uwchraddio'r neuadd a chael adnoddau cymunedol ar safle presennol Ysgol Beuno Sant (llyfrgell a thîm o amgylch y plant).

Oedodd y Pennaeth Addysg ac eglurodd y byddai'n rhaid dychwelyd i'r ddogfen statudol yn ystod y cyfarfod ond roedd eisiau rhoi cyfle i gwestiynau neu sylwadau mewn ymateb i'r drafodaeth hyd yma.

## Cwestiynau a Sylwadau'r Gynulleidfa

*Beth fyddai'n digwydd i ddisgyblion yn ystod y gwaith adeiladu? Fydd rhai yn ganol gwaith cwrs TGAU ac angen defnydd o adnoddau penodol.*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol drwy nodi y bydd y cyfnod adeiladu yn debygol o fod o gwmpas 18 mis ac na ellir gwadu y bydd yn her ceisio datblygu gyda'r safle yn dal yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn broblem sydd heb ei wynebu o'r blaen (cyfeiriodd at Ysgol Glan y Môr yn ddiweddar) a gyda chynllunio gofalus, cydweithio a hyblygrwydd roedd yn ffyddiog y gellid cwblhau'r datblygiad gyda chyn lleied o effaith a phosib ar y defnyddwyr.
Ychwanegodd y Pennaeth Addysg wrth fynd ar sefyllfaoedd y gorffennol ni fyddai'n cael effaith ond os fyddai adegau pan fydd adnoddau penodol eu hangen bydd yn bosib trefnu defnyddio adnoddau sefydliadau eraill.

*Nododd aelod o'r gynulleidfa bod yn pryderu am rieni disgyblion sydd yn mynychu ysgolion cynradd tu allan i Wynedd, rhai fyddai'n dechrau ym mlwyddyn 7 yn y pum mlynedd nesaf. Mae ganddynt ddewisiadau eraill am addysg uwchradd.*
*Crybwyllwyd un aelod o'r gynulleidfa fod map dalgylch y Berwyn dangoswyd yn y cyflwyniad ddim yn cynnwys ysgolion cynradd dalgylch Y Berwyn i gyd. O'r 26 yn bresennol yn y cyfarfod mae 8 o rieni yn cynrychioli'r 5 ysgol gynradd tu allan i Wynedd. Mae traean o blant Y Berwyn yn dod o'r ysgolion yma. Argraff yn cael ei gyfleu bod ysgolion a disgyblion yma ddim yn bwysig. Posibilrwydd bod rhieni disgyblion yr ysgolion yma am yrru'i phlant i ysgol uwchradd arall, mae ganddynt ddewisiadau.*

Eglurwyd y Pennaeth Addysg mai map y dalgylch o fewn ffiniau Gwynedd oedd yn y cyflwyniad. Mae'r cais arian cyfalaf sydd wedi ei yrru yn cynnwys y nifer o ddisgyblion sydd yn trosglwyddo o'r ysgolion yma. Nododd bod y pryder yn cael ei chydnabod a'i nodi. Nododd bod risg mewn newidiadau ond fydd gwobr helaeth ar ddiwedd y datblygiad yma. Fydd rhaid i'r cyngor gyfathrebu'n eglur yn ystod y datblygiad yma i wneud yn siŵr bod rhieni yn ymwybodol ein bod yn cymryd eu pryderon o ddifrif.

*Nododd un rhiant nad yw yn erbyn y cais ond yn anodd i bobl ardaloedd Llangwm, Ruthun a Dyffryn Conwy dewis Y Berwyn pan mae'n wynebu newidiadau mor fawr. Unwaith fydd plentyn hynaf teulu wedi mynd i ysgol uwchradd arall fydd y plant i gyd yn dilyn, fyddai hyn yn golled i'r Berwyn,*
*Nododd un aelod bod ganddo dau bwynt oedd yn creu pryder, 1) canran uchel yn mynychu'r chweched dosbarth a cholled o 10% o staff 2) nid yw arbenigedd staff cynradd yn help dysgu blynyddoedd 9,10,11,12,13.*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod rhaid cadw sefyllfa'R Berwyn nawr a'r campws gydol oes ar wahân. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn methu aros o fewn ei gyllideb ac yn rhedeg ar golled felly rhaid wynebu toriadau staff, fel sawl ysgol yn y Sir.

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa ynglŷn â'r sefyllfa campws gydol oes a'r adnoddau chwaraeon. Mae'r Moelwyn wedi cymryd yr adeilad hamdden drosodd ond mae sôn am doriadau. Pa warant sydd fyddai'r adnoddau chwaraeon dal yn bodoli wrth y llyn yn 2015? Hefyd os ddaw'r chwaraeon yn rhan o'r campws, a fyddai'n faich ariannol?*

Ymatebodd y Pennaeth Addysg nid yw'n bwriad i leihau yr adnoddau chwaraeon yn y Bala. Ychwanegodd yr ymgynghorwr fyddai rheolaeth yr adran chwaraeon yn dod o dan reolaeth y gymuned – staff, llywodraethwyr a rhieni yn gallu cael effaith arno. Ni fydd ei gyllid yn rhan o gyllid y campws

gydol oes ond o dan y rhwydwaith Sirol. Fydd ei reolaeth o ddydd i ddydd ar wahân ond fyddai'n atebol i reolaeth y campws gydol oes. Mae'r model yma i ddatblygu'n pellach a materion yma sydd angen eu hateb.

*Soniwyd y gynulleidfa am waith rhwng y campws gydol oes a'r ysgolion gwledig, fyddai'r gwaith yma'n digwydd gydag ysgolion dros ffin y Sir? Mae'r ysgol uwchradd fel busnes, os na werthi'r busnes dros y ffin mae peryg mawr o'i golli.*

Derbyniodd y Pennaeth Addysg y pwynt yma a nododd ei fod yn braf clywed bod ethos a natur Gymreig yr ysgol yn bwysig i rieni. Fydd rhaid sicrhau diogelu hyn a pharhau'r perthynas gyda rhieni all-ddalgylch. Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Addysg bod cyfnod o drawsnewid i'w ddigwydd yn y dalgylch ac mae'n gyfle anhygoel i gael adnodd gwych Cymraeg.

*Nododd y gynulleidfa bod ariannu ysgolion yn cael ei seilio ar nifer y disgyblion. Mae nifer Y Berwyn i lawr a fydd yn mynd yn is oherwydd colled athrawon, fyddai'n anodd cael y disgyblion yn eu hol.*

*Gofynnod un aelod o'r gynulleidfa dau gwestiwn penodol 1) beth fyddai'n digwydd heb arian y Cynulliad? 2) siomedig gyda'r cysyniad, pam bod manylion pellach ddim ar gael?*

Atebodd y rheolwr Eiddo Corfforaethol yr ail gwestiwn drwy bwysleisio eto mai cysyniad cychwynnol yn unig yw hwn a bod angen ei ddatblygu'n fanwl gyda chymorth y defnyddwyr.
Ychwanegodd y Deilydd Portffolio Addysg roedd rhaid gwneud y cais ariannol i'r Cynulliad yn Rhagfyr 2010. Yn y gorffennol oedd yn bosib gwneud ceisiadau bob blwyddyn ond nawr bob tair blynedd yw'r gallu. Fydd gwaith lobio yn cael ei wneud. Fydd ymateb cychwynnol gan y cynulliad mis yma a phenderfyniad terfynol cyn yr Haf. Os na dderbyniwn yr arian fydd rhaid ail gychwyn trafodaethau ad-drefnu. Fydd toriadau yn dod felly fydd rhaid cael newid i'r drefn addysg yn y dalgylch.

*Fydd darnau eraill Y Berwyn yn cael eu newid e.e. y ffreutur?*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol bod dim digon o gyllid i uwchraddio'r cyfan o'r adeiladau presennol ac y bu'n rhaid blaenoriaethu i benderfynu ar beth i wario'r arian.

*Dangoswyd adeilad yn cael ei dymchwel ac mae'r adeilad yna'n cynnwys uned anghenion arbennig, fyddai hwn yn cael ei golli?*

Ni fydd yr uned yn cael ei golli, rhy fuan i wybod yn bendant lle gaiff ei leoli ond yn bendant fyddai'n cael ei gynnwys yn y prosiect ac yn cael buddsoddiad.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa nid yw yn erbyn y cynnig ond ei bod yn teimlo bod rhan o'r cyflwyniad wedi ei werthu i ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn benodol ac nid i holl ysgolion cynradd y dalgylch. Teimlodd bod rhaid bod yn ofalus i beidio rhoi argraff o roi manteision i blant Y Bala yn unig.*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg nad hynny yw'r bwriad, mae'r model yn cynnwys rhwydwaith ysgolion gwledig, y bwriad yw cau un a chadw tri.
*Pryd fyddai'r campws gydol oes yn cael ei agor*
2015

*Nid oes cyfle i blant rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.*

Mae holiaduron wedi ei yrru i'r pennaeth i'w wneud gyda'r holl ddisgyblion.
*A fydd y chweched dosbarth yn cael ei harbed? Fyddai'n dir peryg i beidio cael chweched.*

Y bwriad yw sefydlu darpariaeth i blant oedran 3-19 ond fydd dyfodol hir dymor y chweched yn drafodaeth tu allan i'r cynnig yma.

Dychwelyd i'r ddogfen statudol.

## Y Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ystyried Y Dewisiadau

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Beth fyddai Effaith y Cynnig Hwn?

Dim cwestiwn ar yr adran yma o'r ddogfen statudol.

## Pwrpas yr Ymgynghori

Ail nododd y Pennaeth Addysg bod cyfle i gyflwyno sylwadau i reolwr y prosiect ad-drefnu erbyn **dydd Gwener 4 Chwefror 2011**.

*Fyddai enw newydd i'r ysgol?*

Mater i'r grŵp defnyddwyr fydd hyn a'r her fyddai cael enw gwell na'r Berwyn.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r rhieni am fynychu ac am eu cyfraniadau. Gorffennodd y cyfarfod am 21:20.

**2.4 Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol y Parc**

# CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y PARC
# 10 Ionawr 2010 17:00
# CYFARFOD STAFF

5 aelod o staff yn cynnwys pennaeth, athrawes, cymhorthydd dan hyfforddiant, cogyddes a gofal a glanhawr a gofal.

## Croeso a Chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

## Y Cynnig a'r Ymgynghoriad Statudol

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg ac eglurwyd y cynnig sydd dan sylw. Nodwyd bod croeso i bawb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn dydd Gwener 4 Chwefror 2011. Nodwyd bod trefniadau ar y gweill i drefnu hwylusydd i gael barn plant Ysgol y Parc.

*Gofynnwyd a fyddai cyn ddisgyblion y Parc yn cael cyfle i ymateb i'r cynnig i gau Ysgol y Parc yn uniongyrchol. Deallwyd bod Ysgol Y Berwyn wedi derbyn cynnig am hwylusydd a gofynnwyd a oedd trefniant wedi ei wneud. Os na fydd hwylusydd yn mynd i'r Berwyn gofynnwyd am yr hawl i gyn-ddisgyblion Ysgol y Parc fod yn bresennol yn y sesiwn efo'r hwylusydd fyddai'n cael ei gynnal yn Ysgol y Parc.*

Ni ragwelid problem.

*Gofynnwyd pwy yn union fydd yn edrych ar yr ymatebion, ac a fyddai copi yn cael ei roi i bob aelod etholedig?*

Eglurwyd y byddai pob ymateb ar gael i'r aelodau etholedig ond na fyddent yn cael copi uniongyrchol. Byddai wedi costio tua £10 yr aelod i yrru ymatebion Tywyn felly penderfynwyd rhoi copi i bob Plaid ac yn y llyfrgell leol. Byddant hefyd ar y we heb fanylion personol.

*Nodwyd gan y gynulleidfa bod y prif bwynt wedi ei adael allan o'r papur – daeth y cynnig i gau Ysgol y Parc gan y Cyngor ac nid gan y Panel Adolygu Dalgylch (PAD). Ni chynigiwyd cau yr ysgol gan y dalgylch yn ystod y trafodaethau. Gofynnwyd i hyn gael ei gofnodi'n glir fel tystiolaeth i'r aelodau etholedig.*

## Cyflwyniad

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod cyflwyniad gan y swyddogion i drafod y cynnig ac i atgoffa pawb o brif bwyntiau y PAD - ystyried y dalgylch cyfan a'r weledigaeth. Cyflwynwyd pwyntiau gan y Pennaeth Addysg am y weledigaeth dalgylchol, gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol ar y newidiadau i Ysgol O.M.Edwards, gan ymgynghorydd a'r Rheolwr Eiddo Corfforaethol ar y bwriad yn Y Bala, a gan swyddog personél ar faterion personél yn sgil y cynnig.

*Cynigwyd gan y gynulleidfa mai dau beth hollol wahanol yw'r cynnig i gau'r Parc a'r datblygiad yn Y Bala.*

Eglurwyd bod buddion i'w cael i ddisgyblion y dalgylch cyfan yn cynnwys disgyblion Ysgol y Parc a bod bwriad i grynhoi adnoddau a gwneud y defnydd gorau posib ohonynt.

*Gofynnwyd am gost y newidiadau i Ysgol  O.M.Edwards.*

Nodwyd y byddai'r gost oddeutu £800,000-£900,000 a bod cais wedi ei anfon i'r Cynulliad. Eglurwyd mai pwyntiau y mae'r Adran Eiddo yn ymwybodol ohonynt sydd dan sylw ond bydd yn rhaid cael mewnbwn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion wrth fanylu i'r dyfodol.

*Gofynnwyd a fyddai'r gwaith yma yn barod erbyn Medi 2012 oherwydd ni fyddai'n briodol symud y plant nes byddai'r ysgol yn barod. Beth fyddai'n digwydd pe byddai'r cais ariannol yn aflwyddiannus? Dywedwyd yn glir bod y gynulleidfa yn meddwl y byddai'n well gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol y Parc ar ôl i benderfyniad y Cynulliad gael ei gyhoeddi.*

Eglurwyd bod y Cyngor yn gweithio ar y dybiaeth y byddai'r cais yn llwyddiannus. Bydd ymateb cychwynnol y Cynulliad yn cael ei dderbyn erbyn diwedd Ionawr. Dyma a ddeallwn ar hyn o bryd. Dywedwyd bod yr holl newidiadau ynghlwm wrth dderbyn yr arian a bod y Cyngor yn ceisio cau cyn lleied o ysgolion â phosib, a datblygu sefydliad newydd yn Y Bala.

*Crybwyllwyd y polisi cludiant a bod y gynulleidfa yn rhagweld newid iddo yn y dyfodol fyddai'n effeithio rhieni disgyblion y Parc. Nodwyd bod cost petrol yn cynyddu a gofynnwyd a fyddai'n rhaid i rieni dalu?*

Ymatebwyd bod hyn yr un peth i bob rhiant yn y Sir a byddai newid ond bod y 2 filltir yn ddeddfwriaeth ac ni ragwelir newid.

*Cynigiodd y gynulleidfa bod straen mawr yn ardal Y Bala oherwydd na fyddai adeilad newydd yn y campws gydol oes arfaethedig yn fwy nag uwchraddio Ysgol Y Berwyn. Nid oes cyfathrebu digonol wedi bod gyda'r ardal, doedd dim hysbysu o newidiadau. Nid yw pobl yr ardal sydd ddim ar y grŵp defnyddwyr yn gwybod beth sydd yn digwydd a bod siarad ymysg y bobl yn gwneud niwed i'r prosiect.*

Eglurwyd bod newidiadau wedi gorfod digwydd yn dilyn y newid mewn llywodraeth a'r toriadau. Nid oes cymaint o ryddid gan y Cyngor. Rhaid gwneud defnydd rhesymol o'r hyn sydd yn bodoli yn barod. Croesewir unrhyw farn - y gobaith yw ymestyn aelodaeth y grŵp defnyddwyr yn y dyfodol i gynnwys mwy o bobl yr ardal.

Cyflwynwyd gwybodaeth gyffredinol gan y swyddog personél ac eglurwyd nad oedd yn bosib mynd i mewn i fanylion nes bydd penderfyniad yn cael ei wneud ond bod y swyddogion mewn cyswllt gyda fforwm undebau yr athrawon a'r staff ategol. Dywedwyd bod y swyddog yn ymwybodol ei fod o'n amser pryderus a bod y swyddogion personél yno i gynorthwyo. Rhoddwyd 2 gyfeiriad e-bost fel pwyntiau cyswllt: sandraelizabethevans@gwynedd.gov.uk a niagruffudd2@gwynedd.gov.uk. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn gan y gynulleidfa.

## Sut Y Cafodd y Cynnig ei Ddatblygu a Chefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad

Eglurwyd bod yr isadran yma o'r ddogfen yn cyfeirio at y dalgylch cyfan ac nid Ysgol y Parc yn unig. Ni ofynnwyd cwestiwn wrth fynd trwy'r pwyntiau yma.

## Ysgol y Parc

*Dywedodd y gynulleidfa bod pwyslais mawr ar y 14 o lefydd gweigion sydd yn bodoli yn Ysgol y Parc ond bod y cynnig hwn yn creu 20 o lefydd gweigion yn Ysgol O.M.Edwards.*

Eglurwyd bod yn rhaid modelu lle i 10% mwy o ddisgyblion na'r nifer presennol oherwydd gofynion y Cynulliad. Mae hyn oherwydd wedi uwchraddio yr ysgol efallai bydd rhai rhieni yn dewis mynd â'u plant yno oedd heb ystyried gwneud hynny o'r blaen.

*Nodwyd gan y gynulleidfa bod y ddogfen heb nodi sawl un o ysgolion Gwynedd sydd yn y rhwyd diogelu.*

Eglurwyd bod cost y rhwyd diogelu gyflawn bron yn hanner miliwn ar gyfer 27 o ysgolion ar hyn o bryd a bod rhagolygon y bydd hynny yn codi i £650,000 erbyn 2013. Mae pwysau cyson erbyn hyn gan yr ysgolion canolig eu maint yn enwedig am drefn gyllido decach.

*Nododd y gynulleidfa nad oedd creu 3 dosbarth ar gyfer 70 o blant ddim yn ddelfrydol. Byddai maint y dosbarthiadau yn cynyddu a bydd hyn yn boen i'r pennaeth ac i rieni. Bydd hyn yn creu straen gyda 3 athro yn unig. Mae'r cynnig i fod i greu addysg cystal os nad gwell?*

Mi fydd y cynnig yn sicrhau athro gyda phob dosbarth.

*Roedd y gynulleidfa eisiau gwneud yn glir ei bod yn bosib i niferoedd Ysgol y Parc gynyddu yn y dyfodol ac nad oes unrhyw sôn am hyn yn y ddogfen. Gall y nifer gynyddu i 20-24, gall bod 12 ym mhob dosbarth. Nodwyd bod ffigwr yn y ddogfen yn anghywir. Uchafswm o 30 ddisgyblion sydd wedi bod yn yr ysgol dros y 35 mlynedd diwethaf ac nid 27 fel y nodir yn y ddogfen.*

Cytunwyd y byddai'r ffigwr yn cael ei wirio a'i newid os yw'n anghywir.

*Nododd y gynulleidfa, er bod 14 o lefydd gweigion maent yn hapus fel mae'r ysgol. Mae'n cael ei nodi yn y ddogfen bod diffyg cae chwarae ond nid yw hyn yn cael effaith ar safon yr addysg ac nid yw'n anfantais gan fod 5/6 disgybl wedi cynrychioli Cymru mewn chwaraeon. Dywedodd un aelod o'r gynulleidfa y byddai'n well cael neuadd y Parc yn hytrach na chae chwarae wrth gymharu gyda neuaddau ysgolion* eraill.

*Nododd y gynulleidfa er mai pennaeth mewn gofal sydd yma ar hyn o bryd, mae gan y Pennaeth nawr y cymhwyster, CPCP.*
*Ceir cyfeiriad yn y ddogfen nad oes plant all-ddalgylch yn yr ysgol - roedd aelod o'r gynulleidfa dan yr argraff bod y Cyngor yn erbyn i hyn ddigwydd.*

Eglurwyd mai ffaith yw hon i egluro bod niferoedd yr ysgol yn sefydlog.
Cafodd y GYDCA ei grybwyll gan sôn am y 17 pwynt bwled sydd wedi eu cytuno gan ffederasiwn penaethiaid cynradd y Sir.

*Cytunodd y gynulleidfa bod cydweithio'n bwysig i leihau baich a bod rhannu adnoddau yn fanteisiol.*

## Ystyried Dewisiadau, Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir ac Anfanteision y Dewis a Ffafrir

Nid oedd cwestiwn ar yr adrannau yma yn benodol ond dywedodd y Pennaeth Addysg ei fod yn ymwybodol o amser (17:55) a Llywodraethwyr yn cyrraedd a gofynnwyd a oedd unrhyw gwestiynau gan staff. Roedd 4 aelod o'r staff yn hapus i aros am y cyfarfod llywodraethwyr. Codwyd pwyntiau am gludiant ac ôl-ddefnydd o'r safle, a chytunwyd i drafod hyn yn y cyfarfod llywodraethwyr, yn ogystal â cheisio mynd yn gynt trwy'r cyfarfod.

## Effaith y Cynnig Hwn a Phwrpas yr Ymgynghori

Trafodwyd yr adran yma yn sydyn ac ail adroddwyd manylion ymateb i'r ymgynghoriad a bod sylwadau heno wedi eu cofnodi.

*Gofynnodd y gynulleidfa a yw'r daflen ymateb ar y wê? Gofynnwyd hyn er mwyn sicrhau ei bod yno.*

Atebwyd ei bod ar y wê fel rhan o'r ddogfen ond nid ar ei phen ei hun. Cytunwyd i geisio'i rhoi ar y we.

## Diolch a Cloi

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r staff am fynychu ac am eu cyfraniadau.

## CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y PARC
## 10 Ionawr 2010 18:00
## CYFARFOD LLYWODRAETHWYR

Cyn i'r cyfarfod gychwyn daeth cais gan y llywodraethwyr i gofnodi'r cyfarfod ar fideo. Nid oedd unrhyw rybudd neu gais o flaenllaw i'r swyddogion. Nodwyd mewn ymateb y byddai rhaid derbyn cydsyniad pawb yn bresennol ar gyfer hyn ac mae'n bwysig mai un cofnod swyddogol o'r cyfarfod fyddai yn cael ei ddarparu. Nid oedd hyn wedi digwydd mewn cyfarfodydd ymgynghori statudol blaenorol.

*Dywedodd y llywodraethwyr eu bod wedi methu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgorau eraill oedd yn trafod Ysgol y Parc, er nifer o geisiadau i'r Cyngor. Felly y tro hwn roeddynt eisiau cadw cofnod eu hunain. Datganwyd na fyddai'r tâp yn cael ei rannu efo grwpiau allanol ond yn gyfle iddynt ail edrych ar yr ymatebion. Petaent yn gwybod yn gynt na chaniateid cofnodi'r cyfarfod ar fideo byddai clerc y llywodraethwyr wedi dod i gofnodi. Gofynnwyd am y cofnodion erbyn diwedd yr wythnos.*

Ni chytunwyd i fideo o'r cyfarfod gael ei baratoi. Cynigiodd y Pennaeth Addysg y byddai cofnodion drafft yn cael eu hanfon i'r ysgol i'w gwirio cyn iddynt eu rhoi i'r aelodau.
Rhoddodd Cyng Liz Saville Roberts, sef Deilydd y Portffolio Addysg ei gair y byddai'r cofnodion yn cael eu he-bostio at Bennaeth y Parc erbyn diwedd yr wythnos.

---

12 yn bresennol yn cynnwys staff a llywodraethwyr.

**Croeso a Chyflwyniadau**

Dechreuwyd y cyfarfod a chroesawyd pawb gan y Pennaeth Addysg a chyflwynwyd Cyng Liz Saville Roberts. Eglurwyd y cyflwynid y swyddogion eraill pan fyddent yn cyfrannu.

**Y Cynnig a'r Ymgynghoriad Statudol**

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg ac eglurwyd y cynnig sydd dan sylw. Dywedyd bod croeso i unrhyw un ofyn cwestiwn rhywbryd yn ystod y cyfarfod. Nodwyd bod croeso i bawb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn dydd Gwener 4 Chwefror 2011.

**Cyflwyniad**

Ar gais gan y gynulleidfa, oherwydd prinder amser a bod yr holl lywodraethwyr yn mynychu cyfarfod y rhieni i ddilyn, cytunwyd i beidio gwneud y cyflwyniad.

**Sut Cafodd y Cynnig ei Ddatblygu a'r Cefndir yn Arwain at yr Ymgynghoriad**

Cyfeiriwyd at y strategaeth gafodd ei mabwysiadu wrth ddatblygu'r cynnig, nad oedd y matrics gafodd ei ddefnyddio yn y ddogfen mae'r meini prawf yno yn adran lle ystyried y dewisiadau (tudalen 6).

*Nodwyd gan y gynulleidfa bod y term "Ysgol Gynradd Gymunedol" yn anghywir wrth gyfeirio at ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan ei fod yn cyfeirio at ysgolion sy'n darparu ar gyfer sawl cymuned. Cynigwyd mai ysgolion ardal neu fro ydynt gan fod un yn gwasanaethu tair cymuned filltiroedd oddi wrth ei gilydd. Hefyd gofynnwyd am y term Ysgol Gymunedol y Parc.*

Ymatebwyd i hyn gan y Reolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol gan esbonio fod tri phrif gategori o ysgolion a gynhelir gan y Cyngor yn ôl y gyfraith . Mae dau yn cyfeirio at ysgolion eglwysig a chyfeirir at bob

ysgol arall fel ysgol gymuned, "community school". Term technegol cyfreithiol yw hwn. Mae cyswllt y neuadd gymuned ag Ysgol y Parc yn golygu ei bod yn cael ei disgrifio fel Ysgol "Gymunedol".

*Nododd y gynulleidfa fod y datganiad yn y ddogfen am ostyngiad yn "nifer disgyblion y sector cynradd rhwng 1975-2009" yn hollol anghywir. Dywedwyd nad oedd cefndir y dalgylch yn cael ei gynnwys.*

Eglurwyd bod y pwynt yma yn cyfateb i'r tabl sydd ar dudalen 6 o'r ddogfen.

*Ymatebodd y gynulleidfa y dylai hyn fod wedi'i nodi yn glir gyda'r pwynt yma.*

*Nododd y gynulleidfa fod dau bwynt yn yr adran gefndirol yn sôn am addysg yn Ysgol Y Berwyn. Mae ysgol newydd arfaethedig yn Y Bala ac mae pobl leol yn gefnogol iddi. Mae'n hysbys bod problemau'n bodoli yn Ysgol y Berwyn. Mae rhai rhieni yn tynnu plant o'r ysgol oherwydd adroddiad anffafriol ESTYN. Ni fyddai cau Ysgol y Parc yn effeithio ar Y Berwyn – naill ai o ran cynyddu niferoedd disgyblion neu ateb gofynion ESTYN.*

Nodwyd bod ESTYN wedi adnabod gwelliannau yn Y Berwyn. Eglurwyd mai ffactorau perthnasol i'r dalgylch cyfan oedd y rhain, ac nid ffactorau unigryw i'r Parc.

*Nododd y gynulleidfa fod dwy ffigwr gwariant wedi'u darparu er mwyn gwella adeiladau cynradd y dalgylch - £660,000 yn y ddogfen ond cyflwynir bid am £1.4miliwn i wario ar yr ysgolion gwledig.*

Ymatebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol drwy nodi fod y ffigwr isaf o'r ddau yn cyfeirio at waith ar gyflwr yr adeiladau yn unig a bod y ffigwr uchaf yn cyfeirio at wariant i wneud yr adeiladau yn addas i ofynion yr unfed ganrif ar hugain.

**Ysgol y Parc**

Bydd O.M.Edwards yn cael ei addasu i ddysgu 90 o ddisgyblion.

*Gofynnwyd pam 90?*

Eglurwyd mai gofynion y Cynulliad yw cynllunio am 10% yn ychwanegol wrth uwchraddio.

*Dywedodd y gynulleidfa fod Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, wedi dweud wrth yr aelodau etholedig mewn pwyllgor yn 2010 bod Ysgol O.M.Edwards yn ddigon mawr i dderbyn disgyblion Ysgol y Parc heb addasiad.*
*Nodwyd un aelod o'r gynulleidfa bod 41 o blant yn Ysgol O.M.Edwards ar hyn o bryd. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod tua 25 o ddisgyblion ymhob un o'r tri dosbarth. Nododd y gynulleidfa y byddai hyn yn dibynnu ar oedrannau'r plant. A yw'n wir mai 0.5 athro ychwanegol fyddai yn Ysgol O.M.Edwards?*

Eglurodd y Rheolwr Cyllid y byddai £47,000 ychwanegol yn mynd i Ysgol O.M.Edwards petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen – penderfyniad i'r llywodraethwyr fyddai sut i'w wario. Byddai'n ddigon i gyflogi athro llawn amser neu 0.5 athro a chymhorthydd. Byddai 0.5 athro ychwanegol yn galluogi athro i bob dosbarth.

*Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd petai hanner disgyblion y Parc yn unig yn dewis mynychu Ysgol O.M.Edwards?*

Eglurwyd mai hanner y cyllid fyddai'n mynd i Ysgol O.M.Edwards felly. Ni fyddai hyn yn ddigon i gyflogi athro llawn amser ond byddai nifer y disgyblion yn is.

*Gofynnwyd faint o arian fyddai'n rhaid ei wario i addasu Ysgol O.M.Edwards?*

Ymatebwyd bod hyn yn y cyflwyniad i ddilyn yn y cyfarfod rhieni.
Eglurwyd bod Ysgol y Parc wedi derbyn £36,000 ychwanegol eleni er mwyn gwarantu dau aelod o staff. Mae'r ysgol yn un o 27 sy'n derbyn gwarchodaeth staffio (y rhwyd diogelu). Nodwyd bod y warchodaeth yn costio tua £500,000.

*Nododd y gynulleidfa y byddai rhestru lwfans y pen ym mhob ysgol yn y dalgylch wedi bod yn well er mwyn cyfleu darlun cyflawn.*

Daeth dim gwrthwynebiad i hyn gan y swyddogion, a rhestrodd y Rheolwr Cyllid lwfans y pen ar gyfer ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn eu cofnodi:

| | |
|---|---|
| Ysgol Bro Tegid | £3,038 |
| Ysgol O.M.Edwards | £3,535 |
| Ysgol y Parc | £7,394 |
| Ysgol Bro Tryweryn | £5,384 |
| Ysgol Ffridd y Llyn | £3,283 |
| Ysgol Beuno Sant | £3,519 |

*Nododd y gynulleidfa bod y ffigyrau uwch yn seiliedig ar niferoedd Medi 2009. Gofynnwyd am lwfans y pen i'r chwe ysgol yn seiliedig ar niferoedd Medi 2010 ac i'r wybodaeth yma gael ei chyflwyno i'r aelodau etholedig.*

*Nododd bod yr ysgol wedi darparu ar gyfer mwyafrif o 30 o ddisgyblion, ac nid 27 fel y nodir yn y ddogfen.*

*Gofynnodd y gynulleidfa pam bod y pennaeth yn parhau â statws dros dro ar ôl bod yno ers 4 blynedd? Nodwyd ei bod yn embaras i'r pennaeth, ac yn cael ei gyfleu fel pwynt negyddol yn y ddogfen.*

Eglurodd y Pennaeth Addysg fod rhaid i bennaeth gael cymhwyster penodol ac er bod pennaeth y Parc wedi ennill y cymhwyster, mae trafodaethau am y mater wedi cychwyn ond heb fynd ymhellach. Nodwyd bod y pwynt wedi'i gynnwys yn y ddogfen oherwydd ei fod yn ffactor yn y strategaeth ad-drefnu.

**Ystyried Dewisiadau, Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir ac Anfanteision y Dewis a Ffafrir**

*Nododd y gynulleidfa fod 50% o lefydd gweigion yn Ysgol Bro Tryweryn. Pam na all y Parc ddim cael yr un cynnig? Pam ddim cynnwys y Parc fel rhan o'r fid? A oes rhaid cau'r Parc i gael yr Ysgol Gydol Oes?*

Eglurwyd mai cais i'r Cynulliad am yr arian i'r dalgylch cyfan a gyflwynwyd. Nododd Deilydd y Portffolio Addysg bod swyddogion y Cynulliad wedi cwestiynu nifer ysgolion a fyddai'n cau yn ardal y Tywyn. Mae pryderon yn bodoli am nifer yr ysgolion i'w cau. Y gwahaniaeth gydag Ysgol Bro Tryweryn yw bod posibilrwydd iddi godi allan o warchodaeth yn y blynyddoedd nesaf. Nodwyd bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i gadw Ysgol y Parc yn agored.

Teimlad y gynulleidfa oedd bod pobl y Bala yn gallu cyrraedd pob gwasanaeth yn hwylus, ond prin yw'r gwasanaethau eraill sydd ar gael i bobl y Parc am eu treth Cyngor. Rhaid cofio ystyriaeth y Gymraeg. Tu allan i oriau ysgol does dim gweithgareddau cymunedol gan Ysgol Bro Tryweryn ond yn y Parc mae defnydd helaeth o'r ysgol a byddai cau'r ysgol yn bygwth hyn.

*Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd petai'r cais ariannol yn aflwyddiannus?*

Eglurwyd bod y Cyngor yn gweithio ar y dybiaeth y byddai'r cais yn llwyddiannus. Anfonwyd y cais ym mis Rhagfyr; disgwylir derbyn ymateb cychwynnol y Cynulliad erbyn diwedd Ionawr a'r ateb terfynol yn fis Mai (dyna ddeallwn ar hyn o bryd).

*Gofynnodd y gynulleidfa a olyga hyn y byddai bob ysgol fach yn cau? A yw'r trafodaethau wedi cynnwys materion dyfnach fel effaith ar gymuned, plant a theulu?*
*Dywedodd aelod o'r gynulleidfa fod niferoedd yn y Parc yn mynd i gynyddu gan fod cyn-ddisgyblion yn dychwelyd i'r ardal.*

*Gofynnwyd beth fyddai costau teithio swyddogion Cyngor Gwynedd am flwyddyn? Tynnwyd sylw at nifer y ceir yn y maes parcio.*

Ymatebodd y swyddog cyllid nad oedd gwybodaeth am gostau teithio swyddogion Cyngor Gwynedd ganddo wrth law.

*Nododd aelod o'r gynulleidfa fod cefnogaeth llywodraethwyr a'r gymuned yn lleihau baich y pennaeth. Does dim anhawster i gael y gymuned i gymryd rhan gyda'r ysgol yn y Parc. Gofynnwyd a oes ystyriaeth wedi bod i gynyddu baich Prifathro Ysgol O.M.Edwards? Gyda sioe gyda'r nos bydd rhaid dod i'r Parc i berfformio. Mae agweddau cymunedol yn ogystal â dysgu.*

Dywedwyd bod gofyn ystyried amodau gwaith penaethiaid. Cynhyrchwyd dogfen gan benaethiaid cynradd y Sir yn dynodi y byddent yn awyddus i gael 0.5 o'r wythnos yn ddigyswllt er mwyn cyflawni tasgau arwain a rheoli.

*Dywedodd y gynulleidfa eu bod wedi cefnogi'r opsiwn cyntaf (ffederaleiddio) ers dechrau'r broses. Crybwyllwyd bod pobl Y Bala wedi'u camarwain yn y drafodaeth ar uwchraddio Y Berwyn ac nid adeilad hollol newydd fydd yno.*

Eglurwyd bod newidiadau wedi eu gwneud i'r cais am adnoddau yn dilyn y newid mewn llywodraeth a'r toriadau.

**Effaith y Cynnig Hwn a Phwrpas yr Ymgynghori**

Crybwyllwyd y manylion cyswllt er mwyn cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ond oherwydd bod rhieni yn cyrraedd am y cyfarfod nesaf, penderfynwyd gadael iddynt ymuno a dechrau'r cyfarfod nesaf.

**Diolch a Cloi**

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r gynulleidfa am fynychu ac am eu cyfraniad.

## CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL Y PARC
## 10 Ionawr 2010 19:05
## CYFARFOD RHIENI

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd 54 o bobl yn bresennol yn y gynulleidfa yn cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion, cyn ddisgyblion ac aelodau'r gymuned. Cyrhaeddodd rhagor yn ystod y cyfarfod. Roedd cyfieithydd yn bresennol.

### Croeso a Chyflwyniadau

*Cyflwynwyd y Pennaeth Addysg a'r Deilydd Portffolio Addysg gan Bennaeth Ysgol y Parc ac eglurwyd mai'r Pennaeth Addysg fyddai'n cadeirio'r cyfarfod gyda chytundeb y llywodraethwyr. Eglurwyd y byddai'r swyddogion yn cyflwyno'u hunain wrth ymateb i sylwadau neu gwestiynau. Eglurwyd bod cais i gofnodi'r cyfarfod ar fideo wedi'i wrthod oherwydd anghytundeb. Nododd y byddai clerc y llywodraethwyr yno i gofnodi, os byddai wedi rhagweld yr anghytundeb yma. Mae cytundeb i dderbyn cofnodion y tri chyfarfod erbyn diwedd yr wythnos.*

Diolchodd y Pennaeth Addysg am y cyflwyniad a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Ymddiheurodd am beidio â gorffen cyfarfod y llywodraethwyr ond yn deall eu bod yn aros am y cyfarfod yma fyddai'n trafod yr un ddogfen. Eglurodd fod y cyfarfod yn gyfle i bawb gymryd rhan yn y drafodaeth ac y byddai'r cofnodion ar gael i'r pennaeth eu gwirio.

## Y Cynnig a'r Ymgynghoriad Statudol

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg ac eglurwyd y cynnig sydd dan sylw sef cau Ysgol y Parc a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol O.M.Edwards, Llanuwchllyn. Bydd lle yn cael ei ddarparu i rieni fynd â'u plant i Ysgol O.M.Edwards ond dewis agored i rieni fydd hyn. Dywedodd fod copïau sbâr o'r ddogfen ymgynghorol statudol petai eu hangen ar rywun yn y gynulleidfa. Nododd fod croeso i bawb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i reolwr y prosiect ad-drefnu ysgolion erbyn dydd Gwener 4 Chwefror 2011. Bydd cyn ddisgyblion Ysgol y Parc yn cael eu cynnwys yn sesiwn ymateb Ysgol Y Berwyn ond mae cais eisoes wedi ei wneud i'w cynnwys yn yr ymgynghori efo'r plant yn Ysgol y Parc.

*Gofynnwyd pwy fyddai'n didoli'r sylwadau ac at bwy fyddent yn mynd?*

Eglurwyd mai swyddogion ad-drefnu ysgolion fyddai'n dadansoddi'r ymatebion a byddai adroddiad yn cynnwys y dadansoddiad yn cael ei gyflwyno i aelodau pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd y Cyngor a'r Cyngor llawn. Yn ogystal â hyn fe drefnir y bydd yr ohebiaeth gyfan ar gael ar gyfer yr Aelodau etholedig.

Nodwyd bod y cynnig wedi ei ddatblygu gan Weithgor Gwella 2 Ebrill 2009 ar sail strategaeth a luniwyd ac a gafodd ei mabwysiadu. Cynhaliwyd pump cyfarfod o'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) wrth baratoi'r cynnig. Eglurwyd bod y cynnig nawr wedi cyrraedd y cyfnod statudol.

## Cyflwyniad

Eglurodd y Pennaeth Addysg fod cyflwyniad gan y swyddogion i drafod y cynnig ac i atgoffa pawb o brif bwyntiau y PAD sef ystyried y dalgylch cyfan a'r weledigaeth.

Cyflwynwyd rhai pwyntiau gan y Pennaeth Addysg am y weledigaeth ddalgylchol. Bydd buddion i ddisgyblion y Parc yn deillio o'r Campws Gydol Oes yn y Bala a bydd patrwm cydweithio rhwng yr ysgolion gwledig fydd ar ôl. Un rhan o'r cysyniad a ddatblygir yw patrwm cydweithio o fewn yr ardal gyfan. Cyhoeddwyd gan y Cynulliad ofynion ysgolion yr unfed ganrif ar hugain i ddisgyblion heddiw a disgyblion y dyfodol. Sail yr ymgynghori yw creu ysgolion sydd yn darparu addysg sydd yn cyd-fynd â'r gofynion yma. Nodwyd byddai rhaid cael trefn addysg gynaliadwy yn y dalgylch. Bwriedir crynhoi cyfleusterau o amgylch disgyblion a rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau plant a theuluoedd.

Cyflwynwyd dwy sleid gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol yn amlinellu'r newidiadau sydd dan sylw ar gyfer Ysgol O.M.Edwards Nodwyd fod angen gwaith i wella'r ddarpariaeth parcio, codi a gollwng plant o'r cerbydau. Mae angen ystafell i'r staff, gofod adnoddau dysgu, gwaith ar y neuadd, mesurau i leihau defnydd ynni, peth gwaith i uwchraddio'r gegin, uwchraddio'r cysylltiadau TG, uwchraddio'r gofod cyfnod sylfaen, gwella cyfleusterau toiledau anabl (i ddisgyblion, rhieni ac unrhyw ymwelwyr).

*Gofynnwyd beth fyddai cost yr holl uwchraddio i Ysgol O.M.Edwards? Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa pam bod y gwariant yma yn cael ei wneud ar Ysgol O.M.Edwards oherwydd na fyddai llawer o ddisgyblion y Parc yn mynd yno, gyda rhieni yn dewis eu hanfon i'r Bala. Nodwyd y dylai'r Cyngor wrando mwy ar rieni a gwario'r arian yma ar Ysgol y Parc.*

Nodwyd fod y gost yn debygol o fod oddeutu £800,000-£900,000 a bod cais wedi mynd at y Cynulliad.

*Gofynnwyd beth fydd yn digwydd petai'r cais ariannol yn methu?*

Eglurwyd bod y Cyngor yn gweithio ar y dybiaeth y byddai'r cais yn llwyddiannus. Anfonwyd y cais ym mis Rhagfyr. Disgwylir derbyn ymateb cychwynnol y Cynulliad erbyn diwedd Ionawr a rhagwelir ateb terfynol cyn yr Haf. Dywedwyd bod angen cyflwyno cynigion strategol er mwyn bod yn llwyddiannus.

*Gofynnwyd beth fyddai cost Ysgol y Parc? Gofynnwyd am restr beth fyddai angen ei uwchraddio yn Y Parc a'i gostio i allu cymharu gydag uwchraddio Ysgol O.M.Edwards.*

Atebodd y Rheolwr Eiddo Corfforaethol drwy nodi y byddai angen gwariant o £75,000 ar agweddau cyflwr yn unig

*Gofynnodd un aelod o'r gynulleidfa ym mha ddogfen yr oedd y ffigwr yma a pryd gafodd yr arolwg ei wneud. Os daw'r ffigwr o'r ddogfen ddwy dudalen y mae'r gynulleidfa eisoes wedi ei gweld, nid oes dyddiad ar y ddogfen felly nid yw'n glir pa bryd gafodd yr arolwg ei wneud.*

Atebodd bod yr arolwg yn cael ei wneud yn flynyddol a dangoswyd y ddogfen, cytunwyd nad oedd dyddiad arni. Cytunwyd y byddai'r swyddog eiddo yn ymchwilio ymhellach i hyn ac yn anfon copi o'r arolwg at y Pennaeth.

*Nododd y gynulleidfa y dylid bod wedi amlygu yn gynt y ffaith bod Ysgol O.M.Edwards angen yr holl waith, a hynny fis Gorffennaf diwethaf. Ar y pryd dywedwyd bod digon o le i ddisgyblion y Parc yno, heb uwchraddiad.*

Atebwyd nad oedd manylion ar gael ar y pryd.

*Mynegwyd anfodlonrwydd gan un aelod o'r gynulleidfa dylai'r manylion fod wedi eu cyhoeddi yn gynt fel bod y cynghorwyr yn ymwybodol o'r ffeithiau. Efallai y byddai gan rai cynghorwyr farn wahanol o ddilyn y wybodaeth yma ac y dylai'r wybodaeth yma fod wedi bod o flaen y Cyngor yng Ngorffennaf 2010. Awgrymwyd bod y Cyngor wedi cael ei gamarwain yn y mater hwn.*

Eglurwyd mai cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod y ddogfen oedd y cyfarfod yma.

*Nododd y gynulleidfa mai cyfle i'r gymuned ofyn cwestiynau a chyfle i'r Deilydd Portffolio Addysg eu hateb oedd y cyfarfod.*

Atebodd y Deilydd Portffolio Addysg ei bod yn clywed y pryderon ac yn dweud y byddai lle i'r plant yn Ysgol O.M.Edwards cyn cau Ysgol y Parc. Ni fyddai'n deg cau cyn bod lle priodol ar eu cyfer.

*Pwysleisiodd un aelod o'r gynulleidfa y byddai'r wybodaeth yma o bosib wedi newid meddyliau rhai cynghorwyr, a dim ond 5 pleidlais o wahaniaeth oedd rhwng y penderfyniad. Roedd y wybodaeth yma'n bwysig iawn a chreda'r unigolyn bod y cynghorwyr wedi'u camarwain.*

*Gofynnwyd i'r Deilydd Portffolio Addysg a oedd yn bresennol yn y cyfarfod pan ddywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod lle yn Ysgol O.M.Edwards? Gofynnwyd a yw'r swyddogion yn fodlon cyfaddef fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi dweud hyn mewn pwyllgor? Nodwyd bod aelodau'r gymuned wedi ceisio cael gafael ar gofnodion y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc cyn y Nadolig a methu cael gafael arnynt – pryd fyddai'r rhain ar gael?*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg nad oedd yn sicr am union gyd-destun sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i allu ymateb i'r sylwadau. Eglurwyd bod cofnodion pwyllgorau fel rheol ar gael ar y we cyn y cyfarfod sydd yn dilyn, sef oddeutu dau fis.

*Derbyniwyd cais gan aelod o'r gynulleidfa i orffen trafod Ysgol O.M.Edwards a symud ymlaen.*
*Codwyd gan un aelod o'r gynulleidfa bod y cynlluniau yn Y Bala wedi bod yn gamarweiniol. Adeilad newydd oedd bod a nawr uwchraddio adeiladau'r Berwyn fyddai'n digwydd.*

Eglurwyd bod newidiadau yn y cais cyfalaf wedi gorfod digwydd yn dilyn y newid mewn llywodraeth a'r toriadau. Nid oedd gymaint o ryddid gan y Cyngor. Roedd yn rhaid gwneud cais ariannol rhesymol fyddai yn debygol o lwyddo.

*Nodwyd gan un o'r gynulleidfa bod cyfarfod wedi digwydd yng Nghaernarfon gyda'r Deilydd Portffolio Addysg a Cyng. Dyfed Edwards, pan roddwyd amser yn wirfoddol gan aelodau'r gymuned. Yn ystod y cyfarfod yma cyflwynwyd cais i gadw Ysgol y Parc yn agored nes yr agorir yr Ysgol Gydol Oes. Nid oes unrhyw ymateb neu sôn am y cais yma wedi bod. Teimlad bod gormod o bwyslais ar y dyddiad 2012. A fyddai'r Deilydd Portffolio Addysg yn fodlon argymell cadw'r Parc yn agored nes yr agorir yr Ysgol Gydol Oes - er tegwch i'r disgyblion? Dylai'r Ysgol Gydol Oes fod yn barod fel bod dewis yn bodoli i rieni yrru eu plant yno. Datganwyd gan un aelod, "Os bydd yr Ysgol yn y Bala mor ffantastig, wrth gwrs byddai rhieni eisiau gyrru eu plant yno - ond, os na fydd, bydd problem fawr gyda'r ysgol newydd."*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg ei bod yn gwrando ar farn y gymuned yn y cyfarfod yma ac yn nodi'r sylwadau yma.

## Ystyried Dewisiadau, Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir ac Anfanteision y Dewis a Ffafrir

*Eto gofynnwyd beth fyddai'n digwydd pe fyddai'r cais ariannol yn methu?*

Eglurwyd eto bod y cyngor yn gweithio ar y dybiaeth y bydd y cais yn llwyddiannus. Cafodd y cais ei yrru ym mis Rhagfyr, bydd ymateb cychwynnol y Cynulliad yn cael ei dderbyn erbyn diwedd Ionawr a disgwylir ateb terfynol cyn yr Haf. Dywedwyd bod yr holl gynllun yn dibynnu ar dderbyn yr arian. Os na dderbynnir yr arian eglurodd y Deilydd Portffolio Addysg y bydd yn rhaid ail ystyried sefyllfa'r dalgylch cyfan. Os na dderbynnir yr arian bydd y broses fel y mae yn gorffen ond rhaid cadw mewn cof bod ysgolion y dalgylch, fel y maent, yn anghynaladwy felly bydd raid i newidiadau ddigwydd o dan strategaeth arall. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol fod disgwyliad y bydd yr arian yn ei le cyn fydd y Cyngor yn gallu cyhoeddi rhybuddion statudol.

*Nododd y gynulleidfa bod penaethiaid ysgolion eraill y dalgylch yn fodlon cydweithio ac nad oedd yr opsiwn yma wedi ei ystyried yn ddigon gofalus. Mewn cyfarfod dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg wrth y cynghorwyr am "beidio peryglu cynllun Y Bala trwy beidio cau'r Parc". Pam gwneud penderfyniad i gau'r Parc nawr? Oes agenda cau ysgolion bach?*

Eglurodd y Deilydd Portffolio Addysg bod neges wedi ei dderbyn gan y Cynulliad, wedi ad-drefnu Tywyn, bod rhaid bod yn fwy radical a chau ysgolion. Cyflwynwyd cais am arian i ail wneud Ysgol Y Groeslon oherwydd safon isel yr adeilad a methodd y cynnig oherwydd bod o ddim yn strategol o safbwynt ystyried addysg y cylch. Ymatebodd y Pennaeth Addysg bod yn rhaid cyflwyno cais ariannol ar y pryd oherwydd na fyddai'r cyfle arall am dair blynedd. Rhaid cadw mewn cof bod Siroedd eraill yn gwneud ceisiadau a bod rhai ohonynt yn geisiadau parod.

*Nid dyma'r neges a dderbyniwyd y gynulleidfa gan Nerys Evans o'r Cynulliad yn yr Eisteddfod. Dywedwyd nad bwriad y Cynulliad yw cau ysgolion cynradd ond mai penderfyniad i'r siroedd ei hunain ydyw.*
*Datganodd aelod o'r gynulleidfa bod posib cyfiawnhau cadw'r Parc ar agor ar sail y gymuned. Pan fydd ansicrwydd am ddyfodol ysgol (yn fwriadol neu beidio) mae'r ansicrwydd yn gallu arwain at rieni yn tynnu eu plant ohoni ac y byddai'n cau (e.e. Llawr y Betws) Er bod ansicrwydd am ddyfodol Ysgol y Parc nid oes unrhyw riant wedi tynnu ei phlentyn oddi yno, daeth bob plentyn derbyn newydd ym mis Medi 2010. Mae hyn yn dangos y math o gymuned sydd yn y Parc, bod cefnogaeth i'r ysgol yma.*

Atebwyd fod sefyllfa Llawr y Betws wedi bod yn drychinebus i'r plant, rhieni a staff.

*Ni chytunodd y gynulleidfa gyda diffiniad y swyddog o drychineb gan fod cais i wneud yr un peth i Ysgol y Parc.*

*Beth yw'r cais ariannol i'r Cynulliad a faint o arian Cyngor Gwynedd fydd yn cael ei ddefnyddio?*
Atebwyd bod gais am £10miliwn wedi ei gyflwyno a bod 70% gan y Cynulliad a 30% gan y Cyngor.
*Nododd y gynulleidfa mai gwariant o £200,000 o arian y Cyngor fydd yn mynd ar uwchraddio O.M.Edwards. Rhoddwyd cais am wybodaeth – faint o arian sydd wedi ei fuddsoddi yn y prosiect ad-drefnu hyd yma? Nododd bod nifer o geir a swyddogion yn bresennol.*

Ymatebwyd mai 30% o'r holl wariant yn y dalgylch fydd y Cyngor yn ei ariannu ac mai arian penodol, arian SCIF, sydd yn ariannu'r prosiect ad-drefnu yn 2010/11.

*Datganodd y gynulleidfa fod ffigwr cludiant yn y ddogfen yn anghywir. Fydd costau bysiau a thacsis yn cynyddu oherwydd prisiau petrol.*

Ymatebodd y Rheolwr Cyllid bod cynnydd ar brisiau ynni adeiladau hefyd. Cytunwyd y byddai'r ffigwr yn cael ei wirio a'i newid os yw'n anghywir.

*Pryderon ynglŷn â'r trefniadau cludiant. Sut yn union y disgwylir i'r plant gyrraedd Llanuwchllyn? Fydd bysiau neu dacsis? Fydd un bws neu fwy? Mae'r gynulleidfa wedi gofyn i 2 gwmni allanol sydd wedi datgan na fyddent yn gwneud y gwaith am lai na £22,000 - mae ffigwr y ddogfen yn gamarweiniol. Soniwyd am amser teithio o 30 munud pan fydd rhai o'r disgyblion yn teithio am 45munud. Bydd arbedion o gau'r ysgol yn cael ei wario ar gludo'r plant. Ar 28.11.10 gwnaed cais trwy Reolwr y Prosiect Ad-drefnu Ysgolion am i'r Swyddog Cludiant ymateb 'r sefyllfa fel bod ganddo adroddiad wedi ei baratoi erbyn y cyfarfod ymgynghorol hwn, a gwnaed cynnig hefyd i'r Deilydd Portffolio Addysg, i gynrychiolydd /ŵyr lleol fynd gyda'r Swyddog Cludiant i weld lleoliad cartrefi a chyflwr y ffyrdd. Nid yw'r swyddogion cludiant yn gwybod yn union le mae'r plant i gyd yn byw. Nid yw yn ymwybodol o gartrefi disgyblion y dyfodol.*

Nodwyd fod gan y Swyddogion Cludiant ddulliau penodol a chyson o sefydlu anghenion teithio. Byddai cais iddynt wrth gadarnhau'r ffigyrau ystyried amgylchiadau'r cynnig ar gyfer y Parc.

*Pryderon ynglŷn â'r trefniadau cludiant. Sut yn union y disgwylir i'r plant gyrraedd Llanuwchllyn? Fydd bysiau neu dacsis? Fydd un bws neu fwy? Nid yw llawer o'r gynulleidfa yn gyffyrddus gyda rhoi plant 4 oed ar fws heb oruchwyliwr. Beth fyddai'n digwydd yn y tywydd garw? 1 diwrnod yn y ddwy flynedd diwethaf oedd Ysgol y Parc ar gau oherwydd eira - mae rhieni yn fodlon defnyddio'u 4x4 i gael eu plant i'r ysgol. Ni fyddent yn fodlon mynd yn bellach na'r Parc i'w danfon- rhy gostus gyda phrisiau petrol. Beth am ddigwyddiadau tu allan i'r oriau ysgol e.e. yr Urdd - fydd bws hwyrach i'w danfon adref? Rhaid costio'r cludiant yn iawn a gwneud archwiliad gan y swyddogion mor fuan â phosib fel bod y cynghorwyr yn gallu cael y wybodaeth cyn gwneud eu penderfyniad. Rhoddwyd cais i un o'r llywodraethwyr fynd gyda'r swyddogion cludiant. Gofynnwyd a fyddai plant uwchradd a chynradd yn cael eu cludo ar yr un bysiau? Nid yw mynedfa Ysgol O.M.Edwards yn dderbyniol i ddanfon plant o fysiau fel y mae.*

Ymatebwyd bod rhai digwyddiadau tu allan i'r ysgol yn cael eu noddi gan grantiau. Bydd rhaid ystyried y plant yng nghyd â'r polisi cludiant sydd yn bodoli ar draws y Sir. Nodwyd bod disgyblion cynradd ac uwchradd yn rhannu cludiant mewn rhai ardaloedd yn y Sir. Cytunodd y Pennaeth Addysg i ofyn i'r swyddogion cludiant gwblhau'r archwiliad mor fuan â phosib. Nododd bod y ffurf mae'r swyddogion yn gwneud yr archwiliad yn safonol. Cytunwyd i sicrhau bod y swyddog cludiant yn cysylltu â phennaeth y Parc cyn dechrau'r archwiliad - rhoddwyd yr addewid yma. Hefyd mae'r polisi cludiant yn weithredol ar draws y sir yn barod ond derbyniwyd pryderon y rhieni. I leihau pryderon rhieni yn nalgylch Tywyn awgrymwyd cyflogi goruchwyliwr am un tymor. Caiff trefniant o'r un fath ei ystyried yn yr achos yma.

*Nododd un aelod o'r gynulleidfa bydd hyn yn wariant pellach all gael ei ddefnyddio i gadw'r ysgol ar agor.*
*Cywirodd y gynulleidfa ffigwr anghywir 3 gwaith eisoes ac mae'r camgymeriad yn dal i fodoli yn y ddogfen - 3.4 milltir o giât Ysgol y Parc sydd i Lanuwchllyn. Mae'r gwir bellter teithio i'r mwyafrif o'r plant ymhellach. Mynegwyd siomiant bod y cywiriadau ddim yn cael eu gwneud.*

*Rhestrwyd amcanion y Cyngor a welir ar lythyr clawr y ddogfen statudol: Parch, Gwasanaethu, Positif, Gweithio Fel Tîm a Gwerth am Arian. Nid oedd y gynulleidfa yn meddwl bod y Cyngor yn gweithredu'r rhain o ran cymuned y Parc.*

*Gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg os yw'r brwdfrydedd a'r teyrngarwch sydd yn ymddangos yn y cyfarfod i gadw'r ysgol ar agor wedi ei weld o'r blaen? Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r gymuned.*

*Adroddiad Dylan Bryn ar effaith ieithyddol yn dangos y byddai yn cael effaith bositif ar y plant ond nid ar yr ardal. Cyflwynwyd gwaith ymchwil gan un o aelodau'r gymuned am iaith yr ardal. O'i wybodaeth leol mae 90% o'r Parc yn siarad Cymraeg ac wrth ddefnyddio ystadegau 2001 am Lanycil dim ond 78% sydd yn siarad Cymraeg. Datganwyd bod yr unigolyn yn Gymro cul - ddim ond yn cyfri rhywun yn Gymro os yw'n gallu siarad Cymraeg. Nodwyd bod cadw'r iaith yn bwysicach na dim arall. Os caeir yr ysgol ni fydd y Parc yn denu rhieni ifanc newydd, byddai'r ardal yn llenwi gyda thai haf a fwy o bobl Ddi-Gymraeg yn yr ardal. Datganwyd ystadegau bod cyfartaledd ffermwyr yr ardal o dan 50oed a llawer o unigolion yn rhedeg eu busnesau eu hunain. Nid yw'n deall sut all y Cyngor ddim sylweddoli hyn. Nododd y medra'r gynulleidfa ddweud eu bod wedi gwneud eu gorau i'r Iaith Gymraeg, ond gofynnwyd a yw'r unigolyn ochr arall i'r bwrdd (swyddogion y Cyngor) yn gallu dweud yr un fath?*

Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio Addysg at yr ardrawiad iaith a chymunedol.

*Ymatebodd y gynulleidfa nad yw'r dogfennau ddim yn berthnasol i'r Parc oherwydd eu bod yn cyfeirio at ardal Penllyn i gyd yn hytrach na'r Parc yn uniongyrchol. Gofynnwyd am ardrawiad ar y Parc yn uniongyrchol, ar effaith symud y plant i Ysgol O.M.Edwards ac/neu i'r Bala. Nodwyd gan un aelod y byddai nifer o'r gynulleidfa wedi gwirfoddoli amser i wneud ymchwil ond ni ofynnwyd i neb am unrhyw beth.*

*Codwyd pwynt am y cylch meithrin – ni fydd cylch meithrin Maesywaun yn bodoli os caeir Ysgol y Parc.*

*Gofynnwyd am gywiro'r ddogfen – cylch meithrin sydd yn bodoli.*

*Gofynnodd plentyn yn y gynulleidfa a ystyrir teimladau'r plant yn y cais. Dywedodd eu bod yn hapus ac yn cael buddion na fyddent yn cael mewn ysgol fwy e.e. caiff bob plentyn linell yn y sioe Nadolig. Cymeradwywyd un aelod o'r gynulleidfa wrth ddweud mai'r gorau ym mhob achos fyddai'n cael ei ddewis, fydd yn meddwl caiff disgyblion y Parc ail. Nododd un aelod ei bod yn amlwg pa fath o blant sydd yn cael ei magu gan Ysgol y Parc - rhai sydd yn fodlon i sefyll i fynnu a siarad mewn ystafell llawn dynion dieithr mewn siwtiau. Aeth ymhellach i ddweud nad yw'n tynnu oddi ar ysgolion eraill ond rhoddwyd cyfleusterau a'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion bob amser.*

## Ysgol y Parc

*Nododd y gynulleidfa fod gwirfoddolwyr wedi gweithio yn yr ysgol yn y gorffennol i wneud yn siŵr bod digon o staff ar gael. Nodwyd mai 19 o ddisgyblion sydd yn mynychu ar hyn o bryd. Derbyniwyd cais i ddileu pwynt 5.10 y ddogfen.*

Cytunwyd y byddai'r frawddeg briodol yn cael ei wirio a'i newid os oes angen.

*Gofynnodd y gynulleidfa am wybodaeth ynglŷn â chyfradd lwfans y pen ar draws holl ysgolion Gwynedd.*

Ymatebwyd gan y Rheolwr Cyllid bod cyllideb y pen yn gallu cael ei weld ar ddu a gwyn yn seiliedig ar ffigyrau 2010-2011, mewn dogfen fydd yn cael ei hanfon i bob Ysgol y Sir yn ystod y pythefnos nesaf ac mae'r ddogfen eisoes ar safle we'r Cyngor.

*Nododd un o'r gynulleidfa bod yr ardalwyr yn talu treth Cyngor am gasglu biniau,( ar ôl iddynt mewn rhai achosion eu danfon filltir a hanner i'r brif ffordd,) am raeanu un ffordd yn unig ar adegau o dywydd*

*gaeafol, ac am Yr Ysgol. Y prif werth am arian i'r gymuned yw'r addysg leol i'w phlant a'r defnydd cymunedol wneir o'r Ysgol a'r Neuadd.*

*Gofynnwyd a fyddai'r swyddogion sy'n bresennol yn argymell cau'r Parc?*

Atebwyd nad lle'r swyddogion yw datgan hyn ond, y gwir yw, fod yn rhaid ystyried beth yw'r gorau i ddyfodol addysg y Sir. Mae dogfen 17 pwynt bwled wedi ei chynhyrchu gan benaethiaid cynradd Gwynedd yn datgan bod penaethiaid yn rhwystredig ar hyn o bryd. Mae risg sylweddol nawr i ofyn beth a benderfynir mewn dau fis arall.

Nododd Rheolwr y Gwasanaeth cyfreithiol nad yw'n briodol gofyn i'r swyddogion ragdybio'i argymhelliad ar yr ymgynghoriad – nid yw'r broses wedi ei gorffen.

*Datganodd y gynulleidfa na fydd yn deg os na dderbynia pob cynghorydd gofnodion cyfarfodydd heno a'u darllen. Mae llawer o bwyntiau wedi codi yn cywiro camgymeriadau a dylai bod y cynghorwyr yn ymwybodol ohonynt cyn gwneud eu penderfyniad.*

Bydd y cynghorwyr yn derbyn y cofnodion fel rhan o'r ddogfennaeth ar gyfer penderfynu ond mater i'r aelodau yn unigol ydi darllen y dogfennau.

*Nodwyd gan aelod o'r gynulleidfa bod y broses ad-drefnu yn y dalgylch wedi cael ei gwneud yn oeraidd a hyn wedi creu siom ofnadwy yn lleol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cofnodi – mae llawer o 'anghywirdebau' wedi cael ei gwneud a dim cyfle gan y gymuned i'w cywiro. Mae camgymeriadau wedi eu canfod yn y gorffennol a phan fyddai aelodau o'r gymuned yn llythyru neu e-bostio dim ond "cydnabyddiaeth derbyn yr ohebiaeth" yn unig ddeuai i law.*

*Gofynnwyd gan blentyn a oes gan y swyddogion unrhyw deimlad o sut mae'r gymuned yn teimlo? Datganwyd eu bod methu cysgu yn poeni am ddyfodol Ysgol y Parc.*

*Derbyniwyd cais i ddangos y ffigyrau ariannol yn glir - fydd cau yn arbed 'X' ond fydd rhaid gwario 'X'. Faint o effaith fydd cau Ysgol y Parc yn cael ar ysgolion Caernarfon? Oes ffigwr i'w gael?*

Ymatebwyd nad oes ffigwr ar yr effaith i ysgolion Caernarfon.

*Ail nodwyd fod y ffigwr teithio yn anghywir.*

Mi fydd y ffigwr yn cael ei wirio a'i newid os yw'n anghywir.
*Ymholiad a yw'r cais am arian i'r Cynulliad ar gael ar y we? Oes pwynt cyswllt ar gael i gywiro unrhyw gamgymeriadau arno?*

Roedd y swyddogion yn credu eu bod ar gael gan y Cynulliad.

*Ydi barn y Parc yn cael ei glywed heno?*

Ymatebodd y Deilydd Portffolio Addysg fod barn y gynulleidfa yn dod drosodd yn glir. Ychwanegodd bod yn rhaid cadw balans o fewn y dalgylch a'r Sir gyfan. Hefyd mae'r Awdurdod Addysg yn bryderus am sefyllfa bresennol Ysgol Uwchradd Y Berwyn.

Nododd y gynulleidfa nad bai'r Parc yw diffygion Ysgol y Berwyn. "Ydych chi'n dweud bod rhaid cau'r Parc i alluogi'r newidiadau yn y Bala ac arbed Y Berwyn?" Sylwyd fod drwgdeimlad yn y Bala hefyd gan na wireddir yr adeilad newydd - a rhaid bodloni nawr ar addasiadau o adeiladau presennol Ysgol y Berwyn.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg y byddai buddion Y Bala yn rhoi budd i blant y Parc oherwydd i'r Berwyn y byddent yn mynd maes o law.

## Cyflwyniad

Aethpwyd yn ôl i'r cyflwyniad ar gais y gynulleidfa am y wybodaeth am y campws gydol oes bwriedid ei rannu yn gynt.

Cyflwynodd yr ymgynghorydd wybodaeth am y bwriad yn y Bala. Wrth gyfuno'r ddarpariaeth yn y Bala bydd bosib creu darpariaeth addysg yn cyd-fynd â gofynion ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Bydd buddion i ddisgyblion y Parc fel holl ddisgyblion yr ardal. Bydd ardal Penllyn i gyd yn cael buddion o'r neuadd berfformio newydd. Bydd math newydd o ysgol yn cael ei chreu, ysgol gyda disgyblion o 3-19 oed gyda 1 pennaeth a 1 corff llywodraethwyr. Pwyllgor rheoli lleol, fydd yn cael ei arwain gan bennaeth yr ysgol fydd yn gyfrifol am redeg y cyfleusterau sydd ddim yn addysgol e.e. llyfrgell gyhoeddus. Fydd pwyslais mawr yn cael ei rhoi ar gydweithio yn y dalgylch. Bydd gwerthoedd sylfaenol yn bwysig yn y datblygiad i gadw'r Iaith Gymraeg ac i greu adnodd fydd yn darparu addysg o'r safon uchaf. Mae grŵp defnyddwyr wedi ei greu ac yn y dyfodol agos a'r gobaith yw ehangu'r aelodaeth a gobeithiwn y bydd rhai ohonoch yn y gynulleidfa yn rhan ohono.

*Fydd hon yn ysgol newydd fel Cae Top (Bangor)?*

Cyflwynwyd sleidiau gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol yn dangos cysyniad cychwynnol o'r bwriad. Eglurwyd y bwriedir codi adeilad addysg gynradd newydd (fel Cae Top), canolfan dechnoleg newydd yn lle'r adeiladau is-safonol presennol Y Berwyn, y neuadd yn cael ei uwchraddio'n sylweddol ac adeilad presennol Ysgol Beuno Sant yn cael ei uwchraddio fel cartref newydd i gyfleusterau cymunedol.

*Felly a fydd labordai a ffreutur y Berwyn yn aros yr un peth? Os bydd y ffreutur yn aros yn yr un lleoliad bydd raid i'r disgyblion cynradd gerdded yn bell o safle'r ysgol gynradd newydd i gyrraedd yno. Faint o ddisgyblion fydd yr ysgol gynradd yn gallu derbyn?*

Bydd y labordai, yn aros yr un fath. Ar hyn o bryd mae'r ffreutur yn aros yn yr un lle ond bydd angen mwy o drafodaeth. Pwysleisiwyd mai cysyniad cychwynnol yw'r cynllun yma. Bydd yr adran gynradd yn ddigonol ar gyfer y nifer sydd yn ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid nawr gyda 10% ychwanegol.

*O edrych ar y cynllun safle mae'n ymddangos y bydd raid i'r plant cynradd gael eu codi/gollwng o fysus yn yr un man â'r plant uwchradd, a bydd plant bach yn mynd i gerdded trwy'r maes parcio bysiau?*

Ni fydd plant yn cerdded trwy'r lle bysiau ar unrhyw gyfrif.

*Mae'n edrych fel bod Meirionnydd yn cael cam wrth gael ehangiad yn unig. Cofiai rhai o'r gynulleidfa am yr amser pan oeddynt hwy'n mynychu Ysgol Y Berwyn roedd plant yn teithio o Gorwen a Glyndyfrdwy ond, oherwydd diffygion adnoddau a staff dysgu, nid yw'r Berwyn heddiw yn denu'r disgyblion yr un fath.*

Nododd y Pennaeth Addysg i grynhoi bod trafodaethau cychwynnol y PAD wedi trafod adeilad hollol newydd ond wedi newid yn y sefyllfa economaidd ac mewn llywodraeth, rhaid bod yn rhesymol, roedd rhaid addasu mewn cydweithrediad ag aelodau lleol.

*Beth oedd barn penaethiaid Bala?*

Roedd siom yn amlwg ond deallwyd wedi egluro bod yn rhaid addasu'r cais i geisio gwneud yn siŵr na fyddem yn colli allan ar gyfle i gael £10 miliwn.

*Nododd un o'r gynulleidfa ei bod yn ymwybodol o lefydd wedi creu ysgolion gydol oes a chau'r ysgolion gwledig i gyd a symud y plant i'r trefi gan gyfeirio at enghraifft o'r Alban. Nid yw'n gweithio oherwydd nad oes gan y plant wreiddiau. Anodd iawn egluro gwreiddyn. Wedi cau'r ysgolion gwledig ni chawn eu hagor eto. Nid oedd yn cytuno gyda'r syniad. Caiff hunaniaeth ei golli.*

Eglurwyd mai opsiwn 3 oedd cau holl ysgolion cynradd y dalgylch. Ni chafodd yr opsiwn yma ei ddewis. Opsiwn dau sydd dan sylw yn y cynnig yma.

## Ystyried Dewisiadau, Ffactorau'n Cefnogi'r Dewis a Ffafrir ac Anfanteision y Dewis a Ffafrir

*Nodwyd nad oedd allwedd i egluro rhan o'r tabl ar dudalen 6 y Ddogfen Statudol. Sut mae deall effaith o -6.5 ar y gymuned heb allwedd? (Dwy linell isaf y tabl.)*

Cydnabuwyd a nodwyd y pwynt yma.

*Yn y ddogfen dywedwyd bod "ystod ehangach o staff" am fod ond 0.5 athro fydd yn fwy na staffio presennol Ysgol O.M.Edwards ac mae 2 staff yn y Parc. Mae manteision i athrawon mewn ysgolion llai, fwy o gyfleon i gymryd cyfrifoldeb a chael sgiliau ehangach. Nodwyd bod pwynt 7.2 am arbenigedd staff ychydig yn gamarweiniol.*

*A yw'n bosib ffederaleiddio?*

Mae hyn yn cael ei ystyried pan yw'n bosib ond craidd yr ymgynghoriad yw cynnig y Cyngor. Nodwyd gan Reolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol fod y broses ymgynghori yn gyfle i dynnu sylw at neu gyflwyno opsiynau eraill ar gyfer yr ysgol. Byddai raid i'r Cyngor ymateb i gynigion o'r fath wrth gloriannu canlyniad yr ymgynghoriad.

*Awgrymwyd efallai y dylai trafodaethau cyn y cyfnod statudol gael eu cynnal. A yw'n wir y bydd staff Y Bala yn gorfod ail drio am eu swyddi?*

Cofiwch mai'r delfryd yw creu addysg well i bawb yn y dalgylch.

*Nododd y gynulleidfa ei bod yn anodd iawn cael barn y gymuned drosodd mewn pwyllgorau a Bwrdd y Cyngor – a fyddai'n bosib cael aelod i sefyll a chyflwyno barn y gymuned? Mae angen cael cyfle i'r cynghorwyr glywed y ddwy ochr gan nad oes gwarant eu bod yn darllen yr ohebiaeth.*

Nid oedd hyn wedi bod yn rhan o drefn y Cyngor wrth ad-drefnu. Penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu fyddai caniatáu a byddai'n rhaid ystyried nifer o ffactorau. Awgrymwyd y dylai cais ysgrifenedig gael ei wneud gallai derbyn ystyriaeth.

Byddai holl ymatebion yr Ymgynghoriad ar gael i aelodau etholedig. Fel rhan o'r broses adrodd i'r drefn ddemocrataidd byddai swyddogion y Cyngor hefyd yn paratoi crynodeb a sylwadau ar yr ymatebion fydd ar gael i'r aelodau ond mater iddynt hwy yn bersonol ydi darllen y ddogfennaeth. Mae 75 aelod wedi eu hethol i wneud hyn.

*Gofynnwyd pwy sydd yn geirio'r ddogfen statudol oherwydd yn y manteision mae'r gair byddai ac yn yr anfanteision gallai. Nid yw'n gyson ac mae'n gadarnhaol yn y manteision.*

Ymatebwyd mai swyddog ad-drefnu sydd yn paratoi'r adroddiad.

## Effaith y Cynnig Hwn

*Petai'r Parc yn cau, beth fyddai'n digwydd i' adeilad?*

Mae'r Ganolfan Gymunedol ar les i'r gymuned ac mae perthynas agos rhwng adeilad yr Ysgol a'r Neuadd.

Mae'r Cyngor wedi datgan ei bod yn ddyletswydd gyfreithiol arnynt, petai'r Ysgol yn cau, i weithio gyda'r gymuned i gefnogi defnydd cymunedol ar y safle. O gau yr Ysgol, mae'n anorfod y byddai angen adolygu'r trefniadau yma mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Cymuned a'r Pwyllgor Rheoli. Mae'r Les yn cynrychioli amgylchiad cyfreithiol sydd mewn bodolaeth ond mae angen trafodaeth ynglŷn â ffurf posib y trefniant i'r dyfodol. Gall y drafodaeth yma ddigwydd mewn cyd-destun a dealltwriaeth heb ragfarn i'r broses statudol.

*Ydi'r sefyllfa yma wedi codi o'r blaen?*

Nac ydi - sefyllfa'r Parc yn wahanol i ysgolion eraill sydd wedi cau hyd yn hyn. Mae sefyllfa debyg ym Mryncrug. Does dim yn rhwystro dechrau'r trafodaethau nawr fel bod adroddiadau llawn yn barod i'w cyflwyno erbyn pwyllgorau a chyfarfodydd perthnasol y Cyngor.

*Cytunwyd i ddechrau'r drafodaeth nawr er mwyn i gynghorwyr sylweddoli eu bod yn un o'r canolfannau prysuraf Gwynedd. Nodwyd ei bod ychydig yn hwyr i ddechrau rhannu gwybodaeth nawr.*

Roedd y Deilydd Portffolio Addysg yn croesawu'r drafodaeth ar y pwnc hwn.

*Nododd aelod arall o'r gynulleidfa ei bod yn ymwybodol pan gaewyd Ysgol Llawr y Betws y rhoddwyd cynnig i'r gymuned rhoi cynllun busnes i allu cadw'r adeilad ond yn anffodus byddai wedi costio £100 yr wythnos oedd yn rhy ddrud iddynt.*

*Byddai'r gymuned yn hapus i drafod yr adeilad). Cytunwyd i'r pennaeth cysylltu â'r Rheolwr Eiddo corfforaethol i drefnu'r trafodaethau.*

*Soniwyd am ganlyniad ESTYN Ysgol O.M.Edwards yn y ddogfen ond nid am ganlyniad ESTYN y Parc, pam ddim?*
*Nododd y gynulleidfa fod staff am golli eu gwaith. Nid oes diweithdra yn yr ardal ond mae swyddi yn mynd yn llai a llai ac nid oes cyflogwr arall yn cyflogi 5 aelod staff felly bydd yn creu diweithdra yn yr ardal.*

Crybwyllwyd bod ymdrech i greu polisi amgen ar hyn o bryd a bod swyddogion personél eisoes wedi siarad yn y cyfarfod staff.

*Nodwyd pe fyddai'r Cyngor wedi edrych ar resymau yn y Berwyn am y diffyg disgyblion, flynyddoedd yn ôl, efallai na fyddai'r cais yma wedi codi.*

*Pam fod ffigyrau 2009 yn hytrach na 2010 wedi cael ei ddefnyddio ym mhwynt 9.5 ynghylch cludiant. Cafwyd cais i ddiweddaru'r ffigyrau. Pam 11 - nid yw'n gwneud synnwyr i'r gymuned sydd yn adnabod y disgyblion a'u cartrefi. Cafwyd cais i egluro a chywiro'r ffigwr 11.*
Cytunwyd y byddai'r ffigwr yn cael ei wirio a'i newid os yw'n anghywir a byddwn yn ychwanegu ffigyrau 2010.

*Gofynnwyd eto i dynnu sylw at y cywiriadau cyn y pwyllgor craffu ac i wneud yn siŵr bod y daflen ymateb ar y we.*

Cytunwyd os fydd angen, os fydd nifer o gamgymeriadau wedi ei chywiro y byddir yn gyrru cywiriadau allan**.**

*Gafwyd cais i eithrio trafodaethau'r Parc yng nghyfarfodydd statudol y Berwyn.*

Nid yw dyddiad cyfarfod Bwrdd y Cyngor ar yr amserlen.

## Diolch a Cloi

Nododd y Pennaeth Addysg bod pawb yn yr ystafell, er eu bod yn dod o gyfeiriadau gwahanol, yn anelu at gael yr un peth, sef addysg o'r safon orau i bob plentyn yng Nghymru.

Diolchodd y Pennaeth Addysg i'r gynulleidfa am fynychu. Gorffennodd y cyfarfod am 22:20.

# ATODIAD 3

# DADANSODDIAD AC YMATEBION I SYLWADAU O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL

**3.1 Sylwadau o'r Ymgynghoriad Statudol i sefydlu Ysgol Gymuned ar gampws dysgu gydol oes yn nhref y Bala**

**Derbyniwyd 9 o ymatebion ysgrifenedig;**
4 Llythyr Cymraeg
4 e-bost Cymraeg
1 Deiseb gyda llythyr ynghlwm

**Derbyniwyd 3 ymateb ysgrifenedig cyffredinol:**
1 Llythyr Cymraeg
2 E-bost Cymraeg

| **Côd Sylwadau** | **Sylwadau** | **Nifer yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys y sylw** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Addysg** | | |
| 2. | Roedd cefnogaeth i'r cynnig, gan nodi ei fod yn gynllun cyffrous ac y gellid gweithredu'r model mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd. / Cynllun a rydd fodel addysgol priodol ar gyfer ysgol wledig a rydd gyfle i gyfoethogi profiad addysgol pob grwp oedran. Rhoi cyfle i gydrannu adnoddau ac arbenigedd staff a rhoi cyfleoedd datblygu unigryw i staff. | 7 | Mae'n gynnig arloesol a heb gynsail yng Ngwynedd. Mae rhai dalgylchoedd wedi mynegi diddordeb yn y model dysgu gydol oes a gynigiwyd ar gyfer Y Berwyn. |
| 3. | Pryderon ynghylch plant 3 mlwydd oed yn rhannu safle gyda rhai 19 oed. | 1 | Mae hyn yn ddealladwy. Caiff y safle ei gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau mai diogelwch disgyblion yw'r pennaf ystyriaeth bob amser. Manteisir ar y profiad o ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru sy'n cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd wedi eu cyd-leoli, a hefyd o safleoedd dysgu gydol oes ffurfiol yn Lloegr ac yn yr Alban. |
| 4. | Pryderon bydd plant o Bala yn methu elwa ar y profiad pwysig o symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, tra bydd plant o ysgolion cynradd eraill yn parhau i wneud hynny ac yn elwa o'r profiad. | 2 | Ceir cryn dystiolaeth yng Nghymru sy'n amlygu'r pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd fel proses a all gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad disgybl. Byddai'r cynnig yn esmwytho'r broses |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | trosglwyddo. |
| **5.** | **Cymuned** | | |
| 6. | Darperir gwasanaethau cymunedol: adnoddau dysgu ar gyfer yr holl gymuned, llyfrgell a theatr gymunedol (gwasanaeth nad yw ar hyn o bryd ond ar gael o fewn 40 milltir o'r Bala) /Rhydd wasanaethau i blant a theuluoedd yn y Bala a'r dalgylch cyfan. | 3 | Mae sicrhau ac uwchraddio darpariaeth diwylliannol yn y dref yn agwedd allweddol o'r cynnig hwn. Mae'r cynnig yn rhagweld datblygu gofod perfformiad o ansawdd y gellir ei ddefnyddio fel theatr a sinema, ynghyd â llyfrgell wedi ei hadleoli a'i huwchraddio |
| 7. | Bydd uno rheolaeth sawl un o'r gwasanaethau yn arwain at welliant sicr o ran ansawdd y ddarpariaeth trwy gyfrwng dull mwy cost effeithiol trwy ddileu dyblygu di-angen. | 2 | Mae'n allweddol sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau. Dylai cydleoli gwasanaethau ar un safle sicrhau arbedion effeithlonrwydd a datblygu gwasanaethau integredig o fewn y dref yn effeithiol ac effeithlon. |
| **8.** | Nid yw'r cynlluniau ar gyfer safle gydol oes yn crybwyll ysgolion tu allan i Wynedd. Pam? Mae'r disgyblion hyn yn dyngedfennol i ddyfodol Y Berwyn. Ceir sibrydion bod rhieni'n ystyried anfon eu plant i Ysgol Llanrwst ym Medi 2011. | 1 | Mae Gwynedd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion o fewn y Sir. Mae'n wir bod sawl disgybl o du allan i'r sir yn mynychu Ysgol Uwchradd y Berwyn, a chafodd cynrychiolwyr o gymunedau o'r fath yng Nghonwy a Sir Ddinbych wahoddiad i fynychu cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch a chawsant eu cynnwys fel rhai i ymgynghori â hwy yn ystod yr ymgynghoriad statudol hwn. |
| **9.** | **Adeiladau** | | |
| 10. | Siom na fydd yr adeilad yn hollol newydd megis yr ysgol newydd ym Mangor/ Teimlad y caed gwybodaeth camarweiniol ynghylch adeilad newydd/Mae'r cynlluniau yn aneglur/nid yw'r elfen uwchradd yn elwa llawer o'r cynlluniau | 6 | Mae hyn yn ddealladwy. Dewis cyntaf y Cyngor oedd darparu safle newydd pwrpasol yn nhref y Bala. Fodd bynnag, mae sawl ffactor - yn cynnwys y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf a phwysau ar gyllid y Cyngor - wedi milwrio yn erbyn hynny. Trwy'r cynnig a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad gyda golwg ar sicrhau cyllid ar gyfer 2012-15, byddai adran gynradd newydd yn cael ei darparu, bloc technoleg newydd, neuadd wedi ei huwchraddio y gellid ei defnyddio fel theatr gymuned a sinema, a llyfrgell wedi ei huwchraddio.<br>Byddai canolbwyntio gwasanaethau ar safle'r Berwyn, uwchraddio cyfleusterau a darparu gwell cyfleusterau ITC, yn cryfhau addysg uwchradd yn y dref. |
| 11. | Os caiff adeilad newydd ei adeiladu ar y tarmac ym mhen pellaf yr ysgol, ble'r aiff y plant yn ystod amser cinio? Gwaherddir y disgyblion rhag mynd ar y cae yn ystod y Gaeaf/ Mae angen gwneud gwaith ar yr ystafell athrawon a'r ffreutur - dim darpariaeth ar gyfer hyn yn y cynlluniau presennol / Oherwydd maint y gampfa bresennol, nid oes modd cynnal chwaraeon cystadleuol rhwng ysgolion yn unol â | 5 | Cafodd gr^w^p gweithiol defnyddwyr ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgol a effeithir a sefydliadau eraill yn y dref. Mae'r cynlluniau cynnar a gyflwynwyd mewn sesiwn galw heibio diweddar ac mewn cyfarfodydd statudol yn fan cychwyn yn amcanu at ysgogi trafodaeth ac nid ydynt yn gynlluniau terfynol. Ceir digon o gyfle i ddylanwadu ar gynllun a lleoliad gwahanol wasanaethau ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chanllawiau Iechyd a Diogelwch/ Oherwydd Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, nid oes trydan yn yr ystafelloedd newid, felly rhaid defnyddio swyddfa'r adran ar gyfer cynllunio gwersi gan mai hwn yw'r unig le y gellir defnyddio'r cyfrifiadur - mae hynny'n annerbyniol / Mae angen y cyfleusterau canlynol ar yr adran AG : cyfleusterau chwaraeon dan do, neuadd chwaraeon fawr, neuadd chwaraeon aml-bwrpas, wal ddringo, cyfleusterau cwrt caled, caeau gwyrdd, mannau cadw, ystafelloedd newid a chawod, ystafelloedd/swyddfeydd athrawon, ystafell ddosbarth ar gyfer disgyblion tgau, lefel a btec / Gofyn am gael cyfarfod gyda phenseiri i roi gwybodaeth bellach. | | adrannau gydol y broses.<br>Mae'r cynlluniau yn amodol ar drafodaeth bellach gyda'r gr^w^p defnyddwyr. |
| 12. | Beth fydd yn digwydd i'r plant yn ystod y cyfnod adeiladu? Yn arbennig, disgyblion oedran TGAU fydd yn dilyn cyrsiau megis technoleg. Yn ystod y cyfarfod, dywedwyd na fyddai disgyblion yn cael eu heffeithio ond ni allai swyddogion roi sicrwydd pendant. | 1 | Mae'r cynnig ar gyfer y safle dysgu gydol oes yn rhagweld y cynhelir gwaith adeiladu ar y safle tra bydd Ysgolion y Berwyn a Beuno Sant presennol yn parhau i addysgu. Caiff y broses adeiladu ei rheoli a'i chynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau nad amherir ar addysg disgyblion. |
| **13.** | **Ystadegau** | | |
| 14. | Trwy'r cynlluniau hyn, caiff mwy o leoedd gwag eu creu. | 1 | Y prif elfen fydd adeilad newydd wedi ei gynllunio ar gyfer nifer y disgyblion sy'n drigolion yn y dalgylch. Gall rhannau o'r ysgol uwchradd bresennol gael eu disodli neu eu dymchwel. Ni chrybwyllir creu mwy o leoedd dros ben. |
| **15.** | **Y Broses** | | |
| 16. | Caeir pryder nad yw llawer o gwestiynau wedi eu hateb pan fo addysg ein plant dan fygythiad. | 1 | Mae'r Cyngor wedi ceisio ateb pob cwestiwn. |
| 17. | Anfonwyd papurau statudol anghywir i'r ysgol | 1 | Anfonwyd gopiau o ddogfennau statudol y cynigion ar gyfer Ysgol y Parc ac ysgolion tref y Bala i bob ysgol yn y cylch. Anfonwyd mwy o gopiau o'r ddogfennaeth statudol ar gais ysgolion. |
| **18.** | **Cyffredinol** | | |
| 19. | Ceir problemau niferus o gydweithio â Canolfan Hamdden Penllyn | 1 | Mae'r model arfaethedig ar gyfer tref y Bala yn argymell tynnu'r holl sefydliadau cyhoeddus at ei gilydd i gydweithio dan ymbarel y Campws Gydol Oes. Bydd sicrhau cydweithio rhwng yr holl sectorau yn hanfodol i lwyddiant y datblygiad. |
| 20. | Diolch i bawb a aeth i'r Bala i drafod y cynigion. | 1 | Dim sylw |
| 21. | Yn bles o dderbyn cadarnhad y caiff yr ysgol ddechrau newydd gyda llechen lân – dim dyled ariannol. | 1 | Mae rheolau cyllid yn cadarnhau hyn. |
| 22. | Caed ar ddeall y gwnaed cais am gefnogaeth ariannol i Lywodraeth | 4 | Cyflwynodd Cyngor Gwynedd, fel pob Cyngor arall yng Nghymru, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynulliad Cymru /Hyderus bydd y cynnig ariannol yn cael ei gymeradwyo er lles addysg yn y Bala a Penllyn | | ei Gynllun Amlinellol Strategol ar gyfer adeiladau ysgol yn Rhagfyr 2010. Adnabu'r Cyngor y datblygiad yn y Berwyn fel ei flaenoriaeth pennaf ar gyfer 2012-15. |

### 3.2 Sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol y Parc

**Derbyniwyd 74 o ymatebion ysgrifenedig;**
43 Llythyr Cymraeg
3 Llythyr Saesneg
2 Lythyr dwyieithog
25 e-bost Cymraeg
1 Deiseb

**Derbyniwyd 3 ymateb ysgrifenedig cyffredinol:**
1 Llythyr Cymraeg
2 E-bost Cymraeg

| Cod Sylwadau | Sylwadau | Nifer yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys y sylw | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Cyffredinol** | | |
| 2. | Pa sicrwydd a ellir ei roi y bydd dyfodol i'r gweddill o'r ysgolion yn dilyn cau Ysgol y Parc? / Mae gan gynghorwyr gyfrifoldeb i ddiogelu ysgol wledig | 2 | Mae'r cynnig a amlinellir wedi'i fwriadu i sicrhau dyfodol tair o ysgolion gwledig a'r campws dysgu gydol oes yn nhref y Bala i'r dyfodol rhagweladwy. |
| 3. | Pam cau Ysgol y Parc a diogelu Ysgol Bro Tryweryn pan fo dwy ysgol o fewn y rhwyd diogelwch? / Nodi y byddai cadw Ysgol y Parc yn agored yn creu anhawster ar draws ysgolion eraill yn y sir, dylid ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun / Rhai ysgolion yn derbyn mwy o ariannu drwy'r fformiwla diogelu lleiafswm staffio ("rhwyd diogelwch"). A fydd unrhyw ysgol sy'n dod o dan y rhwyd diogelwch yn cael ei bygwth â chau? | 2 | Ystyriwyd modelau a oedd yn cynnig cau Ysgol Bro Tryweryn. Penderfynodd y Deilydd Portffolio gynnig fod Ysgol Bro Tryweryn yn aros yn agored am y rhesymau canlynol:<br>• Byddai'r cynnig yn darparu tair o ysgolion ardal gwledig, a thrwy hynny sicrhau darpariaeth addysgol yn yr ardal hon<br>• Crëwyd yr ysgol fel ysgol ardal yn ystod yr 1960au hwyr i wasanaethu nifer o gymunedau gwledig iawn. O ganlyniad mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol gymharol fawr<br>• Mae rhai disgyblion ar hyn o bryd yn mynychu'r ysgol o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bentrefi pellennig ac eisoes yn teithio yn hawdd dros 20 munud un ffordd. Mae'r Cyngor yn amcanu i sicrhau fod disgybl yn teithio am lai na 30 munud un ffordd.<br>• Mae rhai ysgolion yng Nghonwy, tra'u bod tu allan i'r sir, yn draddodiadol wedi anfon disgyblion i Ysgol y Berwyn am eu haddysg uwchradd. Ysgol Bro Tryweryn fyddai'r unig ysgol ar hyn y ffordd A4212 Trawsfynydd a gallai o bosib wasanaethu dalgylch ehangach |
| 4. | Byddai'r cynigion yn effeithio ar Ysgol OM Edwards – grwpiau dysgu mwy, 0.5 o athrawon ychwanegol, cynnydd ym maich gwaith pennaeth Ysgol OM Edwards / Ni fydd y cynnig yn arwain at ddosbarthiadau o dan 25 / Maint dosbarthiadau llawer mwy nag y mae'r plant wedi arfer iddynt | 2 | Gan dderbyn mai mater i gyrff llywodraethol ysgol yw materion staffio, yn 2009/10 derbyniodd Ysgol OM Edwards ddyraniad ariannol a oedd yn caniatáu cyflogi 2.4 athrawon amser llawn (all). Felly roedd maint dosbarthiadau ar gyfartaledd oddeutu 21 o ddisgyblion. Mae'r modelu ariannol ar gyfer y cynnig hwn yn rhagweld darparu dyraniad a fyddai'n caniatáu ar gyfer cyflogaeth o 3 o athrawon amser llawn. Yn ôl prisiau 2009/10, gallai'r ysgol gefnogi tri dosbarth gyda chyfartaledd o 22 o ddisgyblion. Byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd disgyblion yn arwain at gynnydd i'r dyraniad ariannol a fyddai yn ei dro'n caniatáu i'r ysgol ystyried cyflogi staff ychwanegol.<br>Mae'r cynnig yn rhagweld y byddai gan yr ysgol gyllideb a fyddai'n caniatáu i 3 o athrawon ddysgu 64 o ddisgyblion, neu faint dosbarthiadau cyfartalog o 21 ar gyfartaledd. Os yw niferoedd yn cynyddu, fel y rhagwelwyd, byddai'r dyraniad cyllidebol hefyd yn cynyddu. |
| 5. | Nodi mai dymuniad CCC yw'r cynnig hwn ac mae cau Ysgol y Parc yn sylfaen i gais ariannu llwyddiannus i ddatblygu campws dysgu gydol oes yn Y Bala. / Byddai unrhyw welliannau - yn cynnwys y Campws Gydol Oes - yn destun i dderbyn grant Llywodraeth y Cynulliad, a chafodd cais tebyg am ariannu i uwchraddio Dyffryn Dulas, Pennal a Phenybryn yn Nhywyn ei wrthod / Nid oes sail ar gyfer datganiad gan yr Arweinydd Portffolio fod cais Gwynedd am ariannu cyfalaf i ddatblygu Ysgol Gydol Oes yn amodol ar gau'r Parc; roedd anerchiad y Prif Weithredwr i gyfarfod y Cyngor yng Ngorffennaf 2010 yn unochrog ac amhriodol; | 3 | Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o brosiect £10.2m yn nalgylch y Berwyn. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am 70% o'r gost (£7.7m) a fyddai'n gadael y Cyngor i ariannu'r £2.56m arall. Mae oddeutu £1.3m o gost cyffredinol y prosiect wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith uwchraddio yn Ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn. Cyflwynwyd cais tebyg i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod yr haf 2010– i adeiladu ysgol newydd ac i uwchraddio ysgolion eraill – yn llwyddiannus (yn destun i gwblhau'r cyfnodau ymgynghori statudol perthnasol). Gwrthodwyd ceisiadau eraill gan Lywodraeth y Cynulliad, ond cefnogwyd cais dalgylch Tywyn yn llawn. Mae rhaglenni cyfalaf ysgolion cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn amlinellu'n glir fod disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael, i leihau lleoedd gwag, ac i gynllunio'n strategol. Yn yr haf 2010, cyflwynodd y Cyngor geisiadau am ariannu cyfalaf. Roedd un wedi'i seilio ar adolygiad ardal y dalgylch Tywyn a oedd yn cynnig cau pedair ysgol, adeiladu ysgol newydd a gwaith uwchraddio ar y tair ysgol arall. Derbyniwyd y cais hwn. Gwrthodwyd ail gais am ariannu i amnewid ysgol mewn cyflwr gwael yn ardal Dyffryn Nantlle gydag amnewidiad tebyg at debyg gan nad oedd yn ddigon strategol. |
| 6. | Mae rhieni'r dalgylch yn unfrydol yn erbyn y cynlluniau i gau / Nid yw rhieni wedi symud eu plant o'r ysgol er ei bod dan fygythiad / Nid yw staff wedi chwilio am gyflogaeth arall / Cefnogwch ymdrechion preswylwyr y Parc i gadw Ysgol y Parc yn agored / Mae'r ddadl dros gadw Ysgol y Parc yn gorbwyso'r ddadl dros ei chau | 9 | Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos cefnogaeth i gynnal yr ysgol. |
| **7.** | **Iaith** | | |
| 8. | Mae Ysgol y Parc yn ysgol Gymraeg wledig naturiol, a byddai cau'r ysgol yn dinistrio patrymau iaith a diwylliant yr ardal / mae 91% o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg / mae'r Ysgol yn darparu addysg Gymraeg o fewn amgylchedd diogel gyda'r Gymraeg yn cael ei siarad ar y buarth / Pam dinistrio sylfaen Gymraeg lewyrchus? / bydd cau'r Ysgol yn cael effaith fawr ar yr iaith Gymraeg / profiad unigryw ac amhrisiadwy yn y gymuned hon / mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn Llanycil yn is nag yn y Parc yn benodol / sefyllfa unigryw yn Ysgol y Parc / mae gan y Cyngor rwymedigaeth i ddiogelu iaith cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Ngwynedd / os caiff yr ysgol ei chau bydd Cyngor Gwynedd yn cael ei gofio mewn llyfrau hanes am ddinistrio cymuned fyw Gymraeg ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain / mae cau ysgol sy'n arwain at ladd cymuned fyw Gymraeg yn mynd yn groes i strategaeth gorfforaethol y Cyngor / mae'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyd-destun cymdeithasol yn gryfach yn ardal Penllyn nag ardaloedd eraill yn y sir - nid oes angen mesurau i gryfhau defnydd o'r iaith / mae'r ysgol ar ben ei hun yn darparu a chynnal 'Cwm Llafar' heb gefnogaeth ariannol allanol | 36 | Mae cymunedau'r Parc a Llanuwchllyn, er nad ydynt union yr un fath mewn termau ieithyddol, yn weddol debyg. Canfu'r Asesiad Ardrawiad Iaith a wnaed gan ymgynghorwyr annibynnol ar ran y Cyngor yng Ngwanwyn 2010, y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar y defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion oed cynradd. Mae'r ddwy ysgol yn adrodd fod 83% o ddisgyblion yn dod o gartrefi iaith Gymraeg, gydag 17% yn dod o gartrefi Saesneg neu ddwyieithog.<br>Nid oes unrhyw fwriad i wanio'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae'r Asesiad Ardrawiad Iaith annibynnol yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cryfhau'r iaith ar oed ysgol.<br>Yn ddiau, mae'r iaith Gymraeg yn gryf iawn yn yr ardal. Fodd bynnag, mae cymunedau'r Parc a Llanuwchllyn yn weddol debyg. |
| 9. | Crybwyllir canfyddiadau'r Asesiad Ardrawiad Iaith gan ymgynghorwyr annibynnol – haerir na chanolbwyntiwyd ar yr adroddiad gan fod yr adroddiad yn nodi effaith andwyol y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn ei gael ar yr iaith Gymraeg yn y Parc. / nid yw'r asesiad iaith a chymuned | 2 | Mae effaith iaith yn un o'r ffactorau y mae awdurdodau lleol yn gorfod rhoi sylw iddynt wrth ddod â chynigion ad-drefnu ysgolion gerbron. Mae'r cynnig hwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth amryw o ffactorau eraill fel yr amlinellir yn y papurau statudol ac yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn benodol i'r Parc | | strategaeth *Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd* (Ebrill 2009). Ystyriwyd yr asesiadau effaith yn llawn wrth baratoi'r cynigion hyn. |
| 10. | Ni fyddai cyfuno Ysgol O.M.Edwards a'r Parc yn cael effaith negyddol ond ni fyddai'r un peth yn wir petai'r dref a'r Parc yn cael eu cyfuno, byddai i hynny oblygiadau iaith a diwylliant. | 2 | Awgrymodd yr asesiadau effaith iaith a chymuned fod cymunedau ac ysgolion y Parc a Llanuwchllyn yn rhannu nifer o nodweddion. Tra bod gradd o gyffredinedd gyda'r dref hefyd, derbynnir bod gwahaniaethau |
| **11.** | **Cymuned** | | |
| 12. | Crybwyllir datganiad gan aelod Llywodraeth y Cynulliad, sef fod y Llywodraeth yn bwriadu datblygu polisïau i ddiogelu cymunedau Cymraeg yn ystod 2011-12. Felly byddai cau Ysgol y Parc yn gynamserol / Byddai'r cynnig i gau Ysgol y Parc yn groes i ddymuniadau'r Cyngor i sicrhau ysgolion â ffocws cymunedol | 2 | Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gefnogi bob cymuned. Fodd bynnag, mae ysgolion yn eu hanfod yn canolbwyntio ar ddarparu'r addysg orau bosib i'w disgyblion. Mae'r Asesiad Effaith Gymunedol annibynnol yn amlinellu y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar gymuned y Parc, ac mae'n amlinellu camau y gellid eu cymryd i liniaru'r effeithiau hyn. |
| 13. | Byddai cau'r Ysgol yn dinistrio cysylltiadau wedi'u seilio yn y gymuned/ Byddai'n cael effaith negyddol ar y gymuned / Mae'r Ysgol wedi'i seilio ar gymuned gydweithredol, ddiwylliedig ble mae pawb yn cefnogi'i gilydd / Mae plant yn yr ysgol yn cyfoethogi'r gymuned a byddai cau'r ysgol yn dinistrio hyn am byth / Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar sylfaen y gymuned - byddai'n dod yn llai deniadol i deuluoedd ifanc / mae gan blant wreiddiau yn y gymuned / Mae'r ffaith nad oes gan yr ysgol blant o tu allan i'r dalgylch ac nad oes yr un yn gadael y dalgylch yn atgyfnerthu'i phwysigrwydd yn y gymuned / sefyllfa unigryw Ysgol y Parc / tynnu ymaith hawl plant i gael eu haddysg yn eu cymuned eu hunain / ni fyddai teuluoedd ifanc yn preswylio na chael eu denu i gymuned oni bai bod ysgol yno / nododd adroddiad ESTYN (2007) fod y synnwyr o gymuned deuluol ac agosrwydd at y disgyblion yn rhinwedd arbennig / byddai cau Ysgol y Parc yn andwyol i'r berthynas rhwng y plant a'r gymuned / Mae llawer o dai yn yr ardal yn perthyn i "Saeson" nad oes ganddynt ddiddordeb yn y gymuned ac sy'n Seisnigeiddio'r ardal. Bydd rhaid i bobl ifanc symud o'r ardal yn fuan wrth i fwy o Saeson symud i mewn / cyfeiriwyd at achosion mewn siroedd eraill pan gaewyd ysgolion ac effaith hynny ar y gymuned | 45 | Mae risg y gallai hyn ddigwydd. Fodd bynnag, mae pentrefi yn nalgylch y Berwyn sydd wedi profi cau ysgol wedi eu cynnwys yn y gweithgareddau cymunedol ehangach, Gellir cynnal y cyswllt rhwng cymunedau a'u plant oed ysgol, yn enwedig mewn cymunedau sy'n rhoi pwys mawr ar weithgaredd cymunedol.<br>Mae enghreifftiau ar draws y sir o gymunedau nad oes ganddynt bellach ysgol gynradd ond sy'n parhau'n gymunedau hyfyw, Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai hyn ddigwydd yn y Parc.<br>Derbyniodd yr ysgol adroddiad ESTYN da yn 2007. Yn ddiau, mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r un peth yn wir am ysgolion eraill yn yr ardal, yn cynnwys Ysgol OM Edwards. |
| 14. | Heblaw am y Capel, yr ysgol yw'r unig adnodd cymunedol / mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r capel a byddai cau'n dinistrio'r berthynas hon gan gael effaith negyddol ar y gymuned / Heb yr ysgol ni fydd y capel yn | 23 | Mae Ysgol y Parc yn Ysgol Gymuned a ddynodwyd yn Ysgol Ffocws Cymunedol. Hynny yw, mae'r ysgol yn un o 8 ysgol gynradd yng Ngwynedd sy'n derbyn ariannu ychwanegol i gefnogir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael ei gynnal / Mae'r ysgol/neuadd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan sefydliadau cymunedol yn cynnwys y Gymdeithas Ddiwylliannol, Merched y Wawr, cangen yr Urdd, Ysgol Sul y plant, cymdeithas ddrama'r Parc drama (ers 1982), pwyllgorau, dramâu, eisteddfod a chyngherddau ayb. / Byddai cau'n cael effaith ddinistriol ar yr holl agweddau hyn ar fywyd cymunedol / Byddai cau'r ysgol yn cael effaith andwyol ar yr Ysgol, Sul, ar hyn o bryd mae canran uchel o blant yn mynychu / byddai'n andwyol i bresenoldeb yn y capel / cefnogi'r egwyddor o sefydlu trefniant ffederal rhwng y pedair ysgol wledig ym Mhenllyn oherwydd cymunedau'n rhannu adnoddau, cydweithredu fel y gall y cymunedau drefnu eu dyfodol eu hunain | | cyfleuster cymunedol ar y safle. Mae neuadd gymuned ar ran o'r safle sydd ar les i Gyngor Cymuned Llanycil ar brydles tymor-hir. Nid yw bodolaeth y brydles yn golygu na all y Cyngor weithredu ei bwerau statudol i gau'r ysgol. Fodd bynnag, petai'r ysgol yn cau, byddai rhaid addasu'r trefniadau fel rhan o weithdrefnau ôl ddefnydd yr adeilad. Bydd y brydles yn parhau ac mae'n berthnasol i gynnal a chadw'r safle ac mae'n amlinellu dyletswyddau'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned mewn cefnogi'r ddarpariaeth gymunedol ar y safle. Mae'r gymuned wedi cysylltu â'r Cyngor gyda golwg ar gychwyn trafodaethau ar sut y gellid cynnal y neuadd gymuned petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai hyn fod yr achos. Mae'r Ysgol Sul yn defnyddio'r adeilad, a diogelir defnydd yr adeilad ar gyfer gweithgareddau cymunedol gan brydles a chefnogaeth ariannol. |
| 15. | Pryder na fydd yr holl blant yn ardal dalgylch y Parc yn mynychu'r un ysgol yn y dyfodol os caeir yr ysgol / bydd yn dinistrio hunaniaeth a theyrngarwch y plant / bydd cau yn gwahanu'r gymuned / mae pobl yn y Parc yn wahanol i bobl yn Llanuwchllyn / rhagdybiaeth y bydd y plant yn mynychu Ysgol O.M. Edwards ond yn ddaearyddol, mae tref y Bala yn nes i nifer o gartrefi yn ardal dalgylch y Parc fel y bydd nifer o deuluoedd yn ei chael yn fwy cyfleus mynd â phlant i'r dref/ bydd disgyblion y Parc dan anfantais os gorfodir nhw i fynychu ysgol arall. Byddai'n anodd i ddisgyblion addasu. | 17 | Mae'r Adran Addysg wedi mapio'r dalgylch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar hyn o bryd sy'n mynychu Ysgol y Parc yn byw yn nes at Ysgol OM Edwards nad unrhyw ysgol gynradd arall. Felly byddent yn cael cynnig lleoedd yn Ysgol OM Edwards. Gwybodaeth y Cyngor yw, tra gall rhai rhieni ddewis anfon eu plant i ysgolion eraill, mai eu dalgylch ac ysgol agosaf fyddai Ysgol OM Edwards. |
| 16. | Beth fyddai'n digwydd petai rhieni'n dewis mynd â'u plant i ysgol arall - newidiadau diangen i Ysgol O.M. Edwards | 4 | Mae gan rieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol i'w plentyn. Mae'r dyraniad cyllidebol a ragwelir wedi ei seilio ar niferoedd disgyblion 2009 o 50 o ddisgyblion yn Ysgol OM Edwards ac 14 yn Ysgol y Parc. Pe byddai mwy o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol (yn destun i bolisi mynediad yr awdurdod), byddai'r dyraniad yn cael ei gynyddu. Pe byddai llai'n mynychu, byddai'n cael ei ostwng. |
| 17. | Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cyfraniad enfawr i ddigwyddiadau diwylliannol ac yn diogelu diwylliant yr ardal yn y dyfodol/ byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar ddiwylliant yr ardal ac rydym yn ymwybodol o'r dirywiad diwylliannol mawr drwy Gymru / mae bob plentyn yn cael profiad o gyfranogi mewn cyngherddau neu eisteddfodau – roedd y Parc yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol / Pryderon | 21 | Mae gweithgareddau diwylliannol yn ffurfio rhan bwysig o fywyd cymunedol ar draws y Sir, yn cynnwys y Parc. Mae hyn yn parhau'n wir am ysgolion o fewn dalgylch y Berwyn sydd wedi gweld cau eu hysgolion.<br>Bydd disgyblion yn Ysgol y Parc ar hyn o bryd yn ymuno â'u cymheiriaid yn Ysgol OM Edwards am amrediad o weithgareddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| |ynglŷn â gweithgareddau ar ôl ysgol (e.e. ymarfer a chlybiau), a fydd rhieni'n gweld y rhain yn anymarferol oherwydd anghyfleustra a achosir gan deithio | | all-gwricwlaidd. |
| 18. | Mae angen ystyried ffactorau ehangach nag addysg a chyllid wrth ystyried ad-drefnu ysgolion; | 4 | Cynhaliwyd Asesiadau Effaith Iaith a Chymuned gan ymgynghorwyr annibynnol. Mae'n parhau'r achos, fodd bynnag, mai prif bwrpas ysgol yw darparu'r addysg orau bosib. |
| 19. | Nid yw asesiad digonol ar yr effaith y byddai cau'r ysgol yn ei gael ar y gymuned wedi ei gwblhau / cynhaliwyd Asesiadau Effaith Iaith a Chymuned cyn cyflwyno cynigion cadarn; o'r herwydd yr oedd yr holl ymatebion yn ddamcaniaethol. | 1 | Cynhaliwyd Asesiad Effaith Gymunedol lawn yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad cyn cyhoeddi cynigion. Disgwylir i gynghorau gynnal y fath asesiadau wrth baratoi cynigion. |
| 20. | Byddai cau yn cael effaith andwyol ar Gylch Meithrin Maesywaen, bydd niferoedd yn gostwng a fydd yn arwain at gau / mae'r ysgol feithrin sy'n bwydo'r Parc a Thryweryn gyda'r nifer uchaf o ddisgyblion ers ei sefydlu. Mae 24 yn mynychu'r cylch meithrin a 39 yn mynychu "Ti a Fi". Bydd 20 o blant bach yn dilyn y flwyddyn nesaf / Byddai'n cael effaith andwyol ar y sefydliadau hyn / byddai cau nid yn unig yn effeithio ar bentref y Parc, ond hefyd y gymuned ehangach e.e. byddai Meithrin Maesywaen yn dioddef. | 8 | Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai hyn fod yr achos. Mae ysgolion yn y Berwyn ar hyn o bryd â hawl i ddarparu addysg feithrin ond maent yn dewis peidio gwneud hynny. Darperir addysg feithrin gan y Mudiad Ysgolion Meithrin. Gellid cynnal yr un ddarpariaeth, os mai dyna ddymuniad y cymunedau, hyd yn oed petai Ysgol y Parc yn cau. |
| **21.** | **Addysg** | | |
| 22. | Nododd adroddiad ESTYN (2007) fod Ysgol y Parc yn dda, effeithiol, yn darparu addysg gyflawn/ nid oes unrhyw feirniadaeth ar safon yr addysg. / mae'r ysgol yn darparu addysg o'r radd flaenaf/ mae nifer o gyn-ddisgyblion wedi cyrraedd lefel uchel yn eu gyrfa neu waith a llawer wedi llwyddo mewn busnes - mae tri newydd gwblhau doethuriaeth / er bod yr ysgol yn fychan, nid oes tystiolaeth i ddangos fod hyn yn andwyol i'r disgyblion / byddai maint dosbarthiadau mewn ysgol arall yn fwy gan ostwng y safon o addysg / mae'r ysgol wedi addysgu plant yr ardal am 135 o flynyddoedd / roedd adroddiad y gweithgor cychwynnol o'r enw "Addysg Gynradd o'r Safon Orau i Blant Gwynedd" - beth sydd o'i le gyda safon yr addysg mae plant y Parc yn ei gael? / sut ellir dangos bod cau'r ysgol yn gwella addysg? / byddai cau'n andwyol i addysg plant / mae'n ofynnol fod unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer cau'r ysgol naill ai cystal os nad yn welliant ar y ddarpariaeth bresennol | 31 | Mae hyn yn wir. Derbyniodd yr ysgol 7 Gradd 2 yn ei arolygiad ESTYN diweddaraf. Derbyniodd Ysgol OM Edwards 7 Gradd 1 yn ei arolygiad diweddaraf. Nid oes cwestiwn na fyddai disgyblion o'r Parc yn derbyn addysg yn Ysgol OM Edwards sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol y Parc. |
| 23. | Mae'r ysgol yn cwrdd â'r mwyafrif o'r amcanion a osodwyd allan gan y Gweinidog Addysg yng Nghylchlythyr 021/2009 | 1 | Roedd yr adolygiad o ddarpariaeth yn ardal y Berwyn a datblygiad y cynnig penodol hwn wedi eu gwneud yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ac yn unol â disgwyliadau'r Cynfor ei hun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fel yr amlinellwyd yn ei strategaeth *Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd* (Ebrill 2009). |
| 24. | Ffydd mewn polisïau cyfredol na fyddai safon addysg yn gostwng petai cau'n digwydd | 1 | Mae'n ddisgwyliedig i'r Cyngor gynllunio ar gyfer yr addysg gorau posib i ddisgyblion. |
| 25. | Mae'r wybodaeth yn annigonol am union natur y cydweithredu a argymhellir rhwng datblygiad yn nhref y Bala a'r ysgolion gwledig | 1 | Mae cydweithredu o anghenraid yn broses esblygol a ddatblygir yn wirfoddol rhwng ysgolion. Nid yw'r Cyngor yn cynnig fod y tair ysgol - Ysgolion OM Edwards, Ffridd-y-Llyn a Bro Tryweryn - yn cael eu ffederaleiddio'n ffurfiol. Efallai y bydd yr ysgolion yn dymuno mynd i lawr y llwybr hwn yn y dyfodol ond y cynnig yma yw bod y tair ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd tra hefyd yn cael mynediad at gyfleusterau yn y campws dysgu gydol oes newydd arfaethedig yn nhref y Bala. |
| **26.** | **Adeiladau** | | |
| 27. | Mae'r adeilad mewn cyflwr da; adnewyddwyd yr ysgol a'r neuadd yn 2001; mannau digonol i athrawon, pennaeth a'r CRhA; digon o le i TGCh; mynediad i'r anabl yn dda; mae digon o le i'r Cyfnod Sylfaenol ar yr amod fod buddsoddiad; nid oes gan yr ysgol faes chwarae dynodedig ond defnyddir cae'r pentref a chae O M Edwards a chanolfan hamdden y Bala / methu gweld sut y bydd cae chwarae o fudd i'r plant, nid yw'r diffyg wedi cael effaith andwyol, mae nifer o gyn-ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon dros Gymru. | 9 | Mae'r ysgol mewn cyflwr gweddol dda. Fodd bynnag, mae'n adeilad sy'n heneiddio ac nid yw'n darparu'r math o gyfleusterau a ddisgwylir o ysgol y 21G. Mae un ystafell atodol yn yr ysgol a ddefnyddir fel swyddfa'r pennaeth ac ystafell staff. |
| 28. | Pa ddyfodol fydd i'r adeilad os yw'r ysgol yn cau? Ni ellir disgwyl yn rhesymol i gymuned Llanycil fod yn gyfrifol am ariannu cynnal a chadw'r adeilad heb yr ysgol / ceisiodd aelodau'r gymuned gysylltu â'r Cyngor i ganfod beth yw'r cynlluniau ynglŷn â'r adeilad ond ni chafwyd ymateb / sut all ysgol/neuadd gymuned integredig fodoli heb yr ysgol? / mae'r ysgol yn Ysgol Gymuned Drwy Les / byddai angen i'r Cyngor ddarparu mwy o ariannu i gynnal y neuadd gymuned / beth fydd cost amgylchiadau lliniaru'r Asesiad Effaith Gymunedol | 5 | Mae Ysgol y Parc yn Ysgol Gymuned a ddynodwyd yn Ysgol Ffocws Cymunedol. Hynny yw, mae'r ysgol yn un o 8 ysgol gynradd yng Ngwynedd sy'n derbyn ariannu ychwanegol i gefnogir cyfleuster cymunedol ar y safle. Mae neuadd gymuned ar ran o'r safle sydd ar les i Gyngor Cymuned Llanycil ar brydles tymor-hir. Nid yw bodolaeth y brydles yn golygu na all y Cyngor weithredu ei bwerau statudol i gau'r ysgol. Fodd bynnag, petai'r ysgol yn cau, byddai rhaid addasu'r trefniadau fel rhan o weithdrefnau ôl ddefnydd yr adeilad. Bydd y brydles yn parhau ac mae'n berthnasol i gynnal a chadw'r safle ac mae'n amlinellu dyletswyddau'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned mewn cefnogi'r ddarpariaeth gymunedol ar y safle. Mae'r gymuned wedi cysylltu â'r Cyngor gyda golwg ar gychwyn trafodaethau ar sut y gellid cynnal y neuadd gymuned petai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei weithredu. Bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | trafodaethau'n parhau.<br>Byddai angen trafod dyfodol y neuadd gymuned gyda'r gymuned leol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol - drwy'r pennaeth - yn derbyn ariannu ychwanegol i weithredu fel ysgol â ffocws cymuned ddynodedig. |
| 29. | Pa wybodaeth sydd ar gael ynghylch y gwaith adfer ar Ysgol OM Edwards? Pa sicrwydd sydd o welliant sylweddol mewn adnoddau? Crybwyllir gwario £30,000 ar uwchraddio adeilad Ysgol OM Edwards. | 1 | Mae'r ffigwr o £30,000 y cyfeiriwyd ato yn ystod yr Adolygiad ardal dalgylch yn cyfeirio at gynnydd i'r dyraniad cyllideb blynyddol i Ysgol OM Edwards ar y sail y byddai 14 o ddisgyblion (ffigyrau 2009) yn trosglwyddo o'r Parc i'r ysgol. Gan fod y niferoedd yn y Parc ar hyn o bryd yn 19, byddai Ysgol OM Edwards yn derbyn, pe gweithredid y cynnig heddiw, gynnydd o £46,727.<br><br>Mae'r cynnig a gynhwyswyd yng nghynnig y Sir i Ysgol OM Edwards yn rhagweld gwario oddeutu £900,000 ar ddarparu maes parcio a phwynt gollwng o fysiau gwell, ystafell ddosbarth newydd, ardal adnoddau dysgu newydd, ardal storio adnoddau newydd i wneud gwell defnydd o'r neuadd, buddsoddiad mewn lleihau defnydd ynni, uwchraddio'r gegin, darpariaeth TG wedi'i uwchraddio yn cynnwys cysylltiadau rhyngrwyd wi-fi, buddsoddiad yn yr ardal cyfnod sylfaen, toiled anabl newydd a gwelliannau i fynediad anabl, lliniaru materion cynnal a chadw cyfredol a materion iechyd a diogelwch. |
| 30. | Mae honiad fod gwybodaeth annigonol wedi ei ddarparu ar wariant a cynnal a chadw ystod blynyddoedd diweddar / Nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno adroddiad pensaer naill ai ar gyflwr yr adeilad nac adroddiadau digon manwl ar wariant cynnal a chadw. Os yw adeilad yr ysgol yn ddiffygiol yna mae hyn oherwydd esgeulustod y Cyngor. | 3 | Mae adroddiadau llawn wedi eu cyhoeddi a'u cylchu i'r ysgol. Yn dilyn cais yn ystod y cyfarfod ymgynghoriad statudol yn yr ysgol ar 10 Ionawr 2011, anfonwyd rhagor o wybodaeth i'r ysgol. Mae'r ysgol mewn cyflwr cymharol dda. Fodd bynnag, Fodd bynnag, mae'n adeilad sy'n heneiddio ac nid yw'n darparu'r math o gyfleusterau a ddisgwylir o ysgol y 21G. Mae un ystafell atodol yn yr ysgol a ddefnyddir fel swyddfa'r pennaeth ac ystafell staff. Darparwyd copi o'r arolwg cyflwr diwethaf yn dilyn cais yn y cyfarfod ymgynghoriad statudol. |
| 31. | Ni roddwyd unrhyw eglurhad cyn yr ymgynghoriad statudol fod angen gwaith i uwchraddio ac ymestyn adeilad ysgol OM Edwards er mwyn cynnwys disgyblion o'r Parc | 1 | Fel mae'n sefyll, mae gan Ysgol O M Edwards ddigon o ofod dosbarth i gynnwys plant ychwanegol o Ysgol y Parc ond ni allai gynnwys unrhyw gynnydd dilynol mewn niferoedd disgyblion. Hefyd mae angen gwaith uwchraddio ar yr adeilad i gynnig y cyfleusterau a ddisgwylit mewn cyfleuster addysgol sy'n addas i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 21G, e.e. adran adnoddau, ystafell staff, addasiadau i'r neuadd, addasiadau i sicrhau man diogel i barcio/ gollwng plant ayb. Bydd gwneud y gwaith uwchraddio nid yn unig yn sicrhau y bydd yr adeiladau'n addas ar gyfer darparu addysg yn yr 21G ond bydd hefyd yn sicrhau y bydd digon o le petai cynnydd yn digwydd yn y niferoedd disgyblion yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae Ysgol O.M Edwards yn darparu addysg i 51 o ddisgyblion ac mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd hyn yn codi i 58 erbyn 2013. Mae Ysgol y Parc yn darparu addysg i 19 disgyblion gyda mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd 20 o ddisgyblion yn mynychu erbyn 2013. Ar y sail hon, bydd 77 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ardal newydd erbyn 2013. Ar hyn o bryd gall Ysgol OM Edwards gynnwys 69 o ddisgyblion oedran 4-11 a 6 o ddisgyblion oed meithrin. Felly gallai'r ysgol fod ychydig dros ei chynhwysedd erbyn 2013. Mae Cynllun Amlinellol Strategol y Cyngor i adeiladau ysgol yn amlinellu dalgylch y Berwyn fel prosiect blaenoriaeth i'r Cyngor i'r cyfnod 2012-15, ac mae hyn yn cynnwys uwchraddio ac ymestyn Ysgol OM Edwards. |
| **32.** | **Staffio** | | |
| 33. | Gwybodaeth anghyflawn ar gael ar gyfer natur staffio'r dalgylch ar ôl gweithredu'r cynigion / Poeni am golli swyddi / a yw cost diswyddo wedi ei ystyried? | 5 | Darparwyd gwybodaeth lawn yn y papurau ymgynghorol statudol. |
| **34.** | **Gwasanaethau** | | |
| 35. | Ychydig iawn o adnoddau a gwasanaethau cyhoeddus sydd gan yr ardal; nid oes siop na chyfleusterau eraill tu allan i'r Bala/ Graeanu unwaith/dwywaith, dim heddlu, ffosydd ddim yn cael eu hagor, draeniau yn blocio, a rhaid cario biniau nifer o filltiroedd i gwrdd â'r lori biniau / Rhaid i ni ofyn i'r Cyngor cyn i waith gael ei wneud ar y ffyrdd / talu trethi uchel a dim gwasanaethau, felly dim gwerth am arian / a fyddai cau Ysgol y Parc yn andwyol i fusnesau lleol a'r economi lleol | 6 | Tra gall ysgol wneud cyfraniad sylweddol i fywyd y gymuned, ei diben pennaf yw darparu'r addysg orau posib ar gyfer ei disgyblion. Er hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiadau o effaith yn unol á disgwyliadau'r Llywodraeth. |
| **36.** | **Cludiant** | | |
| 37. | Ychydig iawn o gludiant cyhoeddus sydd yn yr ardal / byddai angen cludiant i'r plant; byddai'r gost gryn dipyn yn fwy na'r hyn a ddynodwyd gan y Cyngor, sef £15,000 (oddeutu £20,000); byddai angen dau fws; bron i 7 milltir o daith o gartref yn ardal dalgylch y Parc i Ysgol OM Edwards / Pa mor fanwl gywir yw £15,000? / Mae'r ffyrdd yn anaddas i | 16 | Mae hyn yn wir i lawer o ardaloedd gwledig. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion oed 4+ yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Mae Swyddogion Cludiant Ysgol y Cyngor wedi ymweld â'r dalgylch i deithio'r ffyrdd posib gyda'r pennaeth. Mae swyddogion yn cadarnhau fod y ffordd o'r Parc i Lanuwchllyn yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fysiau / materion diogelwch / bydd yn anodd iawn darparu system gludiant effeithiol o'r Parc i Lanuwchllyn gan fod ardal dalgylch y Parc yn arwain i dri chyfeiriad gwahanol / rhagwelir y bydd disgyblion yn colli mwy o addysg oherwydd y tywydd; byddai graeanu'r ffordd yn golygu costau uwch i'r Cyngor /<br>A yw'r costau teithio i Ysgol y Parc yn gywir oherwydd nid oes yr un o'r disgyblion ar hyn o bryd yn derbyn cludiant gan y sir / Bu Ysgol y Parc ar gau am un diwrnod y llynedd mewn cymhariaeth â nifer o ddiwrnodiau yn Y Berwyn / Annheg disgwyl i blant ifanc deithio ar fws / gallai'r siwrnai gymryd 30 munud + / bydd yn anghyfleus i rieni orfod mynd â'u plant ymhellach a'u nôl ar adegau gwahanol oherwydd gweithgareddau ar ôl yr ysgol, yn haws pan fo'r ysgol yn nes / ni all plant gerdded i'r ysgol / yn waeth i'r amgylchedd oherwydd defnyddio mwy o danwydd/ | | ddiogel ac y gall gynnwys bws 20-sedd. Byddai angen darparu un o'r bysiau hynny i gynnwys hyd at 20 o ddisgyblion ac y byddai gofynion teithio yn cyd-fynd á pholisiau'r Cyngor. Dylid pwyso costau teithio yn erbyn y gost o wresogi a goleuo adeiladau ysgolion. |
| 38. | Am ba hyd fydd y cludiant polisi presennol yn parhau | 1 | Mae polisi Cludiant Ysgol y Cyngor yn unol â disgwyliadau statudol a amlinellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid i bolisi'r Cyngor gwrdd â'r lleiafswm disgwyliadau hyn. |
| **39.** | **Ymchwil** | | |
| 40. | Sonnir am ddogfennau ac adroddiadau yn cynnwys erthyglau sy'n cymharu'r sefyllfa yng Nghymru gyda gwledydd eraill y DU. Adroddiad gan y "Cambridge Study Group", adroddiad gan David Reynolds, cyhoeddiadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; mae angen craffu ar yr holl dystiolaeth. | 1 | Ystyriodd Gweithgor y Cyngor a baratôdd strategaeth *Addysg Gynradd Ardderchog i Holl Blant Gwynedd* amrediad o dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac wedi'i gyflwyno gan amryw o sefydliadau ac unigolion. |
| **41.** | **Ystadegau** | | |
| 42. | Mae rhagamcanion niferoedd yn gamarweiniol; disgwylir twf / ni ddylid defnyddio ffigyrau'r llynedd / mae niferoedd disgyblion yn cynyddu; mae cynlluniau i adeiladu 4 neu 5 o dai newydd yn y dalgylch; mae eisoes 15 o blant dan oed ysgol yn byw yn yr ardal / bydd cynnydd mewn niferoedd yn gostwng y lleoedd gwag - yng nghofnod CRP ym Mai 2010 dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg ei bod wedi penderfynu cynnig cau Ysgol y Parc er mwyn lleihau'r nifer o leoedd gwag yn dilyn adroddiad gan ESTYN. Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth cau Ysgol Llawr y Betws / o fewn 4 blynedd, bydd 29 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol y Parc | 10 | Cyflwynwyd yr holl ystadegau i gynrychiolwyr ysgol yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch a ble bo angen eu haddasu. Cytunodd ysgolion ar y pecyn ystadegau terfynol/ Mae'r rhagamcanion disgyblion diweddaraf wedi eu seilio ar ffigyrau a gafwyd gan yr ysgolion ym Medi 2010. Mae Ysgol OM Edwards yn rhagweld cynnydd mewn nifer disgyblion o 51 i 58, tra bo Ysgol y Parc yn disgwyl cynnydd o 19 i 20.<br>Mae adeiladu tai newydd fel arfer yn cynhyrchu ar gyfartaledd un disgybl oed cynradd fesul bob pedwar tŷ. |
| **43.** | **Y Broses** | | |
| 44. | Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cynnwys cymuned y Parc yn y trafodaethau / roedd cyfarfodydd yn agored i rieni ond nid i oedolion ifanc eraill a darpar rieni. | 2 | Gwahoddwyd cynrychiolwyr staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd Panel Adolygu'r Dalgylch. Cynhaliwyd cyfarfodydd anstatudol mewn ysgolion unigol i staff, rhieni a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | llywodraethwyr. Rhoddwyd cyfle i ddisgyblion gymryd rhan yn y trafodaethau cychwynnol hyn. Cylchwyd papurau ymgynghorol statudol i amrediad o sefydliadau cymdeithasol a rhannwyd copïau pellach i'r ysgol er mwyn caniatáu iddynt rannu'r rhain ymhellach. Ar gais yr ysgol, agorwyd y cyfarfod statudol i rieni ar 10 Ionawr 2011 i'r gymuned ehangach. |
| 45. | Gwnaethpwyd cwyn swyddogol ynghylch priodoldeb trafodaethau Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a gynhaliwyd ym Mai 2010; roedd yr ymateb a gafwyd yn anfoddhaol; | 1 | Rhoddwyd ymateb gan Rheolwr Democratiaeth a Chyfreithiol y Cyngor. |
| 46. | Rhoddwyd amser annigonol i'r ymgynghoriad statudol; anfonwyd y papurau anghywir | 1 | Cychwynnodd yr ymgynghoriad statudol ar 13 Rhagfyr 2011 a danfonwyd papurau i'r ysgol a'u postio i ymgynghorai eraill yr wythnos flaenorol. Caeodd yr ymgynghoriad ar 4 Chwefror 2011, gan ganiatáu 7 wythnos. Ar gais yr ysgol, postiwyd copïau pellach o'r Ddogfen Statudol i'r ysgol cyn y Nadolig. Mae'r ymgynghoriad yn gyfan gwbl unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| 47. | Sonnir am gyfarfodydd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd a bod penaethiaid sydd yn aelodau'r gweithgor wedi gwrthod yn unfrydol adroddiad a gomisiynwyd gan ymgynghorydd annibynnol | 1 | Mae'r sylw hwn yn cyfeirio at weithgor a gyfarfu dair gwaith yn 2008 i drafod cynigion i ddatblygu system o ffederaleiddio ysgolion yn ffurfiol. Beirniadwyd adroddiad a gomisiynwyd gan ymgynghorydd allanol gan benaethiaid ar y gweithgor hwnnw a chafodd ei wrthod. Ynghyd â Strategaeth Ad-drefnu'r Cyngor a gyhoeddwyd yn 2007, gwrthodwyd yr adroddiad gan y Cyngor ym Mehefin 2008. Yn y cyfarfod hwnnw, sefydlodd y Cyngor weithgor newydd o aelodau etholedig – un yn cynrychioli bob grŵp gwleidyddol - i ddatblygu strategaeth newydd. Cyfarfu'r gweithgor hwn 15 o weithiau a chynhyrchodd y strategaeth *Addysg Gynradd Ardderchog i Blant yng Ngwynedd* sy'n sail i'r adolygiad presennol. |
| 48. | Ni chraffwyd ar gofnodion Panel Ymgynghorol y Sir / nid yw'r cynnig wedi ei seilio ar drafodaethau a ddigwyddodd yng nghyfarfodydd y panel adolygu dalgylch / yn creu cynsail peryg i fwrw mlaen â chynnig sy'n cael ei wrthwynebu gan y panel i gyd a'r holl gymuned | 2 | Cofnodwyd y cyfarfodydd hyn. |
| 49. | Nid yw'r Arweinydd Portffolio Addysg yn rhyddhau'r holl dystiolaeth i'r Cynghorwyr / "Gan fod y cynghorwyr a swyddogion yn mynnu rhannu gwybodaeth anghywir, gofynnwn am bleidlais arall ar fater cau oherwydd rydym yn argyhoeddedig fod y bleidlais gan y Cyngor llawn ym Mai 2010 yn gwbl ddiwerth" | 3 | Mae'r Cyngor wedi rhyddhau'r holl wybodaeth a gynhyrchwyd yn ystod cyfarfodydd adolygiad ardal y dalgylch, yr holl asesiadau effaith, costiadau, a gwybodaeth arall. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr ysgol. Mae'r holl bapurau ar gael ar wefan y Cyngor ac ar gais. |
| 50. | A yw creu ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol yn rhan o Strategaeth yr | 1 | Cytunodd y Cyngor nad yw'r system bresennol o drefniant ysgolion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adran Addysg? | | fel petai'n gynaliadwy ac mae wedi dynodi proses ar gyfer adolygu trefniant ysgolion ar draws y Sir.  Mae rhaid i'r Cyngor i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chanllawiau cyfreithiol eraill. Cyflwynwyd adolygiad o'r broses o adolygu trefniant ysgolion i'r Cyngor yn Rhagfyr 2010 a ddynododd graddfa araf adolygiad y dalgylchoedd a'r ansicrwydd mae hyn yn ei greu fel mater sylweddol. Mae'r Cyngor yn ceisio cyflymu'r prosesau adolygu er mwyn lleihau teimladau o ansicrwydd. |
| 51. | Ni fu unrhyw Gynghorwyr yn ymweld â'r ardal na'r ysgol | 1 | Bu cynghorwyr lleol a chynghorwyr sy'n eistedd ar Banel Adolygu'r Dalgylch yn ymweld â'r ysgol ar gychwyn y broses adolygu yn Y Berwyn.  Hefyd mae'r Deilydd Portffolio wedi mynychu'r holl gyfarfodydd statudol. |
| 52. | Roedd y Ddogfen Statudol yn cynnwys nifer o ffeithiau anghywir / Yn y cyfarfod statudol gofynnwyd nifer o gwestiynau heb dderbyn atebion boddhaol /  yn y cyfarfodydd a'r ddogfen ymgynghoriad cyflwynwyd celwyddau, lol a ffigyrau anghywir / dywedodd y ddogfen fod pedair ysgol gymuned pan mai Parc yw'r unig un, 'Ysgolion Bro' yw'r tair arall / y ddogfen yn nodi fod £400,000 i'w wario ar Y Berwyn – gobeithio y bydd hyn yn mynd tuag at wella lefel yr addysg yno / bydd ymateb annigonol yn arwain at i achos gael ei gyflwyno i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar sail camweinyddu Cyngor Gwynedd / yn y cyfarfod dyfynnwyd y cau fel "achos busnes" – ai busnes yw addysg plant felly? / y Ddogfen Statudol yn dweud "gwneir cais" am arian ac yn y cyfarfod dywedodd swyddogion fod cais wedi ei wneud – a ydych yn meddwl fod hyn yn gamarweiniol? / dim ond pedwar anfantais oedd yn y Ddogfen Statudol er gwaethaf yr holl ohebiaeth a anfonwyd yn flaenorol gan gymuned y Parc yn gwrthwynebu'r syniad o gau. | 7 | Gwahoddwyd gohebyddion i dynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau.  Cywirwyd un camgymeriad – ar bwynt 9.6 a oedd yn cyfeirio at ddarpariaeth addysg feithrin gan gylchoedd chwarae – yn y cyfarfodydd ymgynghoriad statudol (darperir addysg feithrin gan y Mudiad Ysgolion Meithrin).  Anfonwyd llythyr i'r ysgol yn dilyn y cyfarfod ar 10 Ionawr yn darparu rhagor o wybodaeth i bwyntiau penodol a godwyd gan gynrychiolwyr yr ysgol a'r gymuned ehangach.<br>Mae'r Ddogfen Statudol yn nodi'n glir fod Ysgol y Parc yn ysgol â ffocws cymunedol tra bo pedair ysgol arall yn yr ardal yn ysgolion cymunedol (term cyfreithiol sy'n berthnasol i bron y cyfan o ysgolion yng Ngwynedd). |
| 53. | Yn y cyfarfod ar 10-02-11 addawyd cofnodion i rieni di-Gymraeg. Ni chafwyd cyfieithiad, A yw hyn yn deg i rieni di-Gymraeg? | 1 | Anfonwyd yr holl gofnodion yn Gymraeg ar 14-01-11 i'r pennaeth. Derbyniwyd y sylwadau ar gofnodion y cyfarfod rhieni ar 21-01-11 gyda sylwadau ar y cyfarfod llywodraethwyr i ddilyn. Nid yw sylwadau ar gyfarfodydd llywodraethwyr wedi eu derbyn. Roedd cyfieithiad yr holl gofnodion i'w hanfon gyda'i gilydd yn dilyn derbyn sylwadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **54.** | **Cyllid** | | |
| 55. | Ni fyddai cau Ysgol y Parc yn arwain at arbedion o £71,000; byddai'r arbedion a wnaed yn llawer is / unwaith yr ystyrir teithio, costau rhedeg y neuadd a chostau ychwanegol ar gyfer rhedeg y gymuned mewn gwirionedd ni fydd unrhyw arbedion / arbed arian - £1miliwn i gau ysgol ond £80,000 i'w chadw'n agored? / a yw arian yn rheswm dros gau y gellir ei gyfiawnhau? / a yw £900,000 o uwchraddio i Ysgol OM Edwards wedi ei ffactora i mewn i'r arbediad hwn? / dim ond £2.67 y pen yn ychwanegol fesul disgybl yn y Sir fyddai'r arbediad / ni ystyriwyd costau swyddogion datblygu i ailstrwythuro'r gymuned. Mae'r arbedion yn ddibwys / dywed adroddiad diweddaraf ESTYN ar yr ysgol ei bod yn rhoi gwerth am arian. | 18 | Mae'r cynnig wedi ei gostio'n llawn a rhagwelir, ar ôl cymryd i ystyriaeth costau cludiant ychwanegol o £15,000, y gwireddir arbedion o £71,000.<br>Mae'r gwariant fesul disgybl yn Ysgol y Parc yn £7394. Mae hyn yn fwy na dwbl y gwariant fesul disgybl ar gyfartaledd ar draws y Sir, ac un o'r uchaf yn y Sir. Mae adolygiadau ardaloedd dalgylch yn parhau drwy'r Sir. Nid yw'n bosib rhagweld deilliant yr adolygiadau hynny ar yr amser yma. |
| 56. | Mae unrhyw sefyllfa'n gynaliadwy cyn belled ag y bo'r awdurdodau yn dymuno cynnal y sefyllfa | 1 | Cyflwynodd y gweithgor trawsbleidiol adroddiad i'r Cyngor llawn yn 2009 a gytunodd, heb wrthwynebiad, nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy yng nghyswllt addysg gynradd yng Ngwynedd. |
| 57. | Nid yw'r ystadegau ar ddyraniadau ysgolion yn cynnwys cludiant na chost AAA. Ni wariwyd dim o'r ariannu hwn yn y Parc. | 1 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cwrdd â'r costau hyn yn ganolog. |
| 58. | Derbyn fod ysgolion llai yn ddrutach ond dylid ailystyried y cynnig. Mae rhai pethau'n bwysicach nag arian / A yw'r arbediad o gau Ysgol y Parc yn ddigon i gyfiawnhau niwed addysgol a chymunedol? | 3 | Cynghorwyr Gwynedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol wedi ei seilio ar wybodaeth a geir yn yr adroddiadau hyn a phapurau cefndir eraill. |
| 59. | Mae sôn am gadw canran o'r arbedion yn y dalgylch, ac mae hyn yn arwydd o ddiffyg sicrwydd y Cyngor | 1 | Mae'r cynnig i ddatblygu polisi o gadw 20% o unrhyw arbedion a wireddir trwy ad-drefnu ysgolion mewn dalgylch sy'n gwireddu'r arbediad am hyd cyfnod y rhaglen ad-drefnu draws-sirol yn destun i ymgynghoriad gyda chyrff cynrychiolwyr, Bydd rhagor o wybodaeth am y cynnig yn cael ei ryddhau wrth i drafodaethau barhau. |
| 60. | Yn ddiweddar gwrthododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnig am ysgol newydd yn Llandysul yn rhannol oherwydd ei bod yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y niferoedd disgyblion. Bydd yn broblemus iawn fod y cyllid a ddarperir i OM Edwards i addysgu 90 o ddisgyblion | 1 | Nid oes gan y Cyngor wybodaeth am resymau'r Llywodraeth dros wrthod cais am arian cyfalaf i wireddu Ysgol Gydol Oes yn Llandysul. Mae disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio i ganiatau i ysgol gynyddu mewn niferoedd disgyblion. |
| 61. | Ddim yn cytuno gyda'r defnydd twyllodrus o ffigyrau "fesul disgybl" gan eu bod yn ddamcaniaethol ar y gorau. Mae'n £7394 nawr ond bydd niferoedd yn cynyddu'r flwyddyn nesaf a phetai'n cyrraedd y pwynt o 25 byddai'n £5324 fesul disgybl | 1 | Mae cyhoeddi gwariant mesul disgybl yn ofyn statuol gan Llywodraeth y Cynulliad. |
| 62. | Gwneir llawer mwy o arbedion ariannol o ffederaleiddio nag o gau Ysgol y Parc. | 1 | Nid yw hyn yn gywir. Mae mwyafrif costau ysgol yn dod o gyflogi staff, ni fyddai cynnal safle yn lleihau staff ac felly'n arbed arian. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amcangyfrifir y gallai sefydlu ysgol y Parc fel rhan o drefniant ffederal ym Mhenllyn arbed llai na £3,000 yn flynyddol o'i gymharu ag arbedion o £71,000 o gau Ysgol y Parc. |
| **63.** | **Opsiynau eraill** | | |
| 64. | Cefnogaeth i newid strwythur addysg yn ardal Penllyn ond yr opsiwn a ffafrir yw cydweithredu ffurfiol rhwng y Parc ac ysgolion gwledig eraill ym Mhenllyn / ni ystyriwyd yr holl opsiynau eraill yn ddigonol gan fod y Ddogfen Statudol yn ystyried "cydweithredu" ond nid bob math o gydweithredu a allai ddigwydd - nid yw "cydweithredu" yn arwain at arbediad ond byddai hyn yn dibynnu ar ba fath o gydweithredu sydd dan sylw. Yn Ebrill 2010 cyhoeddwyd rheolau newydd ynglŷn â ffederaleiddio ac ni ystyriwyd hyn / mae cefnogaeth unfrydol yn yr ardal i gynnal y Parc fel rhan o drefniant cydweithredu / gofyn i'r Cyngor yn awr ystyried opsiwn ffederal rhwng y 4 ysgol ym Mhenllyn, byddai hyn yn dod â manteision i'r holl ysgolion yn cynnwys cadw'r gwaith unigryw sy'n digwydd yn y Parc, byddai'n fodel mwy cynaliadwy, yn atgyfnerthu buddsoddiad yn Y Bala ac yn gynnig gwirioneddol arloesol / Cydweithredu gydag Ysgol OM Edwards eisoes yn digwydd; maent yn astudio gyda'i gilydd, gwersi nofio a chwaraeon; ni sefydlwyd y cydweithredu ymhellach oherwydd ofn y byddai'n esgus i gau'r ysgol / cefnogaeth i'r egwyddor o sefydlu trefniadau ffederaleiddio rhwng y pedair ysgol wledig ym Mhenllyn oherwydd strwythur ffederal cadarn / cynnig sefydlu trefniant ffederal rhwng holl ysgolion y dalgylch gan gynnwys Ysgol y Parc a'r Ysgol Gydol Oes arfaethedig | 8 | Roedd sefydlu trefniant ffederaleiddio gydag ysgolion eraill yn nalgylch y Berwyn ymhlith yr opsiynau a ystyriwyd gan y Deilydd Portffolio Addysg wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Ni roddwyd yr opsiwn ffederaleiddio ymlaen am y rhesymau canlynol:<br><br>• ni fyddai'n cynyddu maint y grwpiau dysgu yn y safle i faint sy'n gyson â strategaeth y Cyngor<br>• mae ysgolion eraill yn y dalgylch yn darparu addysg sydd o safon o leiaf cymharol ar gost is<br>• ni fyddai'n effeithio ar y gwahaniaeth mawr mewn gwariant fesul disgybl rhwng Ysgol y Parc ac ysgolion eraill yn y dalgylch ac ni fyddai'n cyfrannu arbedion a fyddai'n cael eu hail-fuddsoddi mewn cyllidebau ysgol<br>• ni fyddai'n lleihau'r lleoedd gwag<br>• nid yw ysgolion sydd â llai na 15 disgyblion yn derbyn digon o ariannu i ddarparu pennaeth ac athro/awes. |
| 65. | Teithiodd 12 o swyddogion i'r Parc i'r cyfarfod ymgynghoriad diwethaf mewn 9 o geir unigol – cyfanswm o 900 milltir yn ôl 45c y filltir | 1 | Gan y rhagwelwyd y byddai nifer o gwestiynau'n cael eu gofyn a fyddai angen ymatebion arbenigol – yn rhychwantu materion addysgol, y broses, cyllid, cyfreithiol ac eiddo, penderfynodd y Cyngor y dylai nifer o swyddogion arbenigol fynychu. Mae swyddogion yn byw mewn gwahanol rannau o Wynedd, maent wedi eu lleoli mewn gwahanol weithleoedd, ac roedd nifer wedi bod allan ar draws y Sir ar fusnes y Cyngor cyn y cyfarfod |
| 66. | Bu'r Cyngor yn anghyson â'u dulliau o gysylltu â rhieni. Mae swyddogion wedi dangos diffyg parch at rieni ac wedi mynd i arfer o ddweud hanner gwirioneddau | 1 | Mae'r Cyngor wedi ceisio aros yn gyson yn y dull mae'r ddefnyddio i gysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Ni fyddai o fudd i neb i swyddogion neu gynghorwyr ddweud "hanner gwirioneddau". |
| 67. | Pam nad yw San Steffan yn rhoi dyraniad ariannol tecach i Gymru? / Byddai Polisïau Addysg Lloegr yn ffafrio cadw ysgolion gwledig fel y | 1 | Mae Addysg yng Nghymru yn fater i Awdurdodau Lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cyngor Gwynedd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Parc yn agored | | gweithio o fewn polisïau cenedlaethol. |

# ATODIAD 4

# DADANSODDIAD O HOLIADUR I BLANT A PHOBL IFANC

Er mwyn casglu barn disgyblion yr ysgolion caiff eu heffeithio gan y cynnig, rhoddwyd y dewis i'r ysgol un ai lenwi holiadur arbennig oedd wedi ei lunio gan hwylusydd plant a phobl ifanc, neu drwy sesiwn efo hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc.

Dewisodd Ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid a'r Berwyn i lenwi holiaduron a drefnwyd sesiwn gyda hwylusydd i Ysgol y Parc.

Holwyd y cwestiynau canlynol (gweler copi o'r holiadur yn Atodiad 1). Eglurwyd wrth y plant fod newid yn gallu digwydd a gofynnwyd eu barn ar hynny.

- Sut ydych yn teimlo am hyn?
- A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn?
- Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?
- Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?

| **Ysgol Beuno Sant** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 8<br>9<br>11 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Colli bod yn ysgol Eglwysig.<br>Bwlio.<br>Gwaith cartref.<br>Colli athrawon.<br>Methu ffeindio'r ystafell ddosbarth.<br>Dim yn gwybod os wnâi ffrindiau neu beidio / colli ffrindiau.<br>Ysgol newydd yn rhy fawr / gormod o blant. | 3<br>26<br>7<br>3<br>16<br><br>9<br><br><br>12 |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Mwy o ffrindiau.<br>Athrawon newydd.<br>Maes chwarae gwell.<br>Ysgol fwy.<br>Tripiau ysgol gwell.<br>Cinio ysgol fwy blasus.<br>Gwersi mwy diddorol.<br>Gwisg ysgol newydd.<br>Gwaith cartref. | 17<br>10<br>10<br>6<br>12<br>8<br>7<br>5<br>5 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Gweithgareddau cyffrous.<br>Athrawon da.<br>Ffrindiau da.<br>Rheolau.<br>Adnoddau.<br>Tripiau da.<br>Cinio da.<br>Cae pêl droed.<br>Gym.<br>Bod yn hapus. | 9<br>16<br>17<br>17<br>11<br>11<br>9<br>6<br>5<br>4 |

| | | |
|---|---|---|
| | Bod yn ddiogel.<br>Gwaith cartref. | 6<br>4 |

| **Ysgol Bro Tegid** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 2<br>7<br>12 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Bwlio<br>Beth os nad yw pethau'n troi allan fel y cynlluniwyd?<br>Dim digon o le / gormod o blant<br>Rhannu ffreutur<br>Dim ond un iard<br>Plant hynaf yn llawer mwy na'r plant bach<br>Rhai athrawon yn colli eu swyddi | 5<br>1<br><br>5<br><br>1<br>1<br>4<br><br>5 |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Ffrindiau newydd<br>Athrawon newydd<br>Dim byd<br>Mwy o adnoddau<br>Gwell adeiladau<br>Ysgol fwy | 14<br>9<br>1<br>5<br>4<br>3 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Cyfrifiaduron<br>Teganau<br>Iard<br>Neuadd<br>Athrawon<br>Dosbarthiadau<br>Rheolau<br>Ffrindiau<br>Cinio | 4<br>1<br>1<br>2<br>9<br>2<br>7<br>4<br>4 |

| **Ysgol Y Berwyn** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 55<br>159<br>41 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Effaith ar y 6ed dosbarth<br>Plant ifanc yn cymysgu gyda phlant hyn<br>Gwisg ysgol<br>Enw'r ysgol<br>Ysgol Y Berwyn yn aros run peth<br>Athrawon yn colli eu swyddi<br>Mwy o ddosbarthiadau<br>Maint yr ysgol | 4<br>55<br><br>5<br>1<br>1<br><br>6<br>1<br>4 |

| | | |
|---|---|---|
| | Maes chwarae | 3 |
| | Gwaith adeiladu yn effeithio addysg | 30 |
| | Fydd y cae i gyd yn cael ei ddefnyddio? | 12 |
| | Ciwio hirach amser cinio | 4 |
| | Fydd lle i barcio? | |
| | Dim byd, mae'n syniad da | 90 |
| | Bwlio | 9 |
| | Newid ysgol | 9 |
| | Efallai fod plant y Parc ddim eisiau mynd i OM Edwards ac eisiau mynd i'r Ysgol newydd am ei fod yn well | 2 |
| | Dim digon o le i bawb | 5 |
| | Cau rhai ysgolion cynradd | 18 |
| | Gormod o blant mewn dosbarthiadau = llai o sylw gan athrawon | 1 |
| | Dim digon o fwyd | 2 |
| | Plant yn colli'r profiad pwysig o symud o ysgol gynradd i uwchradd | 10 |
| | Bydd yn dinistrio cymunedau llai fel Y Parc | 5 |
| | Colli'r iaith Gymraeg | 1 |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Ysgol fwy | 12 |
| | Adeilad newydd | 19 |
| | Gweld yr ysgol newydd wedi ei gorffen | 31 |
| | Dillad ysgol | 2 |
| | Cinio | 2 |
| | Ysgol fodern | 15 |
| | Ffrindiau newydd | 21 |
| | Dim byd | 42 |
| | Enw'r ysgol newydd | 2 |
| | Cael theatr newydd | 11 |
| | Mynd i 6ed dosbarth yn yr ysgol | 2 |
| | Mwy o adnoddau | 16 |
| | Chwaraeon | 3 |
| | Ysgol newydd i blant Y Parc | 1 |
| | Cael ffenestri newydd | 1 |
| | Bod gyda'r plant iau | 6 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Adnoddau da | 25 |
| | Adeilad gwell | 6 |
| | Mwy o le | 13 |
| | Athrawon da / mwy o athrawon | 34 |
| | Chwaraeon | |
| | Cinio | 32 |
| | Gwisg Ysgol | 10 |
| | Mwy o le yn y ffreutur | 7 |
| | Addysg dda | 2 |
| | Llyfrgell a ystafelloedd TGCh | 121 |
| | Enw'r ysgol | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| | Diogelwch<br>Ffrindiau<br>Cael hwyl<br>Atgofion<br>Bws wennol i fynd a plant adref yn ystod y dydd os ydynt yn teimlo'n sal<br>Pawb yn hapus<br>Iaith Gymraeg<br>Disgyblion | 1<br>6<br>57<br>18<br>4<br>1<br><br><br>12<br>1<br>2 |

| Ysgol Y Parc | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 1<br>0<br>22 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Dosbarthiadau mwy.<br>Plant yn cael llai o sylw.<br>Teuluoedd ddim eisiau byw yn y Parc os fydd dim ysgol yno.<br>Llai o blant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau mewn ysgol fwy.<br>Gorfod teithio i'r ysgol mewn bws, a plant yn symud o gwmpas y bws yn gwneud y siwrnai yn beryglus. | Heb nodi faint o weithiau a wnaethpwyd pob sylwad. |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Mwy o ffrindiau. | 2 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Yr addysg, yn cael ei ddysgu gan athrawon da.<br>Lle hapus, heb ffraeo rhwng plant.<br>Pawb yn cael sylw mewn dosbarthiadau heb fod yn rhy fawr.<br>Pawb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chystadlaethau.<br>Bod yr ysgol yn rhan o'r gymuned. | Heb nodi faint o weithiau a wnaethpwyd pob sylwad. |

# <u>ATODIAD 5</u>

# CWESTIYNNAU AC ATEBION – MATERION SYDD WEDI CODI MEWN PERTHYNAS Â'R CYNNIG I GAU YSGOL Y PARC

**CWESTIYNNAU AC ATEBION**
**– MATERION SYDD WEDI CODI MEWN PERTHYNAS Â'R CYNNIG I GAU YSGOL Y PARC**

**Beth yw'r cyswllt a chyfathrebu wedi bod rhwng y Cyngor gyda chymuned y Parc?**

Ers cychwyn y drafodaeth ar addysg yn nalgylch y Berwyn mae cyswllt cyson wedi bod rhwng cymuned Y Parc ac Aelodau arweiniol a Swyddogion y Cyngor. Yn ogystal â nifer o ohebiaethau ar ffurf llythyr ac ebyst, mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi eu cynnal. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn cynnwys dyfodol yr ysgol a hefyd y cyswllt rhwng adeilad yr ysgol a'r defnydd cymunedol.

Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad i sicrhau cefnogaeth i gynaliadwyedd y defnydd cymunedol o'r neuadd ac wrth hynny barhad y gweithgareddau a gynhelir yno.

Mae trafodaeth ar ôl-ddefnydd adeilad Ysgol Y Parc wedi parhau. Yn wir, bu'r Gwasanaeth Eiddo mewn cyswllt diweddar (gohebiaeth diwethaf wedi ei yrru canol Chwefror) yn amlinellu ac yn egluro natur y lês ac yn nodi beth sy'n gyfrifoldeb ar ran y Cyngor.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cynnig awgrymiadau o ran y cyllid fyddai ar gael (oddeutu £5500 yn flynyddol) i gynnal y ddarpariaeth i'r dyfodol, yn ogystal â chynnig cefnogaeth Swyddog Adfywio i'r gymuned. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

**Beth yw oblygiadau gohirio gweithredu ar gynnig i gau Ysgol y Parc?**

Byddai newid o sylwedd i ddyddiad gweithredu cau Ysgol y Parc yn golygu newid sylfaenol i'r cynnig, ac felly'r angen i ail-ymgynghori'n statudol a chynnal proses ymgynghori. Golygai hyn y bydd angen ail lunio papur ymgynghoriad statudol ac ail gynnal 3 cyfarfod. Yn ogystal, byddai oediad amser oherwydd yn angen i sicrhau amser priodol yn unol â gofynion y ddeddf a byddai angen adrodd yn ôl unwaith eto i gylch pwyllgorau'r Cyngor.

Mae yna negeseuon wedi cyrraedd y Cyngor o blith penaethiaid ysgolion bod y broses o ad-drefnu ysgolion yn hirfaith ac yn creu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd o fewn y gyfundrefn.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad am gefnogaeth gyllidol i wireddu'r cynigion. Disgwylir ymateb gan y Llywodraeth yn ystod Haf 2011. Gydag adnoddau yn prinhau yn genedlaethol ac yn lleol, mae'n debygol y bydd llai o geisiadau yn llwyddiannus nag y gobeithiwyd yn wreiddiol. Mae'n debygol y bydd y Llywodraeth yn blaenoriaethu cynigion ar sail parodrwydd i weithredu. Byddai llithro'r dyddiad gweithredu, gan orfodi cyfnod newydd o ymgynghori dros Haf 2011, yn golygu na fyddai'r Cyngor wedi cymryd penderfyniad terfynol cyn i'r Llywodraeth ddod i gasgliad ar y cynlluniau y byddai eisiau'u cefnogi. Mae yma felly risg glir i hygrededd y Cynllun Busnes sydd eisoes wedi'i gyflwyno i'r Llywodraeth. Os na fydd y Cyngor yn llwyddiannus gyda'r cais ar gyfer Band A (sef cyfnod 2012-15), ni fydd cyfle arall i gael mynediad at grantiau cyfalaf tan 2015. Gallai hyn olygu oediad o 3 mlynedd o leiaf wrth sefydlu'r campws gydol oes yn nhref y Bala.

Mae'r Gweinidog Addysg (yn y *Ddogfen Ymgynghori – Trefniadaeth Ysgolion – Newidiadau Posibl i'r Broses – Chwefror 2011*) yn awgrymu'n glir erbyn hyn ei fod yn bwriadu arfer ei bwerau i ymyrryd mewn materion lleol:

- gorchymyn awdurdodau lleol i gau ysgolion os nad ydynt yn gweithredu'n briodol
- creu rheoliadau penodol ar gyfer ysgolion dan faint penodol (awgrymir 15-20) er mwyn cau'r ysgolion hynny heb fynd trwy'r broses statudol lawn.

**Be os nad ydy arian y Cynulliad yn dod?**

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad am gefnogaeth gyllidol i wireddu'r cynigion.

Mae'r cynnig yn rhan o brosiect £10.2m yn nalgylch y Berwyn i sicrhau bod ysgolion yn yr ardal yn cael eu huwchraddio hyd at safon Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad am 70% o'r gost (£7.7m, fyddai'n gadael y Cyngor i ariannu'r £2.56m sy'n weddill). Cafodd tua £1.3m o gost gyffredinol y prosiect ei glustnodi ar gyfer gwaith uwchraddio yn Ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn.

Mae cais Cyngor Gwynedd yn un cryf a realistig. Disgwylir ymateb gan y Llywodraeth yn ystod Haf 2011.

Pe na bai'r cais yn llwyddiannus byddai'n rhaid edrych ar y sefyllfa os y daw i hynny. Byddai rhaid i'r Cyngor ystyried a fyddai modd ariannu'r cynllun drwy strategaeth ariannol y Cyngor. Mewn sawl Sir arall, oherwydd fod arian yn prinhau, mae hyn wedi arwain at gynigion fwy radical sy'n golygu fod cyfleusterau a darpariaeth yn cael eu crynhoi a'u canoli.

**A ystyriwyd trefniant o ffederaleiddio (neu ffedereiddio) o gwbwl?**

Yn ystod y trafodaethau yn y Panel Adolygu Dalgylch ystyriwyd nifer fawr o fodelau ar gyfer y dalgylch yn cynnwys modelau cydweithio. Nodir yr holl fodelau ystyriwyd yn ystod y trafodaethau. Yn ogystal, edrychwyd ar wahanol agweddau o'r opsiynau hyn. Mae'r manylion i'w gweld ar safle gwe'r Cyngor:

Dogfen Modelau Posib:
http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1020/PAD2__Papurau.pdf

Dogfen Modelau ar gyfer Ad-drefnu Addysg yn nalgylch y Berwyn:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1065/PapurauPAD3YBerwyn.pdf

Roedd y dewisiadau a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu yn cynnwys:

- Dim newid
- Ffederaleiddio Ysgol y Parc gydag Ysgol OM Edwards a rhai neu bob un o'r ddwy ysgol wledig yn ardal dalgylch y Berwyn.
- Cau pob un o'r chwe ysgol gynradd a darparu naill ai un ysgol gynradd neu un ysgol dysgu gydol oes yn nhref y Bala.

Honnwyd y byddai sefydlu trefniant ffederal ar gyfer ardal Penllyn - gan gynnwys y pedair ysgol wledig y tu allan i dref y Bala gan hefyd o bosib gynnwys yr ysgol gydol oes arfaethedig yn nhref y Bala - yn creu mwy o arbedion na chau Ysgol y Parc.  Amcangyfrifai Swyddogion y Cyngor y gallai sefydlu ysgol y Parc fel rhan o drefniant ffederal ym Mhenllyn arbed oddeutu £3,000 yn flynyddol o'i gymharu ag arbedion o £71,000 o gau Ysgol y Parc. Ni fyddai trefniant tebyg yn cynnwys ysgol y dref yn creu fawr mwy o arbediad.

Mae gwerth nodi fod dau fath o ffederaleiddio (neu "ffedereiddio" fel y cyfeirir ato bellach) yn cael ei amlygu yn ddiweddar:

1. Ffedereiddio "meddal": Yma, mae pob ysgol yn parhau fel endid arwahân (gyda enw'r ysgol a chyllideb arwhan) ond gyda un corff Llywodraethol Federal. O bosib mewn trefniant o'r fath byddai'r ysgolion yn rhannu Pennaeth, ond y newid mwyaf fyddai ffurfioli'r cydweithio a rhannu adnoddau gan yr ysgolion hynny. Mater i ysgolion unigol fyddai ymuno neu gadael ffederasiwn. Dim ond yng nghyd-destun Ysgol newydd gall yr Awdurdod ymuno Ysgol mewn ffederasiwn yn ôl y rheolau yma. .

2. Ffedereiddio "caled": Mae'r trefniant hwn yn cael ei amlygu yn y Darpar Fesur Addysg Cymru 2011 sydd yn disgwyl Cadarnhad y Frenhines ar hyn o bryd. Drwy'r ddarpariaeth yma bydd gan yr Awdurdod  fodd i ddod ag ysgolion at ei gilydd i  greu Ysgolion Ffederal.  Mae'r mesur yn crybwyll y byddai Ysgol Ffederal yn cael ei thrin fel un ysgol mewn achosion sydd i'w penodi. Wedi i'r mesur ddod i rym disgwylir Rheoliadau fydd yn ymdrin â manylion sefydlu a chynnal Ysgol Ffederal a ddylai gyfarch agweddau staffio, Llywodraethu a chyllido.

Nodir isod fanylion cyllidol trefniant ffederal yn unol â rheoliadau ar hyn o bryd - gyda phedair ysgol. Wrth gwrs, byddai unrhyw arbediad yn llai pe ystyrid llai o ysgolion. Mae Swyddogion cyllid y Cyngor wedi cadarnhau ffigyrau ar gyfer trefniant ffederal posib, cyflwynir yr wybodaeth isod.

| **Ffederaleiddio Ysgolion O M Edwards, Parc, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn** | | |
|---|---|---|
| Ffederaleiddio 4 ysgol - O M Edwards, Parc, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn | | |
| | | **£** |
| 1 | Penodi Pennaeth Ysgol Ffederal *(uchafswm pt 15)*<br>*cyflog yn seiliedig ar cyfanswm nifer disgyblion y 4 ysgol* | **64,537** |
| 2 | Dileu 4 swydd Pennaeth *(uchafswm)* | **-239,756** |
| 3 | Creu 4 swydd Pennaeth Safle *(uchafswm)* | **201,748** |
| 4 | Dileu 4 x ½ diwrnod rheoli | **-17,940** |
| 5 | Dileu 6 x ½ diwrnod CPA | **-26,910** |
| 6 | Costau Teithio athrawon rhwng safleoedd | **2,000** |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Creu ½ diwrnod rheoli ar gyfer 3 Pennaeth Safle | **13,455** |
| 8 | Cyfanswm Arbediad | **-2,866** |

Mae rhagdybiaethau isod wedi eu cymeryd wrth gyfrifo’r ffigyrau uchod.

Rhagdybiaeth rhaniad amser

Pennaeth -

2 ddiwrnod rheoli
3 diwrnod cyflawni CPA ar ran athrawon

Pennaeth Safle -

4 diwrnod dosbarth
½ diwrnod CPA
½ diwrnod rheoli

O.N. 1 Rhagwelir arbedion bychan pellach ar gostau fel CLG Cyngor Ariannol, CLG Swyddfa Ardal, Clerc Llywodraethwyr ayb.

O.N. 2 Nid yw'r ffigyrau yma yn cynnwys unrhyw ragdybiaeth o gostau cynlluniau i gludo disgyblion rhwng y safleoedd.

Mae’r adroddiad a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 15 Mawrth yn nodi pam na chyflwynwyd y cynnig i gynnal Ysgol y Parc fel ysgol neu safle o fewn trefniant ffederal am y rhesymau canlynol:

- ni fyddai’n cynyddu maint y grwpiau dysgu ar y safle i faint a fyddai’n gyson â strategaeth y Cyngor.
- mae ysgolion eraill y dalgylch yn darparu addysg sydd o leiaf o ansawdd cymharol ar lai o gost
- ni fyddai’n effeithio ar y gwahaniaeth eang yn y gwariant fesul disgybl rhwng Ysgol y Parc ac ysgolion eraill y dalgylch ac ni fyddai’n cyfrannu at arbedion i’w hail fuddsoddi mewn cyllidebau ysgolion
- ni fyddai’n lleihau nifer y lleoedd gwag
- nid yw ysgolion â llai na 15 disgybl yn derbyn digon o arian i ddarparu pennaeth ac athro / athrawes.

**A roddwyd ystyriaeth i faterion cludiant o gwbwl?**

Mae strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn nodi bod ganddo’r amcan o sicrhau nad yw disgyblion yn teithio mwy na 30 munud mewn un cyfeiriad i’r ysgol.

Roedd rhai yr ymgynghorwyd gyda hwy yn mynegi’r pryder bod y llwybr teithio o’r Parc i safle Ysgol O.M. Edwards yn gul ac yn anaddas ar gyfer bysus.

Mae swyddogion cludiant y Cyngor wedi asesu’r llwybr teithio ac maent yn fodlon ei bod yn ymarferol darparu un bws mini o fewn i bolisi cludiant ysgol y Cyngor, yn ddiogel. Gwnaed yr asesiad ym mis Ionawr 2011 a hynny yng nghwmni Pennaeth yr ysgol. Mae bws 20 sedd eisoes yn gwneud y daith yn ddyddiol i gludo plant oed uwchradd o'r Parc i'r Bala.

Mae'r costau cludiant a gyflwynwyd yn deillio o wybodaeth arbenigol Uned Cludiant yr Adran Addysg. Amcangyfrifir y byddai bws mini (20 sedd) yn medru darparu cludiant am oddeutu £15,000 y flwyddyn.

Byddai bws o'r maint hwn yn ddigonol i gludo holl blant dalgylch y Parc i OM Edwards. Hyd yn oed petai angen bws 50 sedd, amcangyfrifir y byddai'r gost tua £22-24,000 y flwyddyn.

Dylid cofio fod yr arbedion blynyddol arfaethedig o £71,000 eisoes wedi cymryd ystyriaeth o'r £15,000 y byddai angen i gludo plant y Parc i Lanuwchllyn.

Nid yw Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn darparu oedolion i oruchwylio ar fysus ysgol, heblaw am y gyrrwr. Fodd bynnag, fel rhan o ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau statudol yn ardal Tywyn, mae'r Cyngor wedi ymgymryd i sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu darparu ar unrhyw gontractau bws newydd ac i ddarparu goruchwyliaeth gan oedolyn ar ddechrau'r trefniadau newydd. Bydd y Cyngor yn adolygu'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth gan oedolyn ar ôl tymhorau llawn cyntaf y trefniant newydd.

**Beth yw'r rhagolygon niferoedd yn Ysgol Y Parc?**

Ysgol y Parc yw'r ail ysgol gynradd leiaf sydd yng Ngwynedd a hi yw'r lleiaf yn nalgylch y Berwyn gyda 19 o ddisgyblion ym mis Medi 2010. Nid yw wedi darparu ar gyfer mwy na 27 o ddisgyblion (4 – 10 mlwydd oed) ar unrhyw adeg yn ystod y 35 mlynedd diwethaf ac roedd y nifer mor isel ag wyth yn ystod y degawd diwethaf.

Yn unol â'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Ysgol Y Parc yn, mae'r ysgol ei hunan yn darogan y bydd nifer y disgyblion barhau o gwmpas 20 yn ystod y dair blynedd nesaf.

**A fydd y cynnig yma yn newid maint dosbarthiadau?**

Yn y Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a fabwysiadwyd yn ddiwrthwynebiad gan Gyngor Gwynedd yn Ebrill 2009, nodwyd:

*"Byddwn yn anelu – drwy ein cynlluniau – i gyflawni'r canlynol o ran maint dosbarthiadau:*
*• Na fydd mwy na 30 o ddisgyblion o un oed mewn dosbarth Cyfnod Allweddol 2;*
*• Y byddwn, dros gyfnod o flynyddoedd, yn anelu i sicrhau uchafswm o 25 disgybl o'r un oed mewn dosbarth cynradd;*
*• Anelu at sicrhau nad oes gan unrhyw ddosbarth oed cymysg fwy na 20 disgybl na llai na 12 Disgybl".*

Fel nodir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd 15/3/11 - mae cyfartaledd maint dosbarthiadau yn Ysgol y Parc ar hyn o bryd yn 9.5 ac yn Ysgol OM Edwards yn gyfartaledd o 17. Mae'r strategaeth yn nodi mai'r amcan ddylai fod i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12 a 25 disgybl.

Rhagwelir y bydd grwpiau mwy o blant yn Ysgol O M Edwards - ar sail niferoedd 2009, mae'r cynnig yn rhagweld y byddai gan yr ysgol gyllideb sy'n caniatáu ar gyfer 3 o athrawon i addysgu 64 o blant, neu gyfartaledd maint dosbarth o 21.

Felly ar hyn o bryd mae llefydd gweigion yn y ddwy ysgol. Mae'r cynnig hwn yn cynnig ateb i'r sefyllfa yma.

**Ar beth fydd y gwariant arfaethedig ar Ysgol O.M. Edwards?**

Yn unol â Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor amcangyfrifir fod angen gwariant o dros £107,000 ar waith cynnal a chadw ac ar faterion iechyd a diogelwch yn Ysgolion y Parc ac O.M. Edwards.

Mae bwriad ymestyn ac uwchraddio Ysgol O.M. Edwards er mwyn iddi allu darparu'r cyfleusterau gorau ar gyfer addysg. e.e.

Gwaith gwneud yr adeilad yn addas i bwrpas
Gwaith rheolaeth traffig
Diogelwch a TG
Cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch tân
Mynediad ar gyfer yr anabl
Cadwraeth ynni

Bydd y gwaith hefyd yn sicrhau bod digon o le ar gael os bydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn y dyfodol.

**A ystyriwyd yr effaith ar yr iaith Gymraeg a'r effaith ar y gymuned?**

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth cafodd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, Iaith a Chymuned eu cyflawni ar y cynigion.

Gwnaethpwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynigion. Gwelwyd na ellid disgwyl unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol oddi wrth y cynnig. Yn wir, gan fod y cynnig yn golygu gwaith uwchraddio ac ymestyn sylweddol i Ysgol OM Edwards, bydd unrhyw bryderon am fynediad yn cael sylw priodol.

Cwblhawyd Asesiad Effaith Iaith lawn ac annibynnol ac mae ar gael ar wefan y Cyngor

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y cynnig hwn yn rhoi cyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, ar gyfer disgyblion oed cynradd yn y Parc a Llanuwchllyn.

Daeth yr asesiad i'r casgliad y gallai'r cynnig gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a thu allan iddi ac yn gyffredinol, y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith.

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Gymunedol llawn ac annibynnol ar y cynigion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion oed cynradd sy'n byw yn nalgylch y Parc ar hyn o bryd yn mynd i'r ysgol honno. Mae'r holl ddisgyblion oed cynradd sy'n byw yn nalgylch OM Edwards ar hyn o bryd yn mynd i'r ysgol honno. Mae'n debygol y cryfheir addysg wledig yn ardal Llanuwchllyn a'r buddsoddiad yn adeiladau'r ysgol yn cadw plant o fewn y dalgylch.

Gwelodd yr asesiad y gallai cau Ysgol y Parc a darparu lleoedd i ddisgyblion y Parc yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, gael effaith negyddol ar gymuned Y Parc. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion o beth ellid ei wneud i leddfu effaith negyddol cau ysgolion. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i weithredu llawer o'r rhain, yn cynnwys cefnogaeth i gynnal darpariaeth gymunedol. Bydd y Swyddog Adfywio yn yr ardal leol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned.

Mae neuadd adeilad Ysgol y Parc yn adnodd cymunedol gaiff ei warchod yn ffurfiol drwy lês. Bydd y brydles yn parhau ac mae'n berthnasol o ran cynnal y safle ac yn gosod allan ddyletswyddau'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned i gefnogi'r ddarpariaeth gymunedol ar y safle. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn ar ffyrdd o barhau â'r trefniant hwn i'r dyfodol gydag opsiynau wedi eu crybwyll o ran yr adeilad i'r dyfodol a'r hyn fyddai ar gael i gynnal y defnydd yn ogystal. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau. Mae'r Cyngor eisoes wedi cyfrannu yn gadarnhaol i'r trafodaethau hyn ac wedi cynnig cymorth i'r gymuned i sicrhau fod yr adnodd yn un cynaliadwy i'r dyfodol ac felly yn diogelu'r gweithgareddau a gynhelir yno.

**Beth yw safon yr addysg yn yr ysgolion?**

Mae Ysgol y Parc ac Ysgol OM Edwards yn darparu addysg o safon dda.

Sgoriodd Ysgol y Parc saith Gradd 2 yn ei harolygiad diweddaraf.

Sgoriodd Ysgol O.M. Edwards saith Gradd 1 yn ei harolygiad diweddaraf.

Mae pob rheswm i ddisgwyl y bydd darparu cyfleusterau newydd yn Ysgol OM Edwards, sefydlu dosbarthiadau mwy o faint a chryfach a chreu cronfa fwy o staff dysgu a chefnogi yn cynnal ac yn gwella safonau addysgol. Dylai'r cynnig helpu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys a hynny mewn sefydliad addysgol fydd wedi derbyn buddsoddiad, ac a fydd yn gynaliadwy i'r dyfodol.

**A fuodd y Cyngor yn gohebu ac ymgynghori o gwbwl ar y cynnig yma?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a chanllawiau'r Llywodraeth. Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori statudol yn Ysgol Y Parc ar 10 Ionawr 2011 a chyfnod o ymgynghoriad yn unol â gofynion y ddeddf.

Bu trafodaethau cynhwysfawr yn y Panel Adolygu Dalgylch ac yn ystod y broses. Mae cyfathrebu dwy-ffordd cyson wedi bod ar ffurf cyfarfodydd a gohebiaethau. Fe sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch y Berwyn yn ystod Tachwedd 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 4 Tachwedd 2009. Roedd pedwar cyfarfod pellach, ar 2 Rhagfyr 2009, 4 Chwefror 2010, 23 Mawrth 2010 a 12 Mai 2010.

Roedd y wybodaeth ystadegol gyflwynwyd yn y papur ymgynghorol statudol wedi ei gytuno arni gan gynrychiolwyr yr ysgol yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch.

**Pryd caiff y Rhybuddion Statudol eu rhyddhau?**

Gofynnir i'r Cyngor am ganiatâd i ryddhau rhybuddion statudol er mwyn gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Y Parc gan ddarparu lleoedd i blant y dalgylch yn Ysgol O. M. Edwards.

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (S.I 1999/1671) fel y'i diwygiwyd, a ddaeth yn weithredol ar 1 Mawrth 2011, y terfyn amser i ymateb i rybuddion statudol gyhoeddwyd yw un mis ar ôl y dyddiad yn cyhoeddi. Rhaid caniatáu cyfnod o fis er mwyn galluogi rhai sydd eisiau gwrthwynebu i ymateb. Yn ogystal, rhaid cael cyfnod digonol y tu allan i gyfnod gwyliau ysgol i ymateb i'r Rhybudd.

Oherwydd oblygiadau statudol a'r arweiniad a geir yng Nghylchlythyr 21/2009 ni ddylai Rhybuddion Statudol gael eu cyhoeddi nes bo sicrwydd y bydd arian mewn lle i wireddu unrhyw gynlluniau sydd angen buddsoddiad.

# ATODIAD 6

# RHESTR DOGFENNAU CEFNDIR A GWYBODAETH BELLACH:

**<u>Atodiad 6</u> - Rhestr dogfennau cefndir a gwybodaeth bellach:**

Canllawiau Cylchlythyr y Cynulliad 21/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion
Cyngor Gwynedd – Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd
Rhaglenni a phapurau Cyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch gan gynnwys Gwybodaeth Ystadegol a Modelau a ystyriwyd
Asesiad Effaith Iaith, Cymuned a Chydraddoldeb
Adroddiad i'r Cyngor Llawn – 15/7/10
Copïau llawn o ohebiaeth a gafwyd mewn ymateb i ymgynghori

Mae copïau ar gael i bawb eu gweld ar Wefan y Cyngor, yn Swyddfeydd Ardal yr Adran Addysg (Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli) a Llyfrgell y Bala ac ar gyfer Aelodau o'r Cyngor – copïau ar gyfer Grwpiau Gwleidyddol yn Lolfa'r Aelodau.